


Rhif ymchwil cymdeithasol: 60/2026

Dyddiad cyhoeddi: 26/03/2026

Ymchwilio i'r potensial i ddatganoli gweinyddiaeth nawdd cymdeithasol i Gymru



Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-83745-321-4

Ymchwilio i'r potensial i ddatganoli gweinyddiaeth nawdd cymdeithasol i Gymru

Awduron:



Adroddiad Ymchwil Llawn: Alma Economics (2026). Ymchwilio i'r potensial i ddatganoli gweinyddiaeth nawdd cymdeithasol i Gymru Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad GSR 60/2026.

Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/ystadegau-ac-ymchwil>

Barn yr ymchwilwyr yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid ydynt o reidrwydd yn adlewyrchu safbwyntiau Llywodraeth Cymru

Hoffai Alma Economics ddiolch i David Phillips a Tom Waters o'r Sefydliad Astudiaethau Cyllid, a Carl Emmerson (gynt o'r Sefydliad Astudiaethau Cyllid), am roi mewnbwn arbenigol a chynghor gwerthfawr drwy gydol y prosiect. Barn Alma Economics yw'r holl gasgliadau yn yr adroddiad hwn ac nid ydynt o reidrwydd yn cynrychioli safbwyntiau ein partneriaid.

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:

Nerys Owens

Ymchwil Cyfiawnder Cymdeithasol

Adran Tystiolaeth a Chymorth Cydraddoldeb, Tlodi a Phlant

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: SocialJusticeResearch@gov.wales

Tabl cynnwys

Geirfa	4
1. Cyflwyniad	6
2. Methodoleg	8
2.1 Dulliau Cam 1	8
2.1.1 Asesiad Cyflym o'r Dystiolaeth (REA)	8
2.1.2 Arolwg ar-lein	11
2.1.3 Cyfweliadau	12
2.2 Dulliau Cam 2	13
2.2.1 Cyfweliadau	13
3. Canfyddiadau	14
3.1 Diffiniad o weinyddiaeth nawdd cymdeithasol	14
3.2 Asesiad Cyflym o'r Dystiolaeth	14
3.2.1 Yn gryno	14
3.2.2 Natur ac ansawdd y sylfaen dystiolaeth	15
3.2.3 Datganoli gweinyddiaeth nawdd cymdeithasol a gwell aliniad â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru	16
3.2.4 Ychwanegedd ac ymarferoldeb opsiynau ar gyfer datganoli gweinyddiaeth nawdd cymdeithasol yng Nghymru	17
3.2.5 Cyfyngiadau, costau a risgiau gweinyddiaeth nawdd cymdeithasol ddatganoledig yng Nghymru	19
3.3 Arolwg	20
3.3.1 Yn gryno	20
3.3.2 C2: Beth yw eich maes o arbenigedd ym maes nawdd cymdeithasol?	21
3.3.3 C3 i C5: Ym mha feysydd eang o nawdd cymdeithasol ydych chi'n credu y gallai datganoli pwerau gweinyddol i Gymru wneud gwahaniaeth cadarnhaol sylweddol i aelwydydd neu gymunedau yng Nghymru?	21
3.3.4 C6 i C10: I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y gellir cyflawni'r canlynol eisoes gan ddefnyddio pwerau a galluoedd presennol, heb ddatganoli pellach ar drefniadau nawdd cymdeithasol?	24
3.3.5 C11 to C13: Pa un o amcanion Siarter Budd-daliadau Cymru, yn eich barn chi, y gellid eu cefnogi'n well drwy ddatganoli trefniadau nawdd cymdeithasol?	26
3.3.6 C14 i C15: Pa ffactorau ydych chi'n ystyried sy'n debygol o gyfyngu ar botensial datganoli trefniadau nawdd cymdeithasol i Gymru i gyflawni ei nodau? ..	29
3.3.7 C16: A oes unrhyw risgiau neu heriau eraill rydych chi'n eu rhagweld o ran datganoli trefniadau nawdd cymdeithasol?	30

3.3.8	C17: A oes enghreifftiau penodol o weinyddiaeth nawdd cymdeithasol ddatganoledig mewn mannau eraill yn y DU rydych chi'n credu y dylid eu hefelychu yng Nghymru? Os felly, manylwch.	30
3.3.9	C18 i C20: Isod mae rhai enghreifftiau penodol damcaniaethol o drefniadau nawdd cymdeithasol y gellid eu datganoli i Gymru. Pa un o'r rhain, yn eich barn chi, sydd fwyaf addawol?	30
3.4	Cyfweliadau.....	32
3.4.1	Yn gwyno	32
3.4.2	Aliniad â Siarter Budd-daliadau Cymru a blaenoriaethau eraill Llywodraeth Cymru 33	
3.4.3	Grwpiau hawl wyr a mathau o fudd-daliadau i'w blaenoriaethu	34
3.4.4	Gwersi a ddysgwyd o fannau eraill yn y DU	35
3.4.5	Ffactorau cyfyngol, costau a risgiau gweinyddiaeth nawdd cymdeithasol ddatganoledig yng Nghymru	36
3.3.6	Opsiynau posibl ar gyfer datganoli gweinyddiaeth nawdd cymdeithasol i Gymru 39	
4.	Opsiynau ar gyfer datganoli gweinyddiaeth nawdd cymdeithasol.....	40
4.1	Datganoli rhai swyddogaethau'r Ganolfan Byd Gwaith	40
4.2	Datganoli yn galluogi newidiadau i brosesau asesu iechyd ac anabledd	41
4.3	Datganoli mewn perthynas â budd-daliadau sy'n ymwneud â thai.....	42
4.4	Opsiynau a ddewiswyd ar gyfer astudiaethau achos manwl	43
4.5	Astudiaethau achos.....	43
4.5.1	Datganoli i sicrhau gwell rhannu data a gwell gwelededd o aelwydydd incwm isel yng Nghymru	44
4.5.2	Cymorth a chynghor mwy lleol a phersonol i hawl wyr budd-daliadau.....	48
4.5.3	Ymdrechion yr Alban i ail-fframio nawdd cymdeithasol	51
5	Myfyrdodau ar y ffordd ymlaen	55
5.1	Enghraifft o ffordd ymlaen: datganoli gweinyddiaeth Credyd Pensiwn	56
	Atodiad A	58
	Holiadur yr arolwg.....	58
	Atodiad B	64
	Cam 1 - canllaw pwnc cyfweliad	64
	Atodiad C	67
	Cam 2 - canllaw pwnc cyfweliad	67

Rhestr o dablau

Tabl 1. Gweithdrefn ar gyfer symud o'r rhestr chwilio i'r rhestr ddarllen.....	10
Tabl 2. Dosbarthiad yr ymatebion ar gyfer C2	21

Rhestr o ffigurau

Ffigur 1. Safle cyffredinol y meysydd nawdd cymdeithasol yn ôl yr effaith gadarnhaol ganfyddedig o ddatganoli pwerau gweinyddol i Gymru	22
Ffigur 2. Dosbarthiad safleoedd y meysydd nawdd cymdeithasol yn ôl yr effaith gadarnhaol ganfyddedig o ddatganoli pwerau gweinyddol i Gymru	23
Ffigur 3. Cytundeb ymatebwyr ynghylch i ba raddau y gellir cyflawni amcanion WBC gan ddefnyddio'r pwerau presennol	25
Ffigur 5. Dosbarthiad safleoedd amcanion WBC yn ôl i ba raddau y gellid eu cefnogi'n well drwy ddatganoli trefniadau nawdd cymdeithasol	28
Ffigur 6. Siart bar amllder yn dangos y ffactorau mae ymatebwyr yn eu hystyried yn debygol o gyfyngu ar botensial datganoli gweinyddiaeth nawdd cymdeithasol yng Nghymru	29
Ffigur 7. Safle trefniadau nawdd cymdeithasol damcaniaethol yn ôl lefel ganfyddedig o effeithiolrwydd	31
Ffigur 8. Dosbarthiad safleoedd trefniadau nawdd cymdeithasol damcaniaethol yn ôl lefel ganfyddedig o effeithiolrwydd	31

Geirfa

Ardal Marchnad Rentu Eang (BRMA)

Mae BRMA yn ardal ddaearyddol a ddefnyddir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau ac awdurdodau lleol yn y DU i bennu cyfraddau Lwfans Tai Lleol ar gyfer tenantiaid sy'n rhentu gan landlordiaid preifat.

Gostyngiadau'r Dreth Gyngor

Mae Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn gynllun gan Lywodraeth Cymru sy'n helpu pobl ar incwm isel i dalu eu Treth Gyngor.

Yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP)

Y DWP yw adran llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am les, pensiynau, a chefnogi pobl i waith.

Taliad Disgresiwn at Gostau Tai (DHP)

Mae DHP yn daliad ychwanegol y gall awdurdodau lleol ei ddarparu i helpu pobl sydd angen cymorth ariannol ychwanegol gyda chostau tai.

Fframwaith Cyllidol

Mae'r Fframwaith Cyllidol yn gytundeb sy'n nodi sut mae llywodraethau datganoledig yn cael eu hariannu a sut mae pwerau trethiant a gwario yn rhyngweithio â chyllideb Llywodraeth y DU.

Cyllid a Thollau EF (CThEF)

Awdurdod trethi, taliadau a thollau'r DU yw CThEF.

Budd-dal Tai

Mae'r Budd-dal Tai yn fudd-dal sy'n dibynnu ar brawf modd sy'n helpu pobl ar incwm isel i dalu eu rhent.

Cyfradd Lwfans Tai Lleol (LHA)

Y gyfradd LHA yw'r uchafswm o gymorth tai y gall rhentwyr yn y sector preifat ei dderbyn drwy Fudd-dal Tai neu elfen tai y Credyd Cynhwysol.

Credyd Pensiwn

Mae Credyd Pensiwn yn fudd-dal sy'n gysylltiedig ag incwm sy'n ychwanegu at incwm wythnosol pensiynwyr sydd ar incwm isel.

Taliad Annibyniaeth Personol (PIP)

Mae PIP yn rhoi cymorth ariannol i bobl rhwng 16 a 64 mlwydd oed â chyflyrau iechyd hirdymor neu anabledau sy'n effeithio ar eu bywyd o ddydd i ddydd neu eu symudedd.

Taliad Plant yr Alban (SCP)

Mae SCP deyn daliad wythnosol gan Lywodraeth yr Alban ar gyfer teuluoedd ar incwm isel sydd â phlant o dan 16 mlwydd oed.

Credyd Cynhwysol

Mae Credyd Cynhwysol yn fudd-dal sy'n dibynnu ar brawf modd sy'n darparu cymorth ariannol i bobl sydd ar incwm isel neu allan o waith.

Siarter Budd-daliadau Cymru (WBC)

Mae WBC yn fenter gan Lywodraeth Cymru sy'n nodi egwyddorion cyffredin ar gyfer darparu budd-daliadau datganoledig mewn ffordd sy'n gyson, yn deg ac yn berson-ganolog.

1. Cyflwyniad

Diben yr adroddiad hwn yw darparu cyfrif cynhwysfawr o gyfleoedd, heriau, risgiau a chostau datganoli gweinyddiaeth nawdd cymdeithasol i Gymru; i asesu'r opsiynau penodol ar gyfer gwneud hyn, gan gynnwys drwy astudiaethau achos manwl; a, thrwy hyn, rhoi eglurder ar y llwybr posibl ymlaen, gan gynnwys y problemau a'r heriau y byddai angen mynd i'r afael â nhw fel rhan o'r camau nesaf.

Mae cwmpas yr adroddiad yn canolbwyntio ar elfennau "gweinyddol" nawdd cymdeithasol, nid ar ddatganoli'r system yn ei chyfanrwydd. Yn fras, mae polisi fel arfer yn cyfeirio at y rheolau sy'n penderfynu pwy sydd â hawl i fudd-daliadau, ar ba lefel, ac o dan ba amodau, tra bod gweinyddiaeth yn ymwneud â sut mae'r rheolau hynny'n cael eu rhoi ar waith yn ymarferol, gan gynnwys prosesu hawliadau, gwirio cymhwysra a chyfathrebu â hawl wyr. Fodd bynnag, fel y byddwn ni'n egluro, nid yw'r gwahaniaethau bob amser yn gwbl eglur, ac yn aml gall gweinyddiaeth a pholisi fod yn agos iawn at ei gilydd ac yn cydblethu.

Camau'r prosiect

Mae'r ymchwil wedi'i gyflawni mewn tri cham:

- Sefydlodd y **cam cwmpasu** cychwynnol gyd-destun y polisi, ffynonellau tystiolaeth perthnasol, a blaenoriaethau ymchwil drwy adolygiad desg a chyfweliadau archwiliol. Mewn cydweithrediad â Llywodraeth Cymru, fe wnaethom fireinio'r cynllun ymgysylltu â rhanddeiliaid a chytuno ar set o feini prawf i asesu gwahanol opsiynau ar gyfer datganoli posibl gweinyddiaeth nawdd cymdeithasol.
- Canolbwyntiodd **Cam 1** ar gasglu a chyfosod tystiolaeth drwy Asesiad Cyflym o'r Dystiolaeth (REA), arolwg ar-lein, a chyfweliadau manwl gyda 14 o randdeiliaid. Mae canfyddiadau o'r cam hwn yn crynhoi'r dystiolaeth sy'n dod i'r amlwg ac yn nodi, yn erbyn y meini prawf y cytunwyd arnynt, yr opsiynau mwyaf addawol ar gyfer archwilio yng Ngham 2.
- Datblygodd **Cam 2** astudiaethau achos manwl o opsiynau datganoledig dethol gyda mewnwelediadau ychwanegol a gaglwyd drwy gyfweliadau manwl gyda 12 o randdeiliaid. Canolbwyntiodd dau achos ar fodlau posibl ar gyfer Cymru, ac archwiliodd trydydd achos enghraifft a roddwyd ar waith mewn man arall yn y DU er mwyn dysgu gwersi ymarferol. Bydd mewnwelediadau o'r ddau gam yn llywio'r adroddiad terfynol a'r argymhellion i Lywodraeth Cymru.

Strwythur yr Adroddiad

Mae strwythur yr adroddiad yn cynnwys y penodau canlynol:

- Mae Pennod 2 yn trafod y dull methodolegol a ddefnyddiwyd ar gyfer yr ymchwil. Roedd Cam 1 yn cynnwys Asesiad Cyflym o'r Dystiolaeth (REA) oedd yn cyfosod llenyddiaeth flaenorol, arolwg ar-lein, a chyfweliadau manwl gyda 14 o arweinwyr polisi, arbenigwyr, a rhanddeiliaid allweddol eraill. Arweiniodd hyn at nodi astudiaethau achos manwl o ddatganoli i fwrw ymlaen â nhw yng Ngham 2, a oedd

yn cynnwys cyfweiliadau manwl gyda 12 o randdeiliaid allweddol ar draws y tair astudiaeth achos.

- Mae Pennod 3 yn manylu ar y prif fewnwelediadau a gafwyd yng Ngham 1 drwy weithredu'r protocol REA, yr arolwg ar-lein a'r cyfweiliadau. Mae'r adran wedi'i rhannu yn is-adrannau yn ôl y math o ddull a ddefnyddiwyd, gyda disgrifiad manwl o'r canfyddiadau.
- Mae Pennod 4 yn cyfiosod y gwersi allweddol o Gam 1 yn rhestr o opsiynau ar gyfer datganoli trefniadau gweinyddiaeth nawdd cymdeithasol. Yna mae'n amlinellu'r ddwy astudiaeth achos o ddatganoli damcaniaethol gweinyddiaeth nawdd cymdeithasol yng Nghymru y bwriwyd ymlaen â nhw fel yr opsiynau mwyaf addawol o'r rhestr hon, yn ogystal ag astudiaeth achos ar y gwersi y gellir eu dysgu o newidiadau'r Alban i weinyddiaeth nawdd cymdeithasol.
- Mae Pennod 5 yn dod i ben drwy ddod â'r prif fyfyrddodau ynghylch y llwybr ymlaen at ei gilydd.

2. Methodoleg

Mae'r adran hon yn amlinellu'r duth methodolegol ar gyfer yr ymchwil hwn, a gynhaliwyd ar draws dau gam.

2.1 Dulliau Cam 1

Nod Cam 1 oedd archwilio'r opsiynau ar gyfer datganoli elfennau gweinyddol y system nawdd cymdeithasol yng Nghymru, ac i asesu'r manteision, yr anfanteision, a'r risgiau cysylltiedig â hyn. I gyflawni hyn, defnyddiwyd dulliau cymysg oedd yn cynnwys REA, arolwg ar-lein, a chyfweliadau manwl gyda 14 o arweinwyr polisi, arbenigwyr, a rhanddeiliaid allweddol eraill.

2.1.1 Asesiad Cyflym o'r Dystiolaeth (REA)

Mae REA yn fethodoleg ymchwil a ddefnyddir yn aml sy'n caniatáu ymchwilwyr i flaenoriaethu ac adolygu astudiaethau o gorff mawr o ffynonellau ar draws y llenyddiaeth academiaidd a'r llenyddiaeth lwyd, gan ddefnyddio dull tryloyw, wedi'i ddiffinio'n glir ac y gellir ei ailadrodd.

Bydd yr adran hon yn cynnwys (i) cwestiynau ymchwil allweddol yr REA, (ii) y strategaeth chwilio am lenyddiaeth, a'r (iii) meini prawf cynnwys/eithrio a ddefnyddiwyd i benderfynu p'un a yw'r astudiaethau a gasglwyd yn berthnasol gwestiynau ymchwil yr adolygiad hwn o dystiolaeth. Datblygwyd protocol REA ar ddechrau'r ymchwil hwn, oedd yn amlinellu amcanion allweddol yr adolygiad o dystiolaeth, y strategaeth chwilio, meini prawf cynnwys ac eithrio, a meini prawf asesu ansawdd ar gyfer y llenyddiaeth a nodwyd.

Datblygu'r protocol REA

Dyluniwyd protocol yr REA i nodi ac asesu tystiolaeth berthnasol, o ansawdd uchel i fynd i'r afael â chyfres o gwestiynau ymchwil, gyda'r pwrpas o hysbysu datblygiad datganoli gweinyddol nawdd cymdeithasol yng Nghymru. Cafodd yr REA ei dargedu i roi sylw i'r cwestiynau ymchwil canlynol:

1. Sut allai datganoli gweinyddiaeth nawdd cymdeithasol yng Nghymru alluogi gwell aliniad â Siarter Budd-daliadau Cymru a blaenoriaethau eraill Llywodraeth Cymru?
 - a. Pa ychwanegedd mae datganoli yn ei gynnig o'i gymharu â'r posibilïadau a gynigir gan y llwybrau gweinyddol presennol?
2. Pa ffactorau sy'n cyfyngu ar botensial gweinyddiaeth nawdd cymdeithasol ddatganoledig i gyflawni ei nodau?
3. Beth yw costau a risgiau gweinyddiaeth nawdd cymdeithasol ddatganoledig yng Nghymru?
4. Pa elfennau o nawdd cymdeithasol y gellir eu gweinyddu'n fwyaf ymarferol gan Lywodraeth Cymru, neu drwy 'ddull Cymreig' o weinyddu sy'n cael ei roi ar waith gan Yr Adran Gwaith a Phensiynau?


Yn gyntaf, sefydlodd y protocol y meini prawf cynnwys ar gyfer yr REA, gan nodi'r gwledydd o fewn cwmpas, iaith y llenyddiaeth, y meysydd thematig dan sylw, a dyddiad cyhoeddi'r ymchwil. Yna manylodd ar y strategaeth chwilio, gan amlinellu'r termau chwilio, y cronfeydd data i edrych arnynt, a'r gweithdrefnau ar gyfer sut y byddai cofnodion yn cael eu cadw. Yn drydydd, nododd y meini prawf perthnasedd ac asesu ansawdd a ddefnyddiwyd i werthuso cryfder y dystiolaeth.

Cynhaliwyd chwiliadau ar draws cronfeydd data a llyfrgelloedd ar-lein, gan gynnwys JSTOR, ScienceDirect, SAGE, RePEc IDEAS, Google Scholar, a RePEc EconPapers. Gan gydnabod bod llawer o'r dystiolaeth berthnasol mewn llenyddiaeth lwyd, fe wnaeth y protocol hefyd ymgorffori chwiliad wedi'i dargedu o astudiaethau a gynhyrchwyd gan lywodraethau'r DU a llywodraethau datganoledig, melinau trafod, sefydliadau ymchwil, a sefydliadau'r trydydd sector.

Arweiniodd rhoi'r strategaeth chwilio ar waith at 'restr chwilio' gychwynnol o 118 o ddogfennau, gan gynnwys cyfuniad o bapurau academiaidd, adroddiadau, a llyfrau. Er mwyn cyrraedd y 'restr ddarllen' derfynol o ddogfennau a ddarllenwyd yn fanwl, dilynwyd y weithdrefn a ddisgrifir yn Nhabl 1.

Cafodd canfyddiadau astudiaethau'r rhestr ddarllen eu crynhoi mewn Taflen Echdynnu Ymchwil (RES). Yn ogystal â theitl yr astudiaethau, yr awduron, a'r flwyddyn gyhoeddi, llenwyd yr RES â gwybodaeth am y wlad/rhanbarth dan sylw, y crynhoad/crynodeb gweithredol, y dull methodolegol, y cwestiwn/cwestiynau ymchwil y rhoddwyd sylw iddynt, y math o fudd-dal (e.e. tai, cyflogaeth, anabledd, ac ati), a'r agwedd weinyddol ar nawdd cymdeithasol (e.e. amllder taliadau, meini prawf asesu, ac ati). Yn olaf, defnyddiwyd system sgorio ansawdd, oedd yn asesu pob astudiaeth o ran hygyrddedd, dull methodolegol, a pherthnasedd i amcanion y prosiect.

Tabl 1. Gweithdrefn ar gyfer symud o'r rhestr chwilio i'r rhestr ddarllen



Cyfosod canfyddiadau allweddol

Roedd cam olaf yr REA yn cynnwys cyfosod canfyddiadau allweddol oedd wedi'u tynnu o'r adolygiad o lenyddiaeth. Yr allbwn hwn yw'r adroddiad presennol sy'n crynhoi'r mewnwelediadau mwyaf defnyddiol ac yn trafod cryfderau a chyfyngiadau'r dystiolaeth a nodwyd yn benodol. Cafodd y dystiolaeth a adolygwyd ei gwerthuso'n feirniadol o ran ei chysondeb cyffredinol, gan nodi bylchau yn y dystiolaeth, a defnyddiwyd y mewnwelediadau a gasglwyd i ddod i gasgliadau gwybodus ynghylch datganoli gweinyddol nawdd cymdeithasol yng Nghymru.

Heriau a chyfyngiadau

Mae'r dystiolaeth a adolygwyd yn yr REA hwn yn dangos rhai cyfyngiadau a oedd yn ei gwneud yn heriol dod i gasgliadau pendant ynghylch goblygiadau tebygol datganoli elfennau gweinyddol y system nawdd cymdeithasol yng Nghymru. Yn benodol, anaml iawn yr oedd y llenyddiaeth a oedd ar gael yn canolbwyntio'n benodol ar ddatganoli gweinyddol, gan drafod datganoli yn hytrach mewn ystyr cyfansoddiadol neu bolisi ehangach. Roedd y diffyg penodoldeb hwn yn cyfyngu ar y graddau y gellid cymhwyso'r canfyddiadau yn uniongyrchol i gwestiynau sy'n ymwneud â diwygio gweinyddol a llywodraethu yng nghydestun Cymru. Ychydig iawn o astudiaethau a ddarparodd ddadansoddiad manwl o ddyluniad neu fodelau cyflenwi gweinyddol, ac ychydig hefyd a ystyriodd yr heriau gweithredol neu'r goblygiadau cyllidol a fyddai'n cyd-fynd â datganoli dyfnach.

Mae cwrpas cyfyngedig, yr amrywiad yn ei hansawdd, a'r diffyg data empirig ar ddatganoli gweinyddol yng Nghymru yn golygu bod llawer o'r canfyddiadau yn ddangosol yn hytrach nag yn bendant. Byddai dadansoddiad yn y dyfodol yn elwa o werthusiadau empirig neu dystiolaeth o gynlluniau peilot sy'n deillio o unrhyw fentrau datganoli yn y dyfodol, a allai ddarparu sail fwy dibynadwy ar gyfer asesu manteision, risgiau a chostau posibl diwygio.

2.1.2 Arolwg ar-lein

Yn dilyn yr REA, fe wnaethom ddatblygu a rhannu arolwg ar-lein i randdeiliaid allweddol, a oedd ar agor rhwng 1 Medi 2025 a 28 Medi 2025 ac a gynhaliwyd ar-lein ar Microsoft Forms. Gofynnodd un ymatebydd am estyniad ar ôl colli'r dyddiad cau, ac felly ail-agorwyd yr arolwg tan 3 Hydref 2025 ar eu cyfer. Targedwyd yr arolwg at: (i) arbenigwyr academiaidd, (ii) melinau trafod, (iii) sefydliadau ymchwil, (iv) y trydydd sector, ac (v) unigolion sy'n gweithio mewn gwasanaethau sy'n rhyngweithio'n gryf â'r system nawdd cymdeithasol. Canolbwyntiodd ein proses recriwtio cyfranogwyr yr arolwg ar unigolion a sefydliadau yng Nghymru ac mewn rhannau eraill o'r DU lle mae rhai agweddau ar nawdd cymdeithasol wedi'u datganoli. Darparwyd manylion cyswllt gan Lywodraeth Cymru ac aelodau o dîm prosiect Alma Economics a'r Sefydliad Astudiaethau Cyllid, neu fe'u canfuwyd yn gyhoeddus ar-lein.

Nod yr arolwg oedd nodi'r cyfleoedd, yr heriau a'r risgiau canfyddedig sy'n gysylltiedig â datganoli gweinyddiaeth nawdd cymdeithasol yng Nghymru, a deall safbwyntiau ar beth ddylai fod yn flaenoriaethau ar gyfer datganoli a pham. Fe helpodd yr arolwg hefyd i nodi themâu a rhanddeiliaid i'w fynd ar eu trywydd mewn cyfweiliadau dilynol (gweler isod). Bydd

y prif ganfyddiadau a'r gwersi a ddysgwyd hefyd yn llywio ein dewis o astudiaethau achos yng ngham nesaf (Cam 2) ein hymchwil yn uniongyrchol.

Rhannwyd yr arolwg drwy e-bost, ac anfonwyd nodyn atgoffa i'w gwblhau chwe diwrnod cyn iddo gau (22 Medi 2025). Roedd yr arolwg ei hun ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg, a chynhaliwyd yr holl weithgareddau recriwtio ar gyfer cyfranogi yn yr arolwg yn y ddwy iaith. Er mwyn hwyluso recriwtio ar gyfer cyfweiliadau yn y cam nesaf, ar ddiwedd yr arolwg gofynnwyd i randdeiliaid a fyddent yn fodlon i ni gysylltu â nhw ar gyfer cyfweiliad dilynol. Rhannwyd yr arolwg i 80 o randdeiliaid a derbyniwyd 27 ymateb, ac roedd 26 ohonynt yn ddilys (roedd un ymateb yn wag). Darperir dadansoddiad o ymatebion yr arolwg yn adran 3.1.2 o'r adroddiad.

2.1.3 Cyfweiliadau

Cafodd y mewnwelediadau o'r REA a'r arolwg eu hategu gan gyfweiliadau lled-strwythuredig gyda 14 o randdeiliaid allweddol, gan gynnwys arweinwyr polisi, arbenigwyr academiaidd, cynrychiolwyr y trydydd sector, a swyddogion sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau yng Nghymru ac mewn gwledydd eraill yn y DU. Nod y cyfweiliadau oedd casglu ystod amrywiol o safbwyntiau ar oblygiadau, manteision a risgiau posibl datganoli agweddau gweinyddol ar y system nawdd cymdeithasol i Gymru.

Roedd y rhai a gyfweilwyd yn cynnwys cynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru, Yr Adran Gwaith a Phensiynau, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Comisiwn Nawdd Cymdeithasol yr Alban, Fraser of Allander Institute, Sefydliad Bevan, Grŵp Rheolwyr Refeniw a Budd-daliadau Cymru, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, y Pwyllgor Cynghori ar Nawdd Cymdeithasol, Prifysgol Caerdydd, Cynghorwyr Hawliau Lles Cymru, Anabledd Cymru, a'r Grŵp Gweithredu ar Dlodi Plant. Mae rhai o'r rhai a gyfweilwyd hefyd yn eistedd ar Grŵp Llywio Symleiddio Budd-daliadau Cymru. Cafodd y rhestr derfynol o bobl i'w cyfweld ei datblygu mewn ymgynghoriad â Llywodraeth Cymru. Darparwyd manylion cyswllt gan Lywodraeth Cymru ac aelodau o dîm prosiect Alma Economics a'r Sefydliad Astudiaethau Cyllid, neu fe'u canfuwyd yn gyhoeddus ar-lein.

Cynhaliwyd cyfweiliadau drwy Microsoft Teams, gan bara fel arfer hyd at 60 munud. Gyda chaniatâd y cyfranogwyr, recordiwyd y cyfweiliadau a chawsant eu trawsgrifio i sicrhau cywirdeb; fel arall, cymerwyd nodiadau manwl gan aelod ychwanegol o'r tîm. Derbyniodd y rhai a gafodd eu cyfweld wybodaeth ymlaen llaw am drin data a gweithdrefnau cydsynio, (ar gael yn Gymraeg a Saesneg).

Archwiliodd y cyfweiliadau bynciau gan gynnwys Siarter Budd-daliadau Cymru a blaenoriaethau eraill, ffactorau cyfyngol, costau a risgiau datganoli gweinyddiaeth nawdd cymdeithasol i Gymru, gwersi a ddysgwyd o enghreifftiau o ddatganoli nawdd cymdeithasol mewn rhannau eraill o'r DU, yr opsiynau mwyaf addawol ar gyfer datganoli gweinyddiaeth nawdd cymdeithasol, a gwerthusiad o'r opsiynau yn erbyn meini prawf allweddol.

Cafodd y data o'r cyfweiliadau eu dadansoddi'n thematig, gan ddilyn fframwaith Braun and Clarke (2006). Fe wnaeth y dull hwn alluogi nodi themâu cyffredin, amrywiadau ym marn rhanddeiliaid, a meysydd cydgyfeirio neu wahaniaethu ar draws sectorau. Darparodd canfyddiadau'r cyfweiliadau ddealltwriaeth gyd-destunol werthfawr i ategu canlyniadau'r

REA a'r arolwg, ac fe wnaethant lywio datblygiad yr astudiaethau achos arfaethedig ar gyfer Cam 2.

2.2 Dulliau Cam 2

Aeth Cam 2 ati i ddatblygu dau o'r opsiynau mwyaf addawol ar gyfer datganoli elfennau gweinyddol y system nawdd cymdeithasol yng Nghymru, ynghyd â gwersi a ddysgwyd o ddull yr Alban o ail-fframio nawdd cymdeithasol, a thri astudiaeth achos i'w harchwilio'n fwy manwl. I wneud hyn, cynhaliwyd cyfweiliadau gyda 12 o randdeiliaid ag arbenigedd ar draws meysydd yr astudiaethau achos - rhannu data sy'n gysylltiedig â budd-daliadau, cyngor a chymorth ar fudd-daliadau, a datganoli nawdd cymdeithasol i'r Alban.

2.2.1 Cyfweiliadau

Cynhaliwyd cyfweiliadau lled-strwythuredig, unigol a chyfweiliadau grŵp, gyda 12 o randdeiliaid allweddol sy'n berthnasol i feysydd yr astudiaethau achos. Roedd hyn yn cynnwys cynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru, Trysorlys Cymru, Yr Adran Gwaith a Phensiynau, Sefydliad Bevan, Grŵp Rheolwyr Refeniw a Budd-daliadau Cymru, Comisiwn Nawdd Cymdeithasol yr Alban, Policy in Practice, a Phrifysgol Caeredin.

Cafodd y rhestr derfynol o bobl i'w cyfweld ei datblygu mewn ymgynghoriad â Llywodraeth Cymru. Darparwyd manylion cyswllt gan Lywodraeth Cymru ac aelodau o dîm prosiect Alma Economics a'r Sefydliad Astudiaethau Cyllid, neu fe'u canfuwyd yn gyhoeddus ar-lein. Roedd rhai o'r cyfweiliadau hyn yn sgysiau dilynol i gyfweiliadau a gynhaliwyd yng Ngham 1.

Cynhaliwyd y cyfweiliadau drwy Microsoft Teams, ac roeddent fel arfer yn para hyd at 45 munud. Gyda chaniatâd y cyfranogwyr, recordiwyd y cyfweiliadau a chawsant eu trawsgrifio i sicrhau cywirdeb; fel arall, cymerwyd nodiadau manwl gan aelod ychwanegol o'r tîm. Derbyniodd y rhai a gafodd eu cyfweld wybodaeth ymlaen llaw am drin data a gweithdrefnau cymdlynio, (ar gael yn Gymraeg a Saesneg).

Archwiliodd y cyfweiliadau ar gyfer astudiaethau achos Cymru ar rannu data a chynghor a chymorth ar fudd-daliadau bynciau megis pa fesurau sydd ar waith ar hyn o bryd, pa nodau y gellid eu cyflawni drwy newidiadau arfaethedig i'r trefniadau gweinyddol, pa rwystrau sy'n bodoli sy'n cyfyngu ar y gallu i gyflawni'r nodau hyn, ym mha ffyrdd y byddai angen trosglwyddo capasiti ac awdurdod o'r DWP i Lywodraeth Cymru, pa drefniadau cyfreithiol a chyllidol fyddai'n angenrheidiol, y gofynion o ran adnoddau, ac effeithiau tebygol y newid gweinyddol arfaethedig.

Archwiliodd y cyfweiliadau ar gyfer yr astudiaeth achos ar ddatganoli gweinyddiaeth nawdd cymdeithasol i'r Alban ddiben y newidiadau yn yr Alban, y camau ymarferol a'r trawsnewidiad sefydliadol a roddwyd ar waith, cymhlethdodau a rhwystrau annisgwyl wrth gyflawni'r canlyniadau dymunol, beth y gellid fod wedi'i wneud yn wahanol o edrych yn ôl, a beth mae gwerthusiadau neu dystiolaeth arall yn ei ddweud wrthym am effeithiau'r newidiadau.

Cafodd y data o'r cyfweiliadau eu dadansoddi'n thematig, gan ddilyn fframwaith Braun and Clarke (2006), a'u cyflwyno fel cyfres o dair astudiaeth achos fanwl (gweler Pennod 5).

3. Canfyddiadau

3.1 Diffiniad o weinyddiaeth nawdd cymdeithasol

Mae'r gwahaniaeth rhwng gweinyddiaeth a pholisi ym maes nawdd cymdeithasol yn ffordd ddefnyddiol o feddwl am y pwnc, ac mae llawer o agweddau'n perthyn yn eithaf clir i un categori neu'r llall. Yn fras, mae polisi yn ymwneud â'r rheolau sy'n pennu pwy sydd â hawl i fudd-daliadau, ar ba lefel, ac o dan ba amodau. Mae gweinyddiaeth, ar y llaw arall, fel arfer yn canolbwyntio ar weithredu'r rheolau hynny, megis sut mae hawliadau'n cael eu prosesu a sut mae cymhwysra'n cael ei wirio, sut y byddwn yn cyfathrebu â hawllyr, a'r strwythurau llywodraethu a darparu gwasanaethau ar gyfer cyflawni'r swyddogaethau hyn.

Fodd bynnag, nid oes sicrwydd bod gwahaniaethau "synnwyr cyffredin" rhwng gweinyddiaeth a pholisi bob amser yn cyd-fynd â gwahaniaethau eraill sydd, o bosibl, yn fwy perthnasol yn uniongyrchol i wneud penderfyniadau. Er enghraifft, er y gallai mesurau "polisi" ymddangos yn fwy pwysig ar lefel sylfaenol i dderbynwyr budd-daliadau, gall fod polisiâu sy'n cael effaith fach iawn ar nifer fach iawn o bobl, a gall arferion gweinyddol effeithio ar brofiadau nifer fawr o bobl, neu hyd yn oed effeithio ar p'un a ydynt yn hawlio budd-dal o gwbl, drwy lunio cymhlethdod y broses. Nid yw gwahaniaeth bob dydd rhwng gweinyddiaeth a pholisi o reidrwydd yn adlewyrchu'r sefyllfa gyfreithiol chwaith. Mae enghraifft dda o hyn gan [Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru \(2020\)](#): "...mae deddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i Gredyd Cynhwysol yn gyffredinol...gael ei dalu'n fisol.... Felly, mae'r hyn a allai ymddangos fel penderfyniad gweinyddol - amseriad taliadau – mewn gwirionedd wedi'i bennu mewn polisi yng Nghymru a Lloegr. Byddai angen deddfwriaeth sylfaenol felly i newid amllder taliadau Credyd Cynhwysol yng Nghymru."

Lawn mor bwysig yw'r ffaith y gall y rhyngweithio agos rhwng y rheolau a'u rhoi ar waith eu gwneud yn anodd eu gwahanu'n ymarferol. Er enghraifft, gall fod ffiniau aneglur rhwng y ffordd mae hawllyr budd-daliadau a Chanolfannau Gwaith yn rhyngweithio ("gweinyddiaeth" yn fras) a'r hyn mae'n ofynnol i hawllyr ei wneud er mwyn derbyn budd-daliadau ("polisi" yn fras, ac "amodoldeb" yn benodol); neu'r prosesau yn ymwneud â gweinyddu budd-daliadau a'r llymder sydd ei angen i orfodi rheolau polisi yn ymarferol. Gall hyn fod yn bwysig mewn ffyrdd ymarferol wrth ystyried y llwybr mwyaf realistig ymlaen. Er enghraifft, hyd yn oed pan mai newid gweinyddol yn unig yw'r nod, gall Llywodraeth y DU barhau i bryderu a yw ei heffeithiau'n gyfyngedig i hynny yn ymarferol, ac efallai y byddai'n dymuno i Lywodraeth Cymru gymryd y risgiau cyllidol sy'n gysylltiedig â'r maes polisi ar ei hysgwyddau, gan wneud trafodaethau rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn gymhleth, hyd yn oed pan mai newid gweinyddol "yn unig" yw'r bwriad.

3.2 Asesiad Cyflym o'r Dystiolaeth

3.2.1 Yn gryno

- Daw mwyafrif y dystiolaeth ar ddatganoli gweinyddiaeth nawdd cymdeithasol o lenyddiaeth lwyd, megis adroddiadau polisi a chyhoeddiadau gan lywodraethau a sefydliadau ymchwil.

- Mae llawer o'r llenyddiaeth yn canolbwyntio ar ddatganoli nawdd cymdeithasol yn ehangach (gan gynnwys penderfyniadau polisi) yn hytrach nag ar elfennau gweinyddol nawdd cymdeithasol yn unig.
- Mae'r dystiolaeth yn pwysleisio'r angen i wneud y system fudd-daliadau yng Nghymru yn fwy hyblyg, yn fwy person-ganolog, yn fwy ymatebol i anghenion penodol Cymru, ac i gynyddu'r nifer sy'n derbyn budd-daliadau.
- Mae'r llenyddiaeth hefyd yn rhoi pwyslais cryf ar risgiau cyllidol ac ansicrwydd. Er enghraifft, y costau o sefydlu seilwaith a gallu gweinyddol newydd, yn ogystal â chostau parhaus.

3.2.2 Natur ac ansawdd y sylfaen dystiolaeth

Roedd ein rhestr fer wreiddiol yn cynnwys 25 o bapurau, ac ar ôl cwblhau ein REA nodwyd ac ychwanegwyd 2 adroddiad a gyhoeddwyd yn ddiweddar, gan ddod â chyfanswm y papurau i 27. Mae mwyafrif y dogfennau yn llenyddiaeth lwyd, gan gynnwys adroddiadau polisi a chyhoeddiadau gan lywodraethau a sefydliadau ymchwil. Mae'r dogfennau sy'n weddill yn cynnwys papurau ymchwil ac un bennod o lyfr. Gyda'i gilydd, mae'r dystiolaeth yn archwilio'r dirwedd sy'n esblygu o drefniadau nawdd cymdeithasol datganoledig ar draws y Deyrnas Unedig, yn enwedig yng Nghymru (lle mae'r llenyddiaeth yn trafod newidiadau damcaniaethol yn bennaf) ac yn yr Alban (lle mae llawer o'r llenyddiaeth yn trafod trefniadau datganoledig sydd eisoes ar waith).

Mae datganoli nawdd cymdeithasol yng Nghymru i raddau helaeth yn fater o drafodaeth a chynllunio parhaus yn hytrach nag yn arfer sefydledig. Gan adlewyrchu hyn, yn bennaf, mae'r llenyddiaeth yn trafod opsiynau posibl ar gyfer datganoli, modelau posibl, a'r risgiau a'r manteision disgwylidig. Felly, mae'r sylfaen dystiolaeth yn aml yn defnyddio profiadau tebyg mewn mannau eraill yn y DU lle mae pwerau datganoledig eisoes ar waith, yn enwedig yn yr Alban a Gogledd Iwerddon, yn ogystal ag mewn rhai rhanbarthau dinasoedd yn Lloegr, yn benodol ym Manceinion Fwyaf.

Mae'r mater penodol o ddatganoli elfennau gweinyddol y system nawdd cymdeithasol yng Nghymru (megis prosesau asesu, systemau talu, neu drefniadau darparu gwasanaethau) yn aml yn cael ei godi yn fyr neu heb lawer o ddyfnder yn unig. Mae trafodaethau o'r math hwn o ddatganoli fel arfer yn ymddangos fel rhan o ddadansoddiadau ehangach o ddatganoli lles (gan gynnwys datganoli polisi lles, sydd y tu allan i gwmpas yr ymchwil hon), neu ddatganoli yn gyffredinol.

Mae'r llenyddiaeth yn amlygu cyfleoedd a risgiau sy'n gysylltiedig â datganoli. Ymhlith y cyfleoedd a drafodir mae'r gallu i alinio trefniadau nawdd cymdeithasol yn agosach â blaenoriaethau Cymru neu flaenoriaethau ar lefel leol, ymgorffori dull sy'n canolbwyntio ar bobl, a gwella integreiddio â gwasanaethau datganoledig megis tai, cyflogadwyedd ac iechyd. Yn y cyfamser, mae'r risgiau a nodir yn cynnwys cymhlethdod gweinyddol, yn ogystal â risgiau cyllidol ac ansicrwydd i Gymru. Yr Alban yw'r astudiaeth achos a ddyfynnir amlaf, gan ddarparu enghreifftiau pendant o sut y gall pwerau datganoledig gefnogi systemau mwy hyblyg a pherson-ganolog.

Mae llawer o'r llenyddiaeth yn canolbwyntio ar ddatganoli nawdd cymdeithasol yn eang (gan gynnwys penderfyniadau polisi) yn hytrach nag ar elfennau gweinyddol nawdd cymdeithasol yn unig. Fodd bynnag, gall rhai gwersi o ddatganoli polisi fod yn berthnasol hefyd i ddatganoli gweinyddol, a gall y ddau fod wedi'u plethu yn yr ystyr y gall yr hyn y gellir ei gyflawni drwy newid gweinyddol ddibynnu ar ba bwerau llunio polisi sydd yn bodoli ochr yn ochr â hynny. Felly, mae'r adolygiad hwn yn canolbwyntio ar yr is-set o dystiolaeth sy'n ymwneud â gweinyddiaeth nawdd cymdeithasol, ond mae hefyd yn cyfeirio at drafodaethau polisi mewn rhai achosion lle mae hynny'n berthnasol.

3.2.3 Datganoli gweinyddiaeth nawdd cymdeithasol a gwell aliniad â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru

Pwyslais ar wneud y system yn fwy hyblyg, person-ganolog, yn fwy ymatebol i anghenion penodol Cymru, ac ar gynyddu'r nifer sy'n derbyn budd-daliadau

Mae gweinyddiaeth nawdd cymdeithasol yng Nghymru ar hyn o bryd wedi'i chadw i Lywodraeth y DU ac yn cael ei chyflawni'n bennaf drwy'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) a Chyllid a Thollau EF (CThEF). Mae rhywfaint o'r llenyddiaeth yn dadlau nad yw'r system bresennol, o ganlyniad, yn adlewyrchu anghenion penodol cymunedau Cymru yn ddigonol. Adroddodd y [Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau \(2019\)](#) fod canfyddiad yn aml bod y system gyfredol ar draws y DU yn gymhleth, yn annheg, gyda diffyg tosturi, er enghraifft wrth gyflwyno'r Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (ESA) a'r Taliad Annibyniaeth Personol (PIP). Dadleuodd fod datganoli gweinyddol yn gyfle i deilwra'r ffordd mae lles yn cael ei ddarparu i gyd-destun Cymru, ac y gallai datganoli wella aliniad â blaenoriaethau a gwerthoedd Llywodraeth Cymru.

Tynnodd y [Pwyllgor Materion Cymreig \(2022\)](#) sylw yn yr un modd at y ffaith bod Cymru'n wynebu pwysau demograffig, economaidd a daearyddol penodol o gymharu â gweddill y DU. Mae lefelau uwch o anabledd ac anweithgarwch economaidd yn creu heriau sy'n galw am ddulliau nawdd cymdeithasol wedi'u teilwra i gyd-destun Cymru. Er ei fod yn cydnabod pryderon ynghylch risgiau ariannol, dadleuodd y Pwyllgor y gallai datganoli pwerau alluogi Cymru i deilwra'r ffordd mae nawdd cymdeithasol yn cael ei ddarparu i'w demograffeg a sicrhau gwell integreiddio rhwng nawdd cymdeithasol a systemau a gwasanaethau cysylltiedig yng Nghymru.

Her fawr a nodwyd gan y [Pwyllgor Materion Cymreig \(2022\)](#) yw diffyg ymwybyddiaeth a diffyg hygyrchedd budd-daliadau. Er enghraifft, mae llawer o bobl hŷn yng Nghymru yn parhau i fod yn anymwybodol o Gredyd Pensiwn, sy'n cyfrannu at gyfradd derbyn isel. Awgrymodd y Pwyllgor y gallai gwell cydlynu a chyfathrebu cliriach, yn debyg i ddulliau a ddefnyddir yn yr Alban, wella ymwybyddiaeth a helpu pobl i lywio'r system yn haws. Gallai hyn olygu bod gan weinyddiaeth ddatganoledig y potensial i symleiddio mynediad a chynyddu'r gyfradd hawlio - blaenoriaeth allweddol a amlygwyd yn Siarter Budd-daliadau Cymru.

Pwysleisiodd ymchwil gan [Taylor-Collins and Bristow \(2020\)](#) bwysigrwydd llywio dyluniad nawdd cymdeithasol datganoledig drwy egwyddorion wedi'u diffinio'n glir a chanlyniadau arfaethedig. Nodwyd tair egwyddor hanfodol ar gyfer unrhyw system les - hygyrchedd,

digonolrwydd a hyblygrwydd - a dadleuwyd, i Gymru, y byddai canlyniadau arfaethedig yn cynnwys lleihau tlodi, manteisio i'r eithaf ar incwm, a gwella canlyniadau i blant a theuluoedd. Mae'r egwyddorion a'r canlyniadau hyn yn cyd-fynd yn agos â Siarter Budd-daliadau Cymru a ddatblygwyd yn ddiweddarach. Er mwyn cyflawni rhai o'r nodau hyn, dadleuwyd y gallai Cymru ddilyn esiampl yr Alban, lle bu ymgynghori helaeth â dinasyddion a gosododd y gwaith o greu 'Our Charter' urddas, tegwch a pharch wrth wraidd darparu lles.

Mae [Davies, Evans, and Cross \(2025\)](#) yn canolbwyntio ar rôl stigma o fewn system les y DU, gan ddadlau ei fod yn tanseilio tegwch, hygyrchedd ac ymddiriedaeth y cyhoedd, ac yn gallu arwain at gyfraddau derbyn is. Er mwyn mynd i'r afael â stigma, mae'r awduron yn argymhell "dull mwy dynol" tebyg i'r un a fabwysiadwyd yn yr Alban, lle mae darparu lles yn pwysleisio ar empathi, urddas a hyblygrwydd - nodau sy'n cyd-fynd yn agos â nodau Siarter Budd-daliadau Cymru.

Roedd gwaith cynharach gan [Sefydliad Bevan \(2016a\)](#) wedi amlygu llawer o'r un themâu. Roeddent yn dadlau o blaid asesiad ffres o botensial datganoli lles, yn enwedig o ystyried cyd-destun polisi newidiol y DU - ac yn benodol effeithiau cyni - a'i effaith anghymesur ar Gymru. Tynnwyd sylw at faint ac arwyddocâd lles i gymdeithas ac economi Cymru. Mae tua hanner poblogaeth Cymru yn derbyn rhyw fath o fudd-dal, gan gynnwys pensiwn y wladwriaeth, budd-dal plant neu fudd-dal i bobl o oedran gweithio, ac roedd taliadau lles yn ychwanegu tua £10 biliwn at gyllidebau cartrefi bob blwyddyn ar adeg ysgrifennu'r adroddiad. Ar y sail hon, dadleuwyd y gallai datganoli gweinyddol gael effaith drawsnewidiol, gan y gallai hyd yn oed gwelliant cymharol fach yn y gyfradd derbyn, ymatebolrwydd neu dargedu wella bywydau nifer sylweddol o bobl a chartrefi yng Nghymru. Dadleuwyd y gallai alinio darparu lles yn agosach ag anghenion Cymru o bosib wella canlyniadau mewn meysydd, gan gynnwys cymorth tai, cyflogaeth, a budd-daliadau anabledd.

3.2.4 Ychwanegedd ac ymarferoldeb opsiynau ar gyfer datganoli gweinyddiaeth nawdd cymdeithasol yng Nghymru

Er bod cryn dipyn o ysgrifennu am ddatganoli pellach i Gymru yn gyffredinol, ac am bolisi nawdd cymdeithasol, dim ond nifer cymharol fach o opsiynau ar gyfer datganoli gweinyddol yn benodol sy'n cael eu trafod yn y llenyddiaeth bresennol. Nid yw ymarferoldeb yr opsiynau hynny - yn weithredol, neu o ran cymhlethdod y trafodaethau y byddai eu hangen - yn tueddu i gael ei drafod yn fanwl ac yn aml dim ond yn oblygedig mae'n cael ei ystyried (o ystyried bod yr awduron yn awgrymu neu'n cynnig yr opsiwn). O ganlyniad, isod rydym yn ymdrin â Chwestiwn 1a a Chwestiwn 4 (sy'n ymwneud ag ychwanegedd ac ymarferoldeb opsiynau ar gyfer datganoli) gyda'i gilydd, ond nodwn fel arfer mai Cwestiwn 1a (ychwanegedd) yw'r un sy'n cael ei drafod yn uniongyrchol.

Mae nifer fach o bapurau yn mynd ymhellach i egluro sut y gallai enghreifftiau penodol o ddatganoli gweinyddol ychwanegu at allu Llywodraeth Cymru i gyflawni rhai o'r amcanion a drafodwyd.

Mae [Sefydliad Bevan \(2016a\)](#) a [Miles and Rutter \(2024\)](#) ill dau yn tynnu sylw at faes gwasanaethau a chymorth cyflogaeth, gyda datganoli gweinyddol yn un o sawl opsiwn ar

spectrwm o ddim newid o gwbl i ddatganoli gweinyddiaeth a pholisi yn llawn. Byddai datganoli gweinyddol yn caniatáu i Gymru gael rheolaeth dros y ffordd mae cymorth cyflogaeth yn cael ei ddarparu. Yn ôl barn Miles a Rutter, gallai hyn alluogi Cymru i ddylunio dull sy'n ystyried amodau'r farchnad lafur leol ledled Cymru yn well ac sy'n fwy cydnaws â meysydd polisi datganoledig cysylltiedig, ac wedi'i integreiddio'n well â chymorth perthnasol e.e. iechyd a sgiliau. Yn ogystal, byddai'n creu atebolrwydd cliriach ar gyfer cymorth cyflogaeth a gwasanaethau cysylltiedig yng Nghymru, a allai helpu i ysgogi gwelliant pellach yn y tymor hir.

Maes arall lle dadleuodd Sefydliad Bevan (2016a) dros rywfaint o ddatganoli gweinyddol oedd tai. Dadleuwyd o blaid mwy o hyblygrwydd o ran amllder taliadau, a thaliadau uniongyrchol i landlordiaid, ar gyfer cymorth tai. Fodd bynnag, roedd newidiadau eraill i gymorth tai yr oeddent yn eu hystyried yn fuddiol yn tueddu i ddisgyn yn fwy clir o fewn maes polisi yn hytrach na gweinyddiaeth.

Mae hyblygrwydd taliadau yn faes lle mae enghraifft gymharol uniongyrchol o ddatganoli o'r Alban. Mae gwerthusiad "Scottish Choices" o ran Credyd Cynhwysol a gynhaliwyd gan [Rennick \(2021\)](#), ac a drafodwyd hefyd gan [Adam and Philips \(2021\)](#), yn rhoi rhywfaint o reswm dros optimistiaeth y gall opsiynau taliadau ychwanegol helpu i greu system fwy pobl-ganolog a mwy hyblyg. Mae'r opsiynau hyn wedi helpu hawlwyd i reoli eu cyllidebau yn fwy effeithiol, gyda lefel cymharol uchel o ddefnydd ymhlith tenantiaid cymdeithasol a'r rhai sydd â gallu cyfyngedig i weithio. Mae'r dystiolaeth yn dangos bod ychydig dros draean o hawlwyd Credyd Cynhwysol newydd yn yr Alban wedi dewis defnyddio o leiaf un o'r opsiynau talu hyn. Fodd bynnag, mae profiad yr Alban hefyd yn awgrymu rhai rhesymau dros fod yn ofalus: mae ymwybyddiaeth wedi bod yn gyfyngedig, ac mae rhywfaint o ddryswch wedi bod ynghylch canlyniadau'r newidiadau ar amseriad taliadau (efallai'n rhannol oherwydd, fel yr esboniwyd gan [Adam and Philips \(2021\)](#), bod dewis yr opsiwn talu amlach yn arwain mewn gwirionedd at dderbyn rhywfaint o'r cymorth yn hwyrach nag y byddai wedi cael ei dderbyn fel arall). Mae hefyd yn werth nodi, er bod y newidiadau hyn yn swnio'n weinyddol mewn iaith bob dydd, fod newid y trefniadau talu perthnasol o fewn Credyd Cynhwysol yn gofyn am newid mewn deddfwriaeth, gan fod amllder taliadau wedi'i bennu mewn deddfwriaeth sylfaenol ([Taylor-Collins and Bristow, 2020](#)).

Mae'r astudiaeth gan [Davies, Evans, and Cross \(2025\)](#), a oedd yn canolbwyntio ar rôl stigma, hefyd yn defnyddio gwersi o brofiad yr Alban. Ymhlith ystod o opsiynau a drafodir ganddynt, un sydd yn gymharol debygol o gael ei hwyluso gan ddatganoli gweinyddol yw newidiadau i'r ffordd mae'r broses asesu'n cael ei chyflwyno ar gyfer budd-daliadau sy'n gysylltiedig ag iechyd (ac yn enwedig y Taliad Annibyniaeth Personol). Maen nhw'n dadlau y gallai cynnal asesiadau iechyd cychwynnol gan weithwyr proffesiynol sydd wedi'u hyfforddi'n fwy penodol at y diben hwn, ynghyd â newidiadau eraill i hyfforddiant staff - fel yn yr Alban - er mwyn gwneud y broses yn fwy sensitif ac yn fwy hyblyg, wneud cyfraniad pwysig at leihau stigma.

Yn olaf, codwyd hefyd y posibilrwydd o ail-gynllunio hyfforddiant staff er mwyn mynd ar drywydd amcanion Llywodraeth Cymru yn well mewn cyd-destun gwahanol, gan [Taylor-Collins and Bristow \(2020\)](#). Dadleuwyd y gallai hyfforddi staff rheng flaen sy'n delio â budd-daliadau mewn arferion arbenigol neu arferion sy'n ystyriol o drawma wneud gwahaniaeth

cadarnhaol. Nid yw ymdrechion o'r fath yn amhosibl heb ddatganoli - mae'r awduron yn nodi partneriaeth flaenorol rhwng Oxfam Cymru a'r DWP i ddarparu hyfforddiant ymwybyddiaeth o dlodi - ond byddai pwerau gweinyddol yn golygu y gallai Cymru ddewis darparu a dylunio hyfforddiant o'r fath heb yr angen i gyfryngu cytundebau neu bartneriaethau unigryw bob tro.

3.2.5 Cyfyngiadau, costau a risgiau gweinyddiaeth nawdd cymdeithasol ddatganoledig yng Nghymru

Canfuwyd bod trafodaethau am gyfyngiadau, costau a risgiau gweinyddiaeth nawdd cymdeithasol wedi'i datganoli yn tueddu i gael eu cymysgu gyda'i gilydd, ac mai dim ond ystod cymharol fach o faterion yr oeddent yn eu cwmpasu, gan ganolbwyntio'n bennaf ar rwymedigaethau a risgiau cyllidol. Prin iawn oedd y drafodaeth benodol ynghylch beth allai atal newid gweinyddol rhag cyflawni ei nodau, yn hytrach na'r costau neu'r risgiau y gallai eu creu. O ganlyniad, rydym yn ymdrin â Chwestiynau 2 a 3 gyda'i gilydd.

Mae'r llenyddiaeth yn canolbwyntio'n gryf ar risgiau cyllidol ac ansicrwydd

Nododd [Taylor-Collins and Bristow \(2020\)](#) fod datganoli nawdd cymdeithasol yn golygu costau a risgiau cyllidol. Byddai sefydlu seilwaith gweinyddol a gallu newydd yn debygol o olygu costau cychwynnol ar gyfer staffio, sefydlu trefniadau cymhleth ar gyfer rhannu data, a chostau parhaus o haenau gweinyddol newydd yng Nghymru, a fyddai'n gyfrifoldeb i Lywodraeth Cymru.

Mae rhai papurau yn trafod dosbarthiad risgiau cyllidol o dan ddatganoli yn ehangach, yn aml yng nghyd-destun datganoli polisi yn llwyr. Serch hynny, er nad yw'r enghreifftiau penodol a drafodir o reidrwydd yn trosi'n uniongyrchol i achos datganoli gweinyddol, mae rhai o'r materion cyffredinol a amlygir yn berthnasol. Mae [Eiser \(2019\)](#) yn trafod risgiau cyllidol yn achos yr un ar ddeg taliad nawdd cymdeithasol a ddatganolwyd i Lywodraeth yr Alban. Arweiniodd y boblogaeth yn heneiddio'n gyflymach yn yr Alban at bwysau gwariant uwch ar y budd-daliadau hyn o gymharu â Lloegr, gan adael cyllideb yr Alban yn fregus pan nad oedd Addasiadau i'r Grant Bloc o San Steffan (BGAs) yn gwrthbwysu'r costau uwch hynny'n llawn.

Amlygodd [Eiser \(2019\)](#) hefyd y risg o wallau rhagfynegi, lle mae gwariant gwirioneddol ar nawdd cymdeithasol yn gwyro oddi wrth y rhagolygon mae BGAs yn seiliedig arnynt. Mae hanes yn awgrymu bod rhagolygon ar lefel y DU fel arfer yn anghywir o tua 3.5%, sy'n cyfateb i dros £100 miliwn y flwyddyn ar gyfer budd-daliadau datganoledig yr Alban. I Gymru, mae hyn yn enghraifft rhybuddiol o'r amlygiad cyllidol posibl sy'n cyd-fynd â datganoli cyfrifoldebau nawdd cymdeithasol. Nid yw risgiau datganoli gweinyddol yn unig o reidrwydd o'r un maint neu natur (ac fe'u trafodir yn llawer mwy manwl yn nes ymlaen yn yr adroddiad hwn), ond y pwynt o hyd yw bod costau gweithredu swyddogaethau neu bwerau newydd yn gallu bod yn anrhagweladwy ac yn agored i newid oherwydd pwysau allanol.

Mae dadansoddiad [Eiser \(2020\)](#) o brofiad yr Alban o ddatganoli yn nodi'r seilwaith sefydliadol sylweddol dan sylw, a chostau hynny, yn enwedig (at ein dibenion ni) Social Security Scotland. Gofynnodd hyn am dros £300 miliwn ar gyfer y sefydlu cychwynnol ac oddeutu £150 miliwn y flwyddyn i weithredu, gyda chyfraniadau o £200 miliwn ymlaen llaw a

£66 miliwn y flwyddyn gan Lywodraeth y DU yn gwrthbwysu rhywfaint o hyn. Byddai datganoli gweinyddiaeth nawdd cymdeithasol yn unig yng Nghymru yn annhebygol iawn o olygu costau sefydlu neu weithredu ar raddfa debyg, ond byddai costau o'r fath yn bodoli o hyd, ac yn aml byddent yn cynyddu yn unol â lefel yr uchelgais sy'n rhan o'r newidiadau a wneir. Mae [Ifan and Siôn \(2019\)](#) yn pwysleisio y byddai costau gweinyddol a gweithredu yn debygol o godi wrth ddatganoli nawdd cymdeithasol yn y dyfodol i Gymru (er, unwaith eto, yng nghyd-destun dadansoddiad ehangach o polisi yn ogystal â datganoli gweinyddiaeth). Maen nhw'n nodi y gallai trosglwyddo pwerau dros sawl budd-dal ar yr un pryd, yn hytrach nag un ar y tro, helpu i amrywio'r risgiau ariannu, o ystyried y gall risgiau ymddangos mewn gwahanol gyfeiriadau (neu i raddau gwahanol) ar gyfer budd-daliadau gwahanol.

3.3 Arolwg

3.3.1 Yn gryno

- Roedd plant a theuluoedd, budd-daliadau ar gyfer anabledd ac afiechyd, Canolfannau Gwaith, cyflogaeth ac amodoldeb, a thai ymhlith y meysydd nawdd cymdeithasol yr oedd ymatebwyr yn teimlo y gallai datganoli gweinyddiaeth wneud y gwahaniaeth cadarnhaol mwyaf ynddynt.
- Yn amlaf, roedd ymatebwyr yn teimlo y gallai datganoli gweinyddiaeth nawdd cymdeithasol helpu i ddarparu system fwy hyblyg, nad yw'n un ateb i bawb, yn ogystal â sicrhau bod pobl yn cael eu trin ag urddas a pharch (yn unol â model cymdeithasol anabledd). Roedd ymatebwyr yn arbennig o debygol o anghytuno bod Llywodraeth Cymru yn gallu mynd ar drywydd system fwy hyblyg yn ddigonol gyda'i phwerau presennol.
- Roedd ymatebwyr hefyd yn teimlo'n gyffredinol fod mynd ar drywydd cyfradd derbyn ac ymwybyddiaeth o fudd-daliadau uwch yn rhywbeth y gellir ei gyflawni eisoes gyda'r pwerau presennol (wedi'i ategu gan gyfweiliadau â rhanddeiliaid, ond gyda chryn nifer o gyfyngiadau pwysig).
- O ran risgiau a heriau, roedd pryderon ynghylch costau a chyllid yn amlwg, yn ogystal â'r hyn y gellir ei gyflawni pan fo polisi a llawer o'r cyllid yn cael eu harwain gan San Steffan. Wrth ddewis o restr a osodwyd ymlaen llaw, roedd ymatebwyr yn fwyaf tebygol o ddewis "pwerau ddim yn cael eu cyfateb gan adnoddau" fel y bygythiad mwyaf i ddatganoli gweinyddiaeth gyflawni ei nodau.
- Pan ofynnwyd am opsiynau mwy penodol ar gyfer datganoli gweinyddiaeth, roedd yr opsiynau mwyaf poblogaidd yn ymwneud â phrosesau asesu (yn enwedig ar gyfer budd-daliadau sy'n gysylltiedig ag iechyd) a cheisiadau am fudd-daliadau.

Roedd yr arolwg yn cynnwys 20 cwestiwn yn cwmpasu cyfleoedd, heriau a risgiau datganoli gweinyddiaeth nawdd cymdeithasol, yn ogystal â'r ymgeiswyr gorau ar gyfer datganoli. Roedd cyfanswm o 7 cwestiwn testun caeedig (6 heb gynnwys y cwestiwn cyntaf ar ganiatâd i gymryd rhan yn yr arolwg) a 13 cwestiwn testun agored. Cynlluniwyd pob cwestiwn testun agored heblaw am 2 i ddilyn y cwestiynau testun caeedig blaenorol, gan roi cyfle i ymatebwyr roi sylwadau esboniadol neu awgrymu opsiynau ychwanegol nad oeddent wedi'u cynnwys eisoes. Yn gyffredinol, archwiliodd C3 i C13 gyfleoedd, archwiliodd C14 i

C17 heriau a risgiau, a chanolbwyntiodd C18 i C20 ar nodi'r meysydd mwyaf addas ar gyfer datganoli.

Mae'r adran ganlynol yn rhoi trosolwg o'r 26 ymateb dilys a dderbyniwyd i'r arolwg.

3.3.2 C2: Beth yw eich maes o arbenigedd ym maes nawdd cymdeithasol?

Atebodd pob ymatebydd i'r arolwg (26) y cwestiwn hwn. Roedd chwe maes arbenigedd a ddiffiniwyd ymlaen llaw wedi'u cynnwys, a gallai ymatebwyr ddewis pob un a oedd yn berthnasol iddynt. Gallai ymatebwyr hefyd ychwanegu opsiwn "Arall". Mae Tabl 2 yn dangos amllder yr ymatebion.

Tabl 2. Dosbarthiad yr ymatebion ar gyfer C2

Maes arbenigedd	Amllder
Anabledd ac afiechyd	16
Canolfannau gwaith, cyflogaeth ac/neu amodoldeb	6
Plant a theuluoedd	5
Tai	<5
Pobl ifanc 16–24 mlwydd oed	<5
Cymorth oedran pensiwn	<5
Arall	7

Nodyn: Mae gwybodaeth bersonol adnabyddadwy wedi'i dileu er mwyn diogelu anhysbysrwydd yr ymatebwyr.

Y maes arbenigedd a nodwyd amlaf gan ymatebwyr oedd nawdd cymdeithasol mewn perthynas ag anabledd ac iechyd gwael (16 o ymatebwyr). Ymhlith yr opsiynau a restrwyd, yr ail faes arbenigedd a nodwyd amlaf oedd canolfannau gwaith, cyflogaeth, a/neu amodoldeb (6 ymateb). Roedd hefyd yn gyffredin i ymatebwyr ychwanegu eu mewnbwn eu hunain, gyda'r opsiwn "Arall" yn cael ei ddewis yr ail amlaf (7 o ymatebwyr). Roedd ymatebion o dan "Arall" yn cynnwys arbenigedd yn y system nawdd cymdeithasol yn ehangach, gan gynnwys meysydd a oedd yn gorgyffwrdd â'r opsiynau wedi'u rhagddiffinio; arbenigedd mewn datganoli; a meysydd arbenigol mwy penodol (e.e. iechyd meddwl).

3.3.3 C3 i C5: Ym mha feysydd eang o nawdd cymdeithasol ydych chi'n credu y gallai datganoli pwerau gweinyddol i Gymru wneud gwahaniaeth cadarnhaol sylweddol i aelwydydd neu gymunedau yng Nghymru?

Yn C3, gofynnwyd i ymatebwyr osod chwe maes eang o nawdd cymdeithasol yn y drefn lle'r oeddent yn teimlo y gallai datganoli pwerau gweinyddol i Gymru gael yr effaith gadarnhaol fwyaf i'r lleiaf. Roedd y cwestiwn hwn yn ei gwneud yn ofynnol i ymatebwyr raddio pob opsiwn yn hytrach na dewis un maes yn unig. Cafodd categori "Arall" ei gynnwys hefyd er mwyn caniatáu i ymatebwyr gyflwyno maes ychwanegol o nawdd cymdeithasol nad oedd eisoes wedi'i restru. Gallai'r rhai a oedd yn dymuno gwneud hynny raddio'r categori "Arall" hwn ochr yn ochr â'r chwe opsiwn wedi'u rhagddiffinio, ac yna nodi'r maes amgen yn y cwestiwn canlynol (C4). Dywedwyd wrth ymatebwyr nad oeddent yn dymuno cynnig maes


ychwanegol i osod “Arall” yn olaf yn eu rhestr. Gallai ymatebwyr hefyd ddarparu sylwadau eglurhaol ychwanegol drwy eu hymateb i C5.

Derbyniodd C3 gyfanswm o 22 ymateb.


Mae Ffigur 1 yn dangos safle cyffredinol y meysydd hyn o nawdd cymdeithasol yn ôl barn yr ymatebwyr. Neilltuwyd sgôr i bob maes yn seiliedig ar ei safle yn y drefn: roedd meysydd a osodwyd yn uwch yn derbyn sgoriau uwch, tra bod meysydd a osodwyd yn is yn derbyn sgoriau is. Yna cafodd y sgoriau hyn eu cyfartalu ar draws yr holl ymatebwyr er mwyn cynhyrchu cyfanswm gwerth ar gyfer pob opsiwn. O ganlyniad, gall y ffigurau a ddangosir gynnwys gwerthoedd nad ydynt yn gyfanrifau, gan eu bod yn adlewyrchu pwysigrwydd cymharol cyfartalog pob maes yn hytrach na nifer yr ymatebwyr a'i gosododd mewn safle penodol.

Mae Ffigur 2 yn dangos dosbarthiad safleoedd yr ymatebwyr ar gyfer pob maes. Ar gyfer pob maes nawdd cymdeithasol, mae'r ffigur yn dangos canran yr ymatebwyr a'i gosododd yn y safle cyntaf, ail, trydydd, ac yn y safleoedd dilynol. Mae hyn yn rhoi darlun clir o ba feysydd a roddwyd yn y safleoedd uchaf yn gyffredinol, yn ogystal â'r amrywiaeth o farn ymhlith yr holl ymatebwyr. Mae hyn yn ategu'r sgoriau cyffredinol a ddangosir yn Ffigur 1 drwy ddarparu manylion ychwanegol am ddosbarthiad y safleoedd.

Ffigur 1. Safle cyffredinol y meysydd nawdd cymdeithasol yn ôl yr effaith gadarnhaol ganfyddedig o ddatganoli pwerau gweinyddol i Gymru



Ffigur 2. Dosbarthiad safleoedd y meysydd nawdd cymdeithasol yn ôl yr effaith gadarnhaol ganfyddedig o ddatganoli pwerau gweinyddol i Gymru



Nodyn: Mae'r safleoedd rhifiadol yn cael eu mynegi fel a ganlyn: mae "1" yn dynodi'r safle cyntaf, "2" yn dynodi'r ail safle, ac ati.

Roedd y pedwar categori uchaf - (i) plant a theuluoedd, (ii) anabledd ac iechyd gwael, (iii) canolfannau gwaith, cyflogaeth a/neu amodoldeb, a (iv) tai - i gyd wedi'u graddio'n uchel, gydag ychydig bach o amrywiad rhyngddynt. Roedd y gwahaniaethau yn y sgoriau graddio cyfartalog rhwng y safle cyntaf a'r ail safle, yn ogystal â rhwng y trydydd a'r pedwerydd safle, yn fach. Mae hyn yn awgrymu nad oedd ymatebwyr yn mynegi consensws cryf fod unrhyw faes unigol yn debygol o elwa'n sylweddol fwy nag eraill o ddatganoli.

Ymhlith y pedwar maes hyn, anabledd ac iechyd gwael a chanolfannau gwaith, cyflogaeth a/neu amodoldeb a osodwyd yn y safle cyntaf amlaf gan ymatebwyr (32% a 23% yn y drefn honno). Mewn cymhariaeth, roedd plant a theuluoedd yn cael eu gosod yn y safle cyntaf yn llai aml (14%), ond roeddent yn gyson ymhlith yr opsiynau uchaf ac ni chawsant eu gosod yn is na'r pedwerydd safle. Mae hyn yn awgrymu, er bod anabledd ac iechyd gwael a chanolfannau gwaith, cyflogaeth a/neu amodoldeb yn cael eu hystyried fel y blaenoriaethau mwyaf uniongyrchol, fod plant a theuluoedd yn cael eu hystyried yn eang fel maes â photensial cryf a chynhwysfawr ar gyfer effaith gadarnhaol.

Cefnogaeth i bobl o oedran pensiwn oedd â'r amrywiad mwyaf o ran safleoedd graddio, gyda rhai ymatebwyr yn ei osod yn isel iawn ac eraill yn uchel iawn. Roedd effeithiau ar bobl ifanc 16–24 mlwydd oed yn tueddu i gael eu graddio'n gymharol gyson tuag at waelod y rhestr, gyda 59% o'r ymatebwyr yn ei osod yn bumed.

Fe wnaeth tua 9% o'r ymatebwyr raddio opsiynau "Arall", ac ni osododd yr un ohonynt y categori hwn yn olaf. Ymhlith y meysydd eraill a gyflwynwyd, drwy ymatebion i C4, fel rhai a allai gael eu heffeithio'n gadarnhaol gan ddatganoli oedd darpariaeth gwasanaethau cyfrwng Cymraeg, yn ogystal â rhai agweddau ar weinyddiaeth Credyd Cynhwysol. Roedd themâu eraill a godwyd gan ymatebwyr yn cynnwys y ffaith y byddai'r effeithiau'n dibynnu ar lefel yr adnoddau a ddarperir, yn ogystal ag anghytundeb ynghylch p'un a fyddai unrhyw effeithiau cadarnhaol o gwbl yn deillio o ddatganoli.

Darparodd 11 o ymatebwyr sylwadau eglurhaol drwy eu hymateb i C5. Nododd rhai o'r ymatebwyr hyn y byddai'r effaith gadarnhaol ar aelwydydd neu gymunedau yng Nghymru yn dibynnu ar faint y bydd Llywodraeth Cymru yn dewis ei wario. Tynnodd yr ymatebwyr sylw hefyd at y ffaith y bydd datganoli pwerau gweinyddol yn galluogi Llywodraeth Cymru i chwarae rôl gryfach a gwneud gwahaniaeth o ran budd-daliadau drwy newid amllder taliadau a chyflwyno taliadau newydd, er enghraifft Taliad Plant Cymru.

Awgrymodd ymatebwyr y gallai datganoli pwerau gweinyddol wella'r ffordd mae rhaglenni cymorth ac asesiadau'n cael eu dylunio a'u cyflwyno. Er enghraifft, gallent helpu i wneud asesiadau yn fwy pobl-ganolog; neu'n fwy syml a llai beichus, e.e. drwy hwyluso ymdrechion i integreiddio rhannau o'r broses hawlio ar gyfer Credyd Pensiwn gyda budd-daliadau presennol a weinyddir gan awdurdodau lleol, megis Budd-dal Tai a Gostyngiadau'r Dreth Gyngor.


Nododd rhai ymatebwyr y gallai datganoli pwerau gweinyddol wella'r gallu i ymateb i anghenion lleol. Awgrymwyd y byddai system ddatganoledig mewn gwell sefyllfa i gefnogi cyd-destunau lleol, er enghraifft wrth ymateb i heriau lleol a wynebwr gan drefi llai, ardaloedd gwledig a chymunedau ffermio. Tynnodd ymatebwyr eraill sylw at y manteision posibl i siaradwyr Cymraeg, gan awgrymu y gallai darparu gwasanaethau yn y Gymraeg gryfhau hunaniaeth ddiwylliannol, meithrin ymddiriedaeth a gwella cyfathrebu, yn enwedig mewn meysydd sensitif megis gofal cymdeithasol.

3.3.4 C6 i C10: I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y gellir cyflawni'r canlynol eisoos gan ddefnyddio pwerau a galluoedd presennol, heb ddatganoli pellach ar drefniadau nawdd cymdeithasol?

Yn C6, gofynnwyd i ymatebwyr i ba raddau maen nhw'n credu y gellir mynd ar drywydd amcanion penodol yn Siarter Budd-daliadau Cymru yn ddigonol gan ddefnyddio'r pwerau presennol, heb ddatganoli gweinyddiaeth nawdd cymdeithasol. Yr amcanion hyn yw: (i) darparu system hyblyg nad yw'n 'un ateb i bawb', (ii) gwella ymwybyddiaeth a'r nifer sy'n derbyn cymorth, (iii) cefnogi plant a phobl ifanc o deuluoedd incwm isel, a (iv) trin unigolion gyda pharch ac urddas ac yn unol â'r model cymdeithasol o anabledd. Ar gyfer pob amcan, rhoddodd ymatebwyr sgôr ar raddfa bum pwynt: cytuno'n gryf, cytuno, ddim yn cytuno nac yn anghytuno, anghytuno, ac anghytuno'n gryf. Yn C7–C10, cafodd ymatebwyr y cyfle i roi sylwadau eglurhaol ar eu graddiad ar gyfer pob un o'r amcanion.

Mae Ffigur 3 yn dangos dosbarthiad lefelau cytundeb yr ymatebwyr â'r datganiad y gellir mynd ar drywydd pob amcan yn ddigonol gan ddefnyddio'r pwerau presennol. Mae hyd pob segment lliw yn cynrychioli cyfran yr ymatebwyr a ddewisodd y lefel honno o gytundeb. Mae gwerthoedd cadarnhaol yn dynodi cytundeb, tra bod gwerthoedd negyddol yn dynodi anghytundeb. Mae ymatebion niwtral wedi'u rhannu'n gyfartal, gyda hanner yn cael gwerth cadarnhaol a hanner yn cael gwerth negyddol, fel bod y bar cyffredinol wedi'i ganoli o amgylch sero. Felly, mae'r siart yn dangos tueddiad cyffredinol yr ymatebion ar draws y sbectrwm cytuno -anghytuno, yn ogystal â chyfran yr ymatebwyr ym mhob categori.

Ffigur 3. Cytundeb ymatebwyr ynghylch i ba raddau y gellir cyflawni amcanion WBC gan ddefnyddio'r pwerau presennol



Nodyn: Mae'r ffigur yn dangos nifer yr ymatebwyr a ddewisodd bob pwynt ar y raddfa cytundeb. Mae gwerthoedd cadarnhaol yn adlewyrchu cytundeb, tra bod gwerthoedd negyddol yn nodi anghytundeb.

Ymhlith yr amcanion a restrwyd, gwella ymwybyddiaeth a'r nifer sy'n derbyn cymorth (Amcan 2) oedd yr amcan yr oedd ymatebwyr fwyaf tebygol o gredu y gellid ei gyflawni gan ddefnyddio pwerau a galluoedd presennol. Roedd 68% o'r ymatebwyr naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf bod hyn yn wir. Ni fynegodd unrhyw ymatebwr anghytundeb cryf â'r safbwynt hwn.

Ar gyfer yr holl amcanion eraill, roedd llai o gonsensws. Roedd yr ymatebion wedi'u rhannu'n gyfartal ar gyfer plant a phobl ifanc o deuluoedd incwm isel (Amcan 3), gyda chytundeb ac anghytundeb wedi'u dosbarthu ar draws y sbectrwm. Roedd barn hyd yn oed yn fwy rhanedig ar drin unigolion gydag urddas a pharch (Amcan 4), gyda chyfrannau sylweddol ar y ddau begwn (40% yn cytuno'n gryf a 28% yn anghytuno'n gryf), a llai o ymatebwyr yn dewis y categorïau canol, gan ddangos gwahaniaeth sylweddol mewn safbwyntiau. Nid oedd consensws clir chwaith ynghylch darparu system hyblyg wedi'i theilwra i anghenion unigol (Amcan 1), er bod yr ymatebion yn dangos gogwydd bach tuag at anghytundeb: Roedd 48% o'r ymatebwyr o'r farn nad yw'r trefniadau presennol yn ddigonol i ganiatáu hyblygrwydd, gan gynnwys 12% a oedd yn anghytuno'n gryf.

Darparodd 12 o ymatebwyr sylwadau eglurhaol ar eu graddiad ar gyfer pob un o'r amcanion.

O ran **darparu system hyblyg nad yw'n 'un ateb i bawb'**, roedd ymatebwyr yn teimlo y gall ymdrin â'r DWP a gwasanaethau cysylltiedig fod yn broses anodd ac yn aml yn un ofidus, ac mae rhai teuluoedd yng Nghymru yn wynebu amgylchiadau cymhleth sy'n gofyn am gymorth mwy sensitif a chynhwysol. Dylid rhoi blaenoriaeth i fwy o anogaeth a darparu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwasanaethau cymorth.

Mae'r ddibyniaeth ar blatfformau digidol, megis apiau symudol neu ffurflenni ar-lein, yn methu ag ystyried anghenion pobl hŷn, pobl ag anableddau dysgu, neu unigolion sy'n cael trafferth gyda llythrennedd.

Nododd ymatebwyr nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno y gallai datganoli rhai cyfrifoldebau i Gymru wella hygyrchedd drwy ganiatáu i reolaeth gael ei harfer yn lleol. Gallai darparu gwasanaethau gwell yn y Gymraeg, wedi'u teilwra'n benodol i ddefnyddwyr yng Nghymru, hefyd gynyddu defnydd ac ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau hyn.

Holodd rhai ymatebwyr a fyddai datganoli gweinyddol yn unig - heb ddatganoli penderfyniadau polisi ochr yn ochr ag ef - yn ddigonol i wneud y system yn fwy hyblyg.

O ran **gwella ymwybyddiaeth a'r nifer sy'n derbyn cymorth**, nododd ymatebwyr fod Llywodraeth Cymru eisoes yn gweithio i wella ymwybyddiaeth a'r nifer sy'n derbyn budd-daliadau.

Felly, roedd rhai o'r farn y dylai ymdrechion datganoli ganolbwyntio ar broblemau eraill. Serch hynny, roedd eraill yn teimlo bod lle sylweddol o hyd i wella ymhellach er mwyn sicrhau bod pawb sy'n gymwys i gael budd-daliadau yn cael eu hysbysu a'u cefnogi'n llawn. Cyfeiriwyd at gyfraddau isel o dderbyn taliadau uniongyrchol a diffyg ymwybyddiaeth o daliadau tai dewisol fel enghreifftiau penodol.

Roedd nifer o ymatebwyr o'r farn, er bod Cymru eisoes yn cymryd camau i **gefnogi plant a phobl ifanc o deuluoedd incwm isel**, bod angen gwneud mwy. Mae llawer o deuluoedd yn dal yn anymwybodol o'r cymorth sydd ar gael, megis grantiau gwisg ysgol neu brydau ysgol am ddim, ac mae rhai yn teimlo stigma wrth geisio cymorth. Fodd bynnag, hyd yn oed gyda datganoli gweinyddol, roedd rhai ymatebwyr yn ofni y byddai cymorth i blant a phobl ifanc yn parhau'n annigonol heb newid llawer ehangach (er enghraifft, galwodd sawl un am drethiant tecach gyda chyfraniadau mwy gan y rhai cyfoethocaf, neu awgrymwyd cyflwyno Taliad Plant Cymru tebyg i'r un yn yr Alban).

O ran **trin unigolion gydag urddas a pharch ac yn unol â'r model cymdeithasol o anabledd**, tynnodd rhai ymatebwyr sylw at y ffaith y byddai mwy o ymwybyddiaeth a hyfforddiant ynghylch y model cymdeithasol o anabledd yn allweddol i drin pobl yn gyfartal a gyda pharch, ac roeddent yn teimlo bod ymdrechion presennol yn parhau'n annigonol yn hyn o beth. Unwaith eto, roedd hwn yn faes lle nododd ymatebwyr y gallai Llywodraeth Cymru eisoes ysgogi gwelliannau bach gyda'r pwerau presennol, ond y byddai newid mwy sylweddol yn gofyn am bwerau datganoledig ynghyd ag ymrwymiad clir o ran adnoddau.

3.3.5 C11 to C13: Pa un o amcanion Siarter Budd-daliadau Cymru, yn eich barn chi, y gellid eu cefnogi'n well drwy ddatganoli trefniadau nawdd cymdeithasol?


Yn C11, gofynnwyd i ymatebwyr raddio'r un amcanion WBC ag yn C6, ond y tro hwn gofynnwyd iddynt a oeddent yn teimlo y gellid cefnogi'r amcanion hyn yn well drwy ddatganoli pwerau gweinyddol i Gymru. Cafodd opsiwn i anghytuno y gellid cefnogi unrhyw un o amcanion WBC yn well drwy ddatganoli hefyd ei gynnwys. Yn ogystal, cafodd opsiwn "Arall" ei gynnwys, gyda chyfarwyddyd i ymatebwyr ei osod yn olaf yn eu rhestr raddio os nad oeddent yn dymuno ystyried opsiwn ychwanegol. Roedd y rhai a ddewisodd "Arall" yn

gallu nodi eu dewis amgen yn y cwestiwn canlynol (C12). Roedd ymatebwyr hefyd yn gallu darparu sylwadau eglurhaol fel rhan o C13.

Derbyniwyd cyfanswm o 22 ymateb i C11.


Mae Ffigur 4 yn dangos safle cyffredinol yr amcanion hyn yn ôl barn yr ymatebwyr. Yn debyg i Ffigur 1, neilltuwyd sgôr i bob amcan yn seiliedig ar ei safle yn y drefn: roedd amcanion a osodwyd yn uwch yn derbyn sgoriau uwch, tra bod amcanion a osodwyd yn is yn derbyn sgoriau is. Yna cafodd y sgoriau hyn eu cyfartalu ar draws yr holl ymatebwyr er mwyn cynhyrchu cyfanswm gwerth ar gyfer pob opsiwn. Mae Ffigur 5 yn dangos dosbarthiad safleoedd yr ymatebwyr ar gyfer pob amcan. Mae'n dangos canran yr ymatebwyr a'i gosododd yn y safle cyntaf, yr ail safle, y trydydd safle, ac yn y safleoedd dilynol.

Ffigur 4. Safle amcanion WBC yn ôl i ba raddau y gellid eu cefnogi'n well drwy ddatganoli trefniadau nawdd cymdeithasol



Nodyn: Mae safle uwch yn dynodi angen mwy am ddatganoli trefniadau nawdd cymdeithasol

Ffigur 5. Dosbarthiad safleoedd amcanion WBC yn ôl i ba raddau y gellid eu cefnogi'n well drwy ddatganoli trefniadau nawdd cymdeithasol



Nodyn: Mae'r safleoedd rhifiadol yn cael eu mynegi fel a ganlyn: mae "1" yn dynodi'r safle cyntaf, "2" yn dynodi'r ail safle, ac ati.

Yn gyffredinol, roedd ymatebwyr yn tueddu i feddu ar y farn y gallai o leiaf rhai o amcanion WBC gael eu cefnogi'n well ar ôl datganoli trefniadau nawdd cymdeithasol. Roedd y datganiad "Dydw i ddim y credu y gellid cefnogi unrhyw un o'r amcanion yn well drwy ddatganoli trefniadau nawdd cymdeithasol" wedi'i osod isaf ymhlith y rhestr o opsiynau wedi'u rhagddiffinio, gyda 90% o'r ymatebwyr yn ei osod naill ai yn y safle olaf neu'r ail safle o'r gwaelod.

Roedd "Darparu system hyblyg wedi'i theilwra i anghenion unigol" a "Thrin unigolion gydag urddas a pharch" yn y safleoedd uchaf fel yr amcanion yr oedd ymatebwyr yn teimlo y gellid eu cefnogi'n well drwy ddatganoli trefniadau nawdd cymdeithasol. Mae hyn yn cyd-fynd yn fras ag ymatebion i C6, yn enwedig o ran yr amcan o ddarparu system hyblyg, a oedd yn cael ei ystyried gan ymatebwyr fel yr amcan mae'r pwerau a'r galluoedd presennol yn gallu ei sicrhau leiaf.

Cyflwynodd lleiafrif o ymatebwyr (22%) hefyd amcanion "Arall", a'u graddio. Yn aml, ni fanylwyd ar yr amcanion eraill hyn yn benodol wedyn, ond awgrymodd un ymatebydd y gallai datganoli gweinyddiaeth nawdd cymdeithasol helpu i gefnogi teuluoedd i ddod yn fwy gwydn yn ariannol.


Darparodd 5 ymatebydd sylwadau eglurhaol yn C13. Ymhlith y safbwyntiau a fynegwyd yma roedd y gallai datganoli fod o fudd drwy ddarparu dewisiadau amgen i ddibyniaeth ar gymorth mewn argyfwng (megis y Gronfa Cymorth Dewisol a banciau bwyd).

3.3.6 C14 i C15: Pa ffactorau ydych chi'n ystyried sy'n debygol o gyfyngu ar botensial datganoli trefniadau nawdd cymdeithasol i Gymru i gyflawni ei nodau?

Yn C14, gofynnwyd i ymatebwyr ddewis, o set o 3 opsiwn, pa rai yr oeddent yn credu sy'n debygol o gyfyngu ar botensial datganoli i alluogi Cymru i gyflawni ei nodau. Roedd ymatebwyr yn gallu dewis pob opsiwn perthnasol, yn ogystal ag ychwanegu opsiwn "Arall". Roedd C15 yn caniatáu i ymatebwyr ddarparu unrhyw sylwadau eglurhaol ynghylch eu dewis.

Atebodd 24 o ymatebwyr y cwestiwn hwn.

Ffigur 6. Siart bar amllder yn dangos y ffactorau mae ymatebwyr yn eu hystyried yn debygol o gyfyngu ar botensial datganoli gweinyddiaeth nawdd cymdeithasol yng Nghymru



Roedd pob un o'r ffactorau hyn yn cael eu hystyried yn eithaf cyffredin fel ffactorau cyfyngu posibl, ac fe wnaeth llawer o ymatebwyr ddewis mwy nag un opsiwn. Cyfyngiadau adnoddau oedd y rhwystr posibl a ddewiswyd amlaf (80% o'r ymatebwyr), wedi'i ddilyn gan gyfyngiadau ar yr hyn y gall datganoli ei gyflawni tra bod pwerau eraill yn parhau'n faterion wedi'u cadw'n ôl (58% o'r ymatebwyr), ac yna gan gymhlethdod neu ddiffyg cydlynid cynyddol mewn system sydd yn rhannol ddatganoledig ac wedi'i gadw'n ôl yn rhannol (41%).

Roedd nifer fach (8%) o ymatebwyr yn cynnwys rhwystrau nad oeddent wedi'u cynnwys yn y rhestr wedi'i rhagddiffinio drwy ddefnyddio'r maes "Arall". Ymhlith yr ymatebion hyn roedd themâu fel biwrocratiaeth fe rhwystr i dderbyn cymorth digonol a'r posibilrwydd o gamreoli pwerau newydd neu fethu cyflawni ar addewidion.

Darparodd 7 ymatebydd sylwadau eglurhaol yn C15. Pryder blaenllaw a godwyd oedd y byddai dibyniaeth barhaus Cymru ar Lywodraeth y DU am gyllid yn cyfyngu ar ei gallu i ddylunio system sydd wirioneddol yn diwallu anghenion Cymru. Tynnwyd sylw hefyd at y

ffaith bod sicrhau bod y bobl iawn yn derbyn y cymorth priodol ar yr adeg gywir yn her arbennig heb reolaeth lawn dros y system gyfan a chyllid digonol.

Tynnodd rai sylw hefyd at heriau o ran mynediad at ddata, gan nodi bod gwybodaeth allweddol a gedwir gan adrannau'r DU yn angenrheidiol i nodi unigolion sy'n colli allan ar fudd-daliadau ac i symleiddio hawliadau. Felly, gall rhwystrau i rannu data, os na chânt eu datrys, weithredu fel cyfyngiad pellach ar yr hyn y gallai datganoli ei gyflawni.

3.3.7 C16: A oes unrhyw risgiau neu heriau eraill rydych chi'n eu rhagweld o ran datganoli trefniadau nawdd cymdeithasol?

Atebwyd y cwestiwn hwn yn llai aml na'r rhan fwyaf o'r cwestiynau eraill: Atebodd 11 o ymatebwyr C16. Ymhlith y risgiau neu'r heriau a godwyd roedd y canlynol:

- Dibyniaeth barhaus ar benderfyniadau Llywodraeth y DU (efallai y gellir ei hystyried yn fwy fel ffactor sy'n cyfyngu ar yr hyn y gall datganoli ei gyflawni, ac felly'n ailadrodd thema a godwyd yn yr is-adran flaenorol).
- Risgiau sy'n ymwneud â chost ac ariannu trefniadau newydd, gan gynnwys ansicrwydd ynghylch pa setliadau cyllidol a fyddai'n bosibl eu cyrraedd gyda Llywodraeth y DU.

3.3.8 C17: A oes enghreifftiau penodol o weinyddiaeth nawdd cymdeithasol ddatganoledig mewn mannau eraill yn y DU rydych chi'n credu y dylid eu hefelychu yng Nghymru? Os felly, manylwch.

Atebodd 6 o ymatebwyr C17. Dywedodd y rhan fwyaf nad oeddent yn siŵr neu nad oeddent yn gwybod. Roedd yr atebion yn cyfeirio'n fwyaf cyffredin at yr Alban, a mesurau megis yr SCP (er bod hwn yn fater polisi yn hytrach na gweinyddiaeth) a'r opsiynau "Scottish Choices" o ran trefniadau talu Credyd Cynhwysol. Fodd bynnag, nodwyd hefyd fod angen ystyried unrhyw wersi o achos yr Alban yn ofalus - er enghraifft, gan fod gan yr Alban fwy o allu i ariannu costau ychwanegol drwy benderfyniadau trethu datganoledig.

3.3.9 C18 i C20: Isod mae rhai enghreifftiau penodol damcaniaethol o drefniadau nawdd cymdeithasol y gellid eu datganoli i Gymru. Pa un o'r rhain, yn eich barn chi, sydd fwyaf addawol?


Fel rhan o C18, gofynnwyd i ymatebwyr raddio 6 enghraifft ddamcaniaethol o drefniadau nawdd cymdeithasol y gellid eu datganoli i Gymru, yn ôl pa rai yr oeddent yn teimlo y gallai datganoli fod yn fwyaf addawol ar eu cyfer. Cafodd opsiwn "Arall" ei gynnwys yn y cwestiwn, gyda chyfarwyddyd i ymatebwyr ei osod yn olaf yn eu rhestr raddio os nad oeddent yn dymuno ystyried opsiwn ychwanegol. Roedd y rhai a ddewisodd "Arall" yn gallu nodi eu dewis amgen yn y cwestiwn canlynol (C19). Roedd ymatebwyr hefyd yn gallu darparu sylwadau eglurhaol fel rhan o C20.

Derbyniodd y cwestiwn hwn gyfanswm o 22 ymateb.


Mae Ffigur 7 yn dangos safle cyffredinol yr enghreifftiau hyn yn ôl barn yr ymatebwyr. Yn debyg i Ffigur 1 a 4, neilltuwyd sgôr i bob amcan yn seiliedig ar ei safle yn y drefn: roedd

enghreiffiau a osodwyd yn uwch yn derbyn sgoriau uwch, tra bod enghreifftiau a osodwyd yn is yn derbyn sgoriau is. Yna cafodd y sgoriau hyn eu cyfartalu ar draws yr holl ymatebwyr er mwyn cynhyrchu cyfanswm gwerth ar gyfer pob opsiwn. Mae Ffigur 8 yn dangos dosbarthiad safleoedd yr ymatebwyr ar gyfer pob enghraifft. Mae'n dangos canran yr ymatebwyr a'i gosododd yn y safle cyntaf, yr ail safle, y trydydd safle, ac yn y safleoedd dilynol.

Ffigur 7. Safle trefniadau nawdd cymdeithasol damcaniaethol yn ôl lefel ganfyddedig o effeithiolrwydd



Ffigur 8. Dosbarthiad safleoedd trefniadau nawdd cymdeithasol damcaniaethol yn ôl lefel ganfyddedig o effeithiolrwydd



Cafodd prosesau asesu ar gyfer budd-daliadau iechyd a/neu anabledd, ynghyd â phrosesau ymgeisio, eu graddio gan ymatebwyr fel y ddau faes mwyaf addawol ar gyfer datganoli yng

Nghymru. Cafodd trefniadau talu a mentrau i gynyddu'r nifer sy'n derbyn cymorth eu graddio fel y rhai lleiaf addawol.

Cyflwynodd lleiafrif bach o ymatebwyr (18%) opsiynau "Arall" a'u graddio, er bod y rhain fel arfer naill ai'n tueddu i ailadrodd themâu mwy cyffredinol (e.e. pwysigrwydd trin pobl gydag urddas a pharch) neu'n cyfeirio at opsiynau megis opsiwn cyfwerth â Thaliad Plant yr Alban (Scottish Child Payment) ar gyfer Cymru, sy'n debygol o fod y tu allan i gwmpas datganoli gweinyddol.

Darparodd 7 o ymatebwyr sylwadau eglurhaol drwy eu hymateb i C20. Mynegwyd anfodlonrwydd gyda'r prosesau asesu presennol ar gyfer budd-daliadau anabledd, gyda phryder eu bod yn achosi gofid ac yn cael effaith negyddol ar iechyd. Yn ogystal, tynnodd ymatebwyr sylw at y ffaith y byddent yn rhoi blaenoriaeth i fynd i'r afael â sut mae pobl hŷn a'r rhai nad ydynt yn llythrennog yn cael eu cefnogi, yn enwedig mewn system sy'n dibynnu fwyfwy ar offer digidol. Teimlwyd y gallai mesurau i helpu gyda hyn gynnwys symleiddio prosesau ymgeisio, darparu cymorth wedi'i deilwra ar gyfer pobl hŷn sy'n cael trafferth gyda thechnoleg, defnyddio data i dargedu mentrau i gynyddu'r nifer sy'n derbyn cymorth yn fwy effeithiol yn hytrach na dibynnu ar ymgyrchoedd cyffredinol, a sicrhau bod gweithdrefnau asesu yn ystyried trafnidiaeth, gofal iechyd ac anghenion ymarferol eraill.

3.4 Cyfweiliadau

3.4.1 Yn gryno

- Roedd y rhan fwyaf o'r rhai a gyfwelwyd yn credu y gallai datganoli nawdd cymdeithasol i Gymru wella'r system fudd-daliadau a hyrwyddo blaenoriaethau Cymru, megis y rhai a nodir yn WBC. Roedd eraill yn fwy amheus, gan ddadlau naill ai nad oedd datganoli'n angenrheidiol i gyflawni'r nodau hyn neu na fyddai datganoli rhannol yn mynd yn ddigon pell.
- Gan amlaf, trafododd y rhai a gyfwelwyd y blaenoriaethau o symleiddio prosesau gweinyddol, darparu system hyblyg, a thrin unigolion gydag urddas a pharch. Awgrymwyd newidiadau megis gwella rhannu data rhwng y DWP a gweinyddwyr yng Nghymru, ehangu'r opsiynau ar gyfer sut mae pobl yn ymgysylltu â'r system (e.e. wyneb yn wyneb neu ar-lein), a meithrin newid diwylliannol drwy hyfforddi staff ac ailfframio deunyddiau.
- Roedd y rhai a gyfwelwyd yn teimlo y dylid rhoi blaenoriaeth i blant a theuluoedd, gan fod hyn yn cyd-fynd yn dda â'r ymdrechion presennol yng Nghymru. Awgrymodd eraill ganolbwyntio ar feysydd sydd â chysylltiad agos â pholisïau sydd eisoes wedi'u datganoli, megis tai a chyflogaeth, er mwyn gwella cydlynid y system. Tynnodd rhai sylw hefyd at anabledd ac iechyd gwael, gan nodi bod profiad yr Alban yn awgrymu bod potensial ar gyfer effeithiau cadarnhaol yn y maes hwn.
- Nododd y rhai a gyfwelwyd nifer o ffactorau cyfyngu, costau a risgiau sy'n gysylltiedig â datganoli gweinyddiaeth i Gymru, gan gynnwys:
 - i. Heriau yn ymwneud â rhannu data, mynediad, a chapasiti dadansoddol;

- ii. cyfyngiadau ariannol, risgiau ariannu, a chostau cychwynnol;
- iii. capasiti sefydliadol a gweinyddol cyfyngedig;
- iv. rhwystrau llywodraethu a strwythurol;
- v. darnio, anawsterau cyfathrebu, a phroblemau o ran dealltwriaeth y cyhoedd;
- vi. dyblygu ymdrech a'r anhawster o ddiffinio meysydd cyfrifoldeb penodol; a
- vii. chyfyngiadau cynhenid datganoli rhannol.

Roedd gwybodaeth ac arbenigedd y rhai a gyfwelwyd yn ymestyn ar draws y system nawdd cymdeithasol gyfan yng Nghymru, gyda rhai yn fwy cyffredinol eu ffocws ac eraill yn arbenigo mewn meysydd penodol (megis plant a phobl ifanc, pobl anabl, pobl hŷn ac ati). Roedd rolau'r rhai a gyfwelwyd yn ymestyn ar draws meysydd polisi, ymchwil a gweinyddiaeth, ac roedd arbenigwyr ar ddatganoli nawdd cymdeithasol yn yr Alban a Gogledd Iwerddon hefyd.

3.4.2 Aliniad â Siarter Budd-daliadau Cymru a blaenoriaethau eraill Llywodraeth Cymru

Roedd llawer o'r rhai a gyfwelwyd o'r farn y gallai datganoli gweinyddiaeth nawdd cymdeithasol i Gymru wella'r system fudd-daliadau yng Nghymru a helpu i fynd ar drywydd llawer o flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar ei chyfer yn well. Weithiau roedd hyn yn deillio o'r farn gyffredinol y gallai gwneud pethau'n wahanol a/neu edrych ar y system gyda "phâr ffres o lygaid" helpu i gyflawni hyn, tra bod eraill yn fwy penodol ac yn awgrymu y gallai datganoli ganiatáu i Gymru benderfynu ar ei blaenoriaethau ei hun a theilwra gwasanaethau ac ymdrechion mewn ffyrdd penodol. Nododd mwy nag un o'r rhai a gyfwelwyd y byddent yn dymuno i unrhyw newidiadau a wneir gael eu cefnogi gan dystiolaeth cymaint ag sy'n bosibl.

Roedd eraill a gyfwelwyd yn fwy amheus ynghylch potensial cyffredinol datganoli gweinyddiaeth nawdd cymdeithasol i gyflawni blaenoriaethau Cymru. Roedd rhai o'r rhain yn teimlo efallai nad oedd datganoli'n angenrheidiol, neu y gallai hyd yn oed dynnu sylw oddi wrth yr hyn sydd angen ei wneud ac y gellir ei wneud eisoes. I'r gwrthwyneb, roedd eraill yn teimlo na fyddai datganoli prosesau gweinyddol yn mynd yn ddigon pell, ac y gallai datganoli llawn fod yn angenrheidiol er mwyn i newid gwirioneddol "trawsnewidiol" ddigwydd.

Symleiddio prosesau gweinyddol

Yn gyffredinol, roedd y rhan fwyaf o'r rhai a gyfwelwyd yn teimlo y gallai datganoli gweinyddiaeth nawdd cymdeithasol helpu i symleiddio prosesau. Yr awgrym mwyaf cyffredin yma oedd y gallai datganoli arwain at rannu data'n well rhwng y DWP a gweinyddwyr yng Nghymru, er enghraifft drwy wella ymdrechion i nodi pobl gymwys nad ydynt yn hawlio rhai budd-daliadau a lleihau'r baich o orfod gwneud ceisiadau lluosog am fudd-daliadau tebyg. Dywedwyd bod osgoi gorfod llenwi sawl ffurflen yn flaenoriaeth arbennig i rai pobl anabl.

Darparu system hyblyg

Roedd y rhan fwyaf o'r drafodaeth ynghylch darparu system hyblyg yn canolbwyntio ar ehangu'r opsiynau sydd ar gael ar gyfer sut mae pobl yn ymgysylltu â'r system fudd-daliadau yng Nghymru. Er enghraifft, roedd rhai a gyfwelwyd yn teimlo, er bod rhai pobl yn ffafrio gwneud ceisiadau ar-lein, dros y ffôn neu drwy'r post (weithiau oherwydd teimlo llai o stigma), y byddai eraill yn ffafrio cynnydd yn nifer y gwasanaethau lleol wyneb yn wyneb. Roedd teimlad mai po fwyaf y caiff gweinyddiaeth ei datganoli i Lywodraeth Cymru, y mwyaf o gyfleoedd sydd i ddarparu hyblygrwydd ac i adeiladu cymorth a chynghor ynghylch amgylchiadau pobl a'r heriau penodol sy'n wynebu cymunedau yng Nghymru. Serch hynny, rhybuddiodd rhai a gyfwelwyd ynghylch y posibilrwydd o greu "loteri cod post".

Gwella ymwybyddiaeth a'r nifer sy'n derbyn

Nid oedd consensws llwyr ymhlith y rhai a gyfwelwyd ynghylch p'un a allai datganoli gweinyddiaeth nawdd cymdeithasol wella ymwybyddiaeth a'r nifer sy'n manteisio ar gymorth y tu hwnt i'r hyn y gellir ei gyflawni eisoes o fewn y system bresennol. Roedd y rhai a oedd yn teimlo y gallai datganoli helpu i fynd ar drywydd y nod hwn ymhellach yn aml yn cyfeirio at rannu data (gweler uchod) fel y mecanwaith a allai alluogi hyn. Roedd eraill yn teimlo nad yw gwella ymwybyddiaeth a chyfeirio pobl at gymorth yn gofyn am ddatganoli.

Cefnogi plant a phobl ifanc o deuluoedd incwm isel

Roedd ychydig o'r rhai a gyfwelwyd yn teimlo y gallai datganoli gweinyddiaeth nawdd cymdeithasol i Gymru helpu i alluogi cymorth gwell i blant a phobl ifanc o deuluoedd incwm isel yn arbennig. Fodd bynnag, nid oedd hyn yn dueddol o fod yn gysylltiedig â syniad penodol ar gyfer newid gweinyddol a fyddai wedi'i dargedu'n agos at y ddemograffeg hon. Yn hytrach na hynny, roedd yn deillio o'r teimlad bod llawer o bobl yn y grŵp hwn yn hawlio nawdd cymdeithasol ac y byddent yn elwa o ddarpariaeth cymorth gwell.

Trin unigolion gydag urddas a pharch

Roedd mwyafrif y rhai a gyfwelwyd yn teimlo y gellid gwneud gwelliannau i drin unigolion gydag mwy o urddas a pharch, ac roedd rhai yn teimlo bod datganoli gweinyddiaeth nawdd cymdeithasol yn addawol yn hyn o beth. Ymhlith y newidiadau a awgrymwyd roedd newidiadau diwylliannol i leihau stigma (e.e. drwy hyfforddi staff ac ail-fframio deunyddiau a rennir gyda derbynwyr budd-daliadau, fel yn yr Alban), rhoi mwy o amser i hyfforddwyr gwaith ymgysylltu â hawlwr a threulio mwy o amser mewn apwyntiadau yn eu cefnogi, a gwella rhannu data fel bod gan weinyddwyr fwy o wybodaeth am unigolion er mwyn gallu teilwra cymorth yn well yn unol â hynny.

3.4.3 Grwpiau hawlwr a mathau o fudd-daliadau i'w blaenoriaethu

Roedd llawer o'r rhai a gyfwelwyd o'r farn y dylid rhoi blaenoriaeth i blant a theuluoedd pe bai gweinyddiaeth nawdd cymdeithasol yn cael ei datganoli i Gymru. Ymhlith y rhesymau a roddwyd roedd bod tlodi plant yn flaenoriaeth allweddol yng Nghymru a bod Llywodraeth Cymru eisoes wedi gwneud newidiadau a gwelliannau yn y maes hwn, felly gallai datganoli gyd-fynd yn dda â'r ymdrechion presennol.

Roedd eraill o'r farn y dylai datganoli gweinyddiaeth nawdd cymdeithasol mewn meysydd sy'n agos at bolisïau sydd eisoes wedi'u datganoli fod yn flaenoriaeth, gan y byddai hyn yn galluogi polisïau mwy cydlynol ac integredig yng Nghymru. Y prif enghreifftiau o hyn oedd mewn perthynas â thai a chyflogaeth, er bod y pwynt hwn hefyd wedi'i wneud mewn perthynas ag iechyd.

Roedd rhai o'r rhai a gyfwelwyd hefyd o'r farn y dylai anabledd ac iechyd gwael fod yn faes blaenoriaeth ar gyfer datganoli yn y dyfodol. Er enghraifft, cyfeiriodd un o'r rhai a gyfwelwyd at newidiadau i brosesau asesu anabledd yn yr Alban oedd yn ymddangos fel pe baent wedi gwella profiadau pobl o'r system, gan awgrymu y gallai gwelliannau tebyg gael eu gwneud yng Nghymru - tra'n nodi bod y newidiadau hyn yn aml yn mynd y tu hwnt i weinyddiaeth yn unig, gan fod y budd-daliadau hyn wedi'u datganoli yn llawn i'r Alban, sy'n ei gwneud yn fwy cymhleth trosglwyddo gwersi yn uniongyrchol. Teimlwyd yn aml hefyd y gallai newidiadau a fyddai'n gwneud y system yn fwy hyblyg neu'n fwy syml fod o fudd arbennig i bobl anabl.

Wrth drafod cymorth i bobl o oedran pensiwn, roedd cwpl o'r rhai a gyfwelwyd o'r farn y byddai cymorth mwy personol a chymorth wyneb yn wyneb, yn ogystal ag ymgyrchoedd mwy cyson i annog pobl i dderbyn cymorth, yn fuddiol, ac felly y gallai'r grŵp hwn gael ei flaenoriaethu.

Yn olaf, roedd dau o'r rhai a gyfwelwyd o'r farn y gallai datganoli gweinyddiaeth nawdd cymdeithasol helpu pobl ifanc 16–24 mlwydd oed yn benodol, ac y dylid canolbwyntio ar bobl ifanc sy'n ddi-waith neu mewn cyflogaeth ansicr, y rhai sy'n gadael gofal, a'r rhai sy'n trosglwyddo o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion. Rhoddodd un o'r rhai a gyfwelwyd enghraifft o raglen Developing the Young Workforce yr Alban fel rhywbeth y gallai Cymru gymryd ysbrydoliaeth ohono.

3.4.4 Gwersi a ddysgwyd o fannau eraill yn y DU

Pan ofynnwyd am enghreifftiau o ddatganoli nawdd cymdeithasol mewn rhannau eraill o'r DU y gallai Cymru ddysgu ohonynt, trafododd nifer o'r rhai a gyfwelwyd yr Alban. Ymhlith y gwersi cadarnhaol a nodwyd roedd bod yr Alban wedi: (i) symleiddio rhai agweddau ar y broses ymgeisio, (ii) newid y ffordd mae nawdd cymdeithasol yn cael ei gyflwyno a'i gyfleu er mwyn ei wneud yn fwy sensitif, tosturiol a chefnogol, (iii) caniatáu mwy o gyfleoedd ar gyfer cyswllt wyneb yn wyneb â'r system, a (iv) lleihau'r baich sy'n gysylltiedig ag asesiadau anabledd drwy seilio penderfyniadau ar un darn o dystiolaeth yn hytrach na sawl un. Drwy'r newidiadau hyn, teimlai'r rhai a gyfwelwyd fod yr Alban wedi creu profiad mwy cadarnhaol i hawlwr a'i fod yn debygol o fod wedi cynyddu'r nifer sy'n derbyn cymorth.

Fodd bynnag, trafododd y rhai a gyfwelwyd hefyd rai heriau a risgiau a wynebwyd gan yr Alban y gallai Cymru ddysgu ohonynt. Er enghraifft, er bod Llywodraeth yr Alban wedi cyflwyno hyblygrwydd o ran trefniadau talu Credyd Cynhwysol, roedd teimlad bod effeithiau hyn wedi bod yn siomedig, gyda lefelau ymwybyddiaeth isel o'r opsiynau sydd ar gael. Dywedodd un arall a gyfwelwyd bod risgiau cyllidol posibl i'r Alban yn cyfyngu ar yr hyn y gall Llywodraeth yr Alban ei gyflawni, a bod ansicrwydd ynghylch y trefniadau cyllidol gyda San Steffan yn gallu cyfyngu ar yr hyn mae Llywodraeth yr Alban yn ei wneud. Er enghraifft,

nid yw'n glir i ba raddau y gellir cynyddu Taliad Plant yr Alban (SCP) cyn i Lywodraeth y DU ystyried ei fod yn cynyddu hawliadau am Gredyd Cynhwysol (sy'n rhoi mynediad at SCP) ac yn ceisio iawndal. Cafodd gwersi eraill o brofiad yr Alban, yn enwedig mewn perthynas â'i hymdrechion i hyrwyddo urddas a pharch yn y system nawdd cymdeithasol, eu trafod yn fanylach fel rhan o gyfweiliadau a gynhaliwyd yn ddiweddarach ar gyfer ein hastudiaeth achos (gweler Adran 5.1.3).

3.4.5 Ffactorau cyfyngol, costau a risgiau gweinyddiaeth nawdd cymdeithasol ddatganoledig yng Nghymru

Gofynnwyd i'r rhai a gyfwelwyd fyfyrion ar gyfyngiadau ymarferol, ariannol, gwleidyddol a gweithredol, gan ddefnyddio eu profiad uniongyrchol o weithio yn y system les.

Rhannu data, mynediad a chapasiti dadansoddol

Nododd y rhai a gyfwelwyd fod colli systemau data integredig ar draws y DU yn gyfyngiad posibl ar ddatganoli. Pwysleisiodd un o'r rhai a gyfwelwyd brofiad yr Alban, lle mae'r ymwahaniad oddi wrth drefniadau rhannu data Llywodraeth y DU wedi creu heriau sylweddol ar gyfer gweinyddiaeth a llunio polisïau. Mae'r DWP a CThEF wedi sefydlu gweithdrefnau sy'n caniatáu cysylltu setiau data gwahanol, gan alluogi awdurdodau i nodi amgylchiadau hawlwr a deall y rhyngweithio rhwng gwahanol fudd-daliadau. Nid oedd y trefniadau o ran datganoli yn rhoi'r un lefel o fynediad at y data hyn i Lywodraeth yr Alban. Er nad yw hyn o reidrwydd yn tarfu'n uniongyrchol ar daliadau dydd i ddydd i hawlwr, mae'n cyfyngu ar allu llywodraethau i fonitro tueddiadau, gwerthuso polisïau neu lunio polisi yn y ffordd y byddent fel arall yn gallu ei wneud.

Fel y nodwyd gan un o'r rhai a gyfwelwyd, mae profiad yr Alban yn awgrymu y gall systemau datganoledig, heb y gallu dadansoddol a'r seilwaith data priodol, gael trafferth cynnal yr un dyfnder ac ansawdd mewnwelediad ag y mae systemau ar draws y DU yn eu darparu ar hyn o bryd.

Ar y llaw arall, tynnodd rhai o'r rhai a gyfwelwyd sylw at rannu data gwell fel blaenoriaeth y gallai datganoli helpu i'w chyflawni gyda'r ffocws priodol. Cyfeiriwyd at bryderon parhaus ynghylch diogelu data, gyda rhywfaint o ansicrwydd ynghylch i ba raddau y gall Llywodraeth Cymru neu awdurdodau lleol ddefnyddio neu rannu data heb dorri Deddf Diogelu Data. I rai o'r rhai a gyfwelwyd, mae Deddf Diogelu Data wedi creu diwylliant gwrth-risg ac wedi cyfyngu ar ymdrechion rhagweithiol i geisio defnyddio data i wella sefyllfa hawlwr budd-daliadau. Pe bai'n cael ei ddylunio'n briodol, gallai datganoli gweinyddol gael ei ddefnyddio i greu llwybrau cliriach ar gyfer defnyddio a rhannu data yng Nghymru.

Cyfyngiadau ariannol, risgiau ariannu, a chostau cychwynnol

I lawer o'r rhai a gyfwelwyd, mae pwysau neu risgiau ariannu yn gysylltiedig â datganoli. Nodwyd bod systemau newydd, hyfforddiant, a phrosesau gweinyddol yn gofyn am fuddsoddiad sylweddol ymlaen llaw, yn enwedig ar gyfer staff newydd, seilwaith TG, ac integreiddio systemau. Mae prosesau newydd hefyd yn cymryd amser i'w hymgorffori, gan greu cyfnod o ansicrwydd gweithredol. Roedd y rhai a gyfwelwyd yn teimlo y gallai'r system ddod yn ansefydlog neu hyd yn oed chwalu heb gyllid sicr, gan adael hawlwr heb gymorth hanfodol.

Pwysleisiodd rhai a gyfwelwyd hefyd y gallai datganoli heb gyllid digonol roi pwysau sylweddol ar gyllidebau sydd eisoes dan straen. Byddai cynnydd yn y nifer sy'n derbyn budd-daliadau yng Nghymru (canlyniad cadarnhaol) yn dod â chostau ychwanegol yn uniongyrchol i Gymru, tra byddai cynnydd yn y nifer sy'n derbyn budd-daliadau wedi'u cadw'n ôl yn dod â chostau y byddai eu dosbarthiad yn dibynnu ar y setliadau cyllidol y byddem yn eu cyrraedd gyda San Steffan. Awgrymodd rhai o'r rhai a gyfwelwyd felly y dylai datganoli gweinyddol gael ei ategu gan ddiwygiadau ehangach a allai greu'r gwydnwch cyllidol sydd ei angen ar gyfer gweinyddu nawdd cymdeithasol yn gynaliadwy.

Galluoedd a chapasiti sefydliadol a gweinyddol

Cododd y rhai a gyfwelwyd bryderon yn aml ynghylch y galluoedd a'r capasiti sydd eu hangen i weinyddu swyddogaethau nawdd cymdeithasol datganoledig yn effeithiol. Teimlai rhai ohonynt, pe na bai hyn yn cael ei werthfawrogi'n ddigonol, y gallai arwain at dybiaethau afrealistig ynghylch yr hyn y gellir ei newid yn effeithiol a pha mor hawdd fyddai cyflwyno swyddogaethau newydd. Mae awdurdodau lleol eisoes yn wynebu pwysau ariannol sylweddol a chapasiti ac arbenigedd cyfyngedig i ysgwyddo cyfrifoldebau newydd. Mae hyn yn rhannol yn gysylltiedig â'r pryderon a drafodwyd yn gynharach ynghylch costau. Gyda digon o arian (ac amser), gellir mynd i'r afael â chyfyngiadau capasiti, ond gall hyn fod yn "os" mawr.

Rhwystrau llywodraethu a strwythurol

Pwysleisiodd rhai o'r rhai a gyfwelwyd y byddai datganoli gweinyddiaeth heb ddatganoli pwerau polisi yn cyfyngu'n sylweddol ar y potensial ar gyfer newid ystyrlon. Nodwyd y byddai Cymru, o dan fodel gweinyddol, yn parhau i fod yn rhwym wrth reolau cymhwysedd a lefelau taliadau'r DU, yn ogystal â phenderfyniadau ar lefel y DU. Gallai'r cysylltiad hwn olygu y byddai sefydliadau yng Nghymru yn gyfrifol am gyflwyno'r gwasanaeth ond na fyddent yn meddu ar y gallu i addasu budd-daliadau i anghenion lleol, a gallai hefyd greu heriau gweinyddol a dryswch ymhlith y cyhoedd. Fel y nododd nifer o'r rhai a gyfwelwyd, mae trefniadau o'r fath yn peryglu arwain at weinyddiaethau datganoledig yn cael y bai am benderfyniadau amhoblogaidd a weir ar lefel y DU. Gallai hyn fod yn risg yn arbennig yn ystod camau cynnar unrhyw ddatganoli o'r fath, pan y byddem yn gobeithio dangos ei botensial cadarnhaol yn lle hynny.

Ar yr un trywydd, teimlai'r rhai a gyfwelwyd fod cyfyngiadau llywodraethu hefyd yn dylanwadu ar yr hyn sy'n ymarferol yng Nghymru. Gall casglu mathau newydd o ddata neu newid prosesau gweinyddol olygu bod angen pwerau cyfreithiol penodol, ac mae ansicrwydd ynghylch y pwerau hyn yn gweithredu fel cyfyngiad. Fe wnaeth rhai o'r rhai a gyfwelwyd grybwyll y gallai dull datganoli llawn (o ran polisi a gweinyddiaeth) alluogi Cymru i oresgyn y cyfyngiadau strwythurol hyn.

Risgiau o ran darnio, heriau cyfathrebu, a dealltwriaeth y cyhoedd

Nododd y rhai a gyfwelwyd fod y risg o ddarnio yn her sylweddol wrth ddatganoli gweinyddiaeth nawdd cymdeithasol. Gall newid yn gyffredinol, ac yn enwedig haenau newydd o weinyddiaeth, greu dryswch a datgysylltiad. Pwysleisiodd rhai o'r rhai a gyfwelwyd y bydd angen strategaeth gyfathrebu effeithiol yn ystod y cyfnod pontio er mwyn

sicrhau bod hawlwyrr yn deall unrhyw newidiadau a sut mae'r system newydd yn gweithredu. Byddai angen negeseuon wedi'u teilwra yn ôl iaith a defnyddio sawl sianel gyfathrebu er mwyn cyrraedd pob hawlwydd posibl yn gynhwysfawr. Mae'n debygol mai'r grwpiau sydd fwyaf tebygol o ddisgyn drwy'r bylchau yn ystod unrhyw darfu neu ddryswch a achosir gan newidiadau fydd rhai o'r grwpiau mwyaf bregus y byddai'r newidiadau yn ôl pob tebybu yn eu helpu (e.e., pobl hŷn nad ydynt efallai'n defnyddio sianeli digidol). Esboniodd y rhai a gyfwelwyd y byddai'r strategaeth hon yn gofyn am gynllunio gofalus, digon o amser paratoi ymlaen llaw, ac ymgysylltiad gweithredol â rhanddeiliaid, ac mae pob un o'r rhain yn gofyn am amser ac adnoddau sylweddol.

Risgiau o ddyblygu a'r anhawster o greu 'pocedi' o gyfrifoldeb datganoledig mewn system hynod integredig

Teimlai rhai o'r rhai a gyfwelwyd fod risg o ddyblygu, gydag unigolion yn derbyn cymorth sy'n gorgyffwrdd gan raglenni Cymru a rhaglenni'r DU, a allai arwain at wastraff adnoddau neu ddryswch ymhlith derbynwyr budd-daliadau. Tynnodd un o'r rhai a gyfwelwyd sylw at y ffaith bod rhyng-gysylltiad gweithredol cryf rhwng y systemau presennol (yn enwedig ers cyflwyno Credyd Cynhwysol) yn creu her sylweddol i weinyddiaeth ddatganoledig. Yn benodol, mae Canolfannau Gwaith yn cyfuno cyfres o swyddogaethau sy'n gysylltiedig â'i gilydd, gan gynnwys gwasanaethau cyflogaeth a gorfodi amodoldeb, gweinyddiaeth taliadau a phrosesu ceisiadau yn y swyddfa gefn, yn ogystal â gwirio hunaniaeth a rheoli twyll.

Yn gyffredinol, ystyriwyd bod datganoli popeth a wneir gan Ganolfannau Gwaith yn afrealistig, felly byddai cwestiwn yn codi ynghylch pa swyddogaethau y gellir eu datganoli heb greu problemau ar y ffin rhwng swyddogaethau a gadwyd yn ôl a rhai datganoledig. Holodd y rhai a gyfwelwyd hefyd sut y gallai Cymru reoli'r prosesau rhyng-gysylltiedig hyn heb ddyblygu swyddogaethau sydd ar hyn o bryd wedi'u hintegreiddio o fewn un system ar draws y DU, gan arwain o bosibl at aneffeithlonrwydd yn hytrach na gwelliannau.

Cyfngiadau a risgiau datganoli rhannol

Pwysleisiodd rhai o'r rhai a gyfwelwyd bwysigrwydd rheoli disgwyliadau ymhlith llunwyr polisi, partneriaid cyflenwi, a'r cyhoedd. Yn ôl y rhain, er bod Siarter Budd-daliadau Cymru yn fframwaith llawn dyhead defnyddiol, dim ond datganiad lefel uchel o flaenoriaethau ydyw. Yn hynny o beth, daethant i'r casgliad ei bod yn hanfodol deall ar y cyd, gyda rhanddeiliaid gwahanol, beth fyddai'n cael ei ystyried yn fethiant a beth fyddai'n cael ei ystyried yn llwyddiant.

Roedd y rhai hyn a gyfwelwyd o'r farn bod datganoli gweinyddol ar ei ben ei hun yn rhy gyfyngedig i gyflawni newid ystyrion. Fe wnaethant gwestiynu beth y gallai newid o'r fath ei gyflawni, a phwysleisio pwysigrwydd diffinio canlyniadau arfaethedig clir y gellid eu defnyddio i sbarduno atebolrwydd a gwelliant. Heb ddamcaniaeth newid glir wedi'i chefnogi gan dystiolaeth gadarn, roedd rhanddeiliaid yn pryderu y gallai disgwyliadau fynd y tu hwnt i'r hyn y gall diwygiadau gweinyddol ei gyflawni. Codwyd her benodol mewn perthynas â defnyddio o brofiad yr Alban: mae'n anodd bod yn sicr p'un a yw'r newidiadau cadarnhaol yno wedi deillio'n benodol o agweddau ar ddatganoli gweinyddol, o ystyried bod datganoli polisi wedi digwydd ochr yn ochr ag ef.

Roedd rhai o'r rhai a gyfwelwyd yn poeni y gallai Cymru gael ei hun yn gyfrifol am weinyddu system nad oes ganddi'r gallu i'w llunio, ond eto'n cael ei barnu ar ganlyniadau a bennir yn bennaf gan bolisi'r DU. Gallai'r diffyg aliniad hwn roi straen ar y berthynas rhwng y llywodraeth ddatganoledig a'r llywodraeth ganolog, a thanseilio ymddiriedaeth y cyhoedd, gan danseilio cefnogaeth i fesurau datganoli pellach, waeth pa mor werthfawr y gallent fod.

I rai o'r rhai a gyfwelwyd, er mwyn sicrhau gwelliannau gwirioneddol, mae angen i ddiwygiadau fod yn fwy uchelgeisiol ac yn rhan o ailgynllunio ehangach o'r system.

3.3.6 Opsiynau posibl ar gyfer datganoli gweinyddiaeth nawdd cymdeithasol i Gymru

Gofynnwyd i'r rhai a gyfwelwyd wneud sylwadau ar opsiynau posibl ar gyfer datganoli gweinyddiaeth nawdd cymdeithasol i Gymru. Er mwyn cynorthwyo'r drafodaeth, cyflwynwyd rhestr o opsiynau iddynt ar gyfer datganoli posibl, neu nodau y gellid fynd ar eu trywydd drwy ddatganoli: (i) Canolfan Byd Gwaith, (ii) y drefn sancsiynau, (iii) newidiadau i'r prosesau ymgeisio, (iv) newidiadau i'r prosesau asesu ar gyfer budd-daliadau ieuchyd a/neu anabledd, (v) trefniadau talu ar gyfer Credyd Cynhwysol, a (vi) datganoli yn galluogi mentrau neu ymgyrchoedd mwy effeithiol ar gyfer y nifer sy'n derbyn cymorth. Fodd bynnag, dywedwyd wrth y rhai a gyfwelwyd nad oedd hon yn rhestr gynhwysfawr, a chawsant eu hannog drwy gydol y cyfweiliad i wneud eu hawgrymiadau eu hunain.

Yn gyffredinol, ychydig o sylw a roddodd y rhai a gyfwelwyd i'r drefn sancsiynau neu i drefniadau talu Credyd Cynhwysol, ac roeddent yn gweld y rhain fel opsiynau llai addawol i'w datblygu. O ran y drefn sancsiynau, nodwyd y byddai hyn yn anymarferol ac yn anodd ei drafod gyda'r DWP, gyda'r posibilrwydd o arwain at newidiadau polisi. O ran trefniadau talu Credyd Cynhwysol (megis taliadau amlach neu daliadau'n uniongyrchol i landlordiaid), er y gallai hyn ymddangos fel dewis naturiol i ddarparu mwy o hyblygrwydd i hawlwr yn y system nawdd cymdeithasol, roedd y rhai a gyfwelwyd o'r farn bod y defnydd o'r opsiynau hyn wedi bod yn isel mewn mannau lle maen nhw eisoes wedi'u cynnig (e.e. yn yr Alban a Gogledd Iwerddon), ac felly efallai na fyddai'n werth datganoli er mwyn gwneud y newidiadau hyn.

O'r rhestr a awgrymwyd, fe wnaeth y rhai a gyfwelwyd drafod gweithgareddau Canolfannau Gwaith, y broses ymgeisio a hawlio, ac asesiadau yn ymwneud â budd-daliadau ieuchyd ac anabledd yn fwyaf aml. Fe wnaethant hefyd lawer o awgrymiadau a sylwadau ynghylch opsiynau eraill. Rydym yn ymdrin â'r prif bwyntiau hyn ymhellach ym Mhennod 4 ac mewn astudiaethau achos hyd yn oed yn fwy manwl a ddatblygwyd ym Mhennod 5.

4. Opsiynau ar gyfer datganoli gweinyddiaeth nawdd cymdeithasol

Mae'r bennod hon yn crynhoi'r opsiynau ar gyfer datganoli gweinyddiaeth nawdd cymdeithasol i Gymru a ddaeth i'r amlwg fwyaf yn ystod Cam 1 yr ymchwil. Mae hyn yn cynnwys astudiaethau achos manwl a ddatblygir ymhellach ar ddiwedd y bennod, yn Adran 4.1.5.

Wrth asesu'r gwahanol opsiynau, rydym wedi cael ein harwain yn arbennig gan y meini prawf canlynol, a ddatblygwyd ac y cytunwyd arnynt yn gynnar yn ystod Cam 1 yr ymchwil: aliniad â blaenoriaethau Cymru, maint yr effaith, ychwanegedd o gymharu â'r hyn y gellir ei gyflawni drwy lwybrau presennol, ymarferoldeb, a chost.

Mae'r crynodebau a'r drafodaeth yn yr adran hon wedi'u llywio gan yr adolygiad tystiolaeth, yr arolwg, y cyfweiliadau, yn ogystal â'n harbenigedd mewnol yn Alma Economics a chyngor arbenigol gan ein partneriaid prosiect yn Y Sefydliad Astudiaethau Cyllid.

4.1 Datganoli rhai swyddogaethau'r Ganolfan Byd Gwaith

Un opsiwn yw canolbwyntio datganoli ar ochr gwasanaethau cyflogaeth gweinyddiaeth budd-daliadau - sef datganoli rhai agweddau ar swyddogaethau'r Ganolfan Byd Gwaith. Roedd rhai rhanddeiliaid yn teimlo y gallai hyn wneud gwahaniaeth cadarnhaol sylweddol yng Nghymru.

Mae o leiaf ddau fath eang o nodau y gellid mynd ar eu trywydd yma, ac mae'r gwahaniaeth rhyngddynt yn bwysig.

Yn gyntaf, byddai rhywfaint o hyblygrwydd i amrywio manylion y broses ymgysylltu â hawlwr a all wneud gwahaniaeth sylweddol i'w profiad, megis amllder ymgysylltu, hyd cyfarfodydd, a'r cwmpas i gymryd amser i gyfeirio pobl at gymorth a thrafod opsiynau a'r gefnogaeth sydd ar gael. Yn gyffredinol, mae'r brwdfrydedd dros y mathau hyn o fesurau yn deillio o'r teimlad y gallai Cymru wneud y system yn fwy tosturiol, sensitif ac yn fwy person-ganolog. Er bod y rhain yn nodau dealladwy sy'n alinio'n dda â blaenoriaethau datganedig Llywodraeth Cymru, mae rhai cymhlethdodau wrth geisio eu mynd ar eu trywydd drwy'r llwybr hwn. I bobl o oedran gweithio sy'n defnyddio Canolfannau Gwaith, gall fod yn anodd gwahanu'r agweddau hyn ar "brose" yn llwyr oddi wrth amodoldeb, ac felly oddi wrth bolisi. Yn y bôn, gallai ymdrechion i wella profiad hawlwr drwy leihau'r baich a'r drafferth a roddir arnynt gael eu hystyried gan Lywodraeth y DU fel llacio amodoldeb. Yn yr achos hwn, mae'n debygol y byddai taerineb bod rhywfaint o gyfrifoldeb cyllidol (hynny yw, risg gyllidol) mewn perthynas â'r budd-daliadau dan sylw yn cael ei drosglwyddo i Gymru. Byddai'r math hwn o gymhlethdod, sy'n deillio o'r cysylltiad ag amodoldeb, yn llai pe byddai nodau tebyg yn cael eu dilyn y tu allan i'r system ar gyfer pobl o oedran gweithio (fel y trafodir yn ddiweddarach yn yr adroddiad, dyma un rheswm pam y gallai Credyd Pensiwn fod yn fan mwy ymarferol i ddechrau).

Gallai ail nod yma fod i helpu i gysylltu'n fwy di-dor â gwasanaethau cyflogaeth a sgiliau sydd eisoes wedi'u datganoli yng Nghymru, neu i helpu i ddarparu canllawiau gwell, wedi'u teilwra fwy i bobl ar y llwybrau mwyaf addawol tuag at gyflogadwyedd a gwaith - gan

ystyried yr heriau penodol yn y farchnad lafur leol ar draws Cymru yn well a chydlynyn'n well â'r cymorth lleol sydd ar gael. Mae hyn yn wahanol yn bwysig i'r amcan blaenorol, yn rhannol oherwydd, os rhywbeth, y byddai'n fuddiol yn uniongyrchol i Lywodraeth y DU pe bai Cymru'n llwyddo i wella canlyniadau cyflogaeth ei phoblogaeth (gan olygu llai o wariant ar fudd-daliadau sydd wedi'u cadw'n ôl yng Nghymru).

Er bod yr opsiwn hwn yn ymddangos yn addawol mewn rhai ffyrdd (yn dibynnu ar ddatrys manylion gweithredol allweddol) ac yn werth ei archwilio ymhellach, y prif reswm dros beidio â mynd ar ei drywydd fel astudiaeth achos fanwl yn y gwaith hwn yw bod gwaith cysylltiedig eisoes yn digwydd yn y maes polisi hwn ynghylch datganoli gwasanaethau cyflogaeth nad ydynt yn rhan o'r Ganolfan Waith i Gymru ([Senedd y DU, 2025a](#)).

4.2 Datganoli yn galluogi newidiadau i brosesau asesu iechyd ac anabledd

Mae anfodlonrwydd eang â'r system ar gyfer asesu iechyd ac anabledd o fewn system fudd-daliadau'r DU, gan gynnwys y ffordd mae pobl yn teimlo maen nhw'n cael eu trin ganddi. Mae nifer sylweddol o benderfyniadau hefyd yn cael eu gwrthdroi. Mae rhai rhanddeiliaid yn teimlo bod hyn yn dangos potensial i wella'r sefyllfa pe bai gan Gymru fwy o reolaeth dros sut mae'r broses yn cael ei chynnal. Mae'r potensial ar gyfer effaith yn ddiamau yn sylweddol: Mae gan Gymru gyfraddau uchel o anabledd ac iechyd gwael o'i gymharu â gweddill y DU; mae'r symiau ariannol sydd yn y fantol yn sylweddol, gan wneud gwahaniaeth mawr i fywydau pobl pan fydd rhywun yn cael y cymorth hwn o'i gymharu â phan na fyddant yn ei gael; ac mae'r broses yn gadael llawer o le i siom a theimladau o driniaeth annheg ymhlith poblogaethau bregus. Mae hwn yn faes lle gallai hyrwyddo urddas a pharch o fewn nawdd cymdeithasol, fel y pwysleisir yn Siarter Budd-daliadau Cymru, wneud gwahaniaeth mawr i hawl wyr.

Ar y llaw arall, pe bai'r maes hwn yn destun datganoli gweinyddol, byddai diffyg rheolaeth dros benderfyniadau polisi (e.e. y meini prawf cymhwysedd gwirioneddol) yn cyfyngu ar yr hyn y gellir ei wneud. Mae cwestiynau gwirioneddol ynghylch i ba raddau y gallai, er enghraifft, ail-fframio cyfathrebiadau ac ail-hyfforddi staff, ar eu pen eu hunain, wella profiad hawl wyr yn sylweddol pan fydd y meini prawf dyfarnu gwirioneddol a'r symiau ariannol dan sylw yn aros yr un fath. Nid yw enghraifft yr Alban, sydd wedi disodli Taliad Annibyniaeth Personol (PIP) gyda'i Thaliad Anabledd Oedolion ei hun wrth geisio gosod urddas, tegwch a pharch wrth wraidd ei system, yn egluro'r cwestiwn hwn yn llawn - yn rhannol oherwydd bod gan yr Alban reolaeth polisi yn ogystal â phŵer gweinyddol yn y maes hwn.

Un posibilrwydd a godwyd yw y gallai datganoli cyfrifoldeb yn rhannol olygu y byddai'r gweinyddwyr (hynny yw, y rhai yng Nghymru) yn dod i gael eu cysylltu â chanlyniadau negyddol sy'n deillio o bethau (hynny yw, polisi) nad oes ganddynt reolaeth drostynt. Yn ogystal, mae hanes diwygio yn y maes hwn ar draws y DU yn awgrymu bod yr effeithiau'n anrhagweladwy a bod diwygiadau bron bob amser yn ddadleuol. Mae elfen oddrychol anochel i asesiadau, a all hefyd arwain at apeliadau, cwynion ac anfodlonrwydd. O'i ystyried o fewn y prosiect ehangach posibl o ddatganoli gweinyddiaeth nawdd cymdeithasol, gallai hyn fod yn gam cyntaf gyda risg cymharol o ran dangos ei ddefnyddioldeb.

Mae hwn hefyd yn faes gwariant sydd wedi bod yn cynyddu'n gyflym ar lefel y DU, ac mae'n debygol y bydd pryder gan y DWP ynghylch ildio rheolaeth dros unrhyw beth a allai'n rhesymol effeithio ar lefel y gwariant hwn ymhellach. Mae hyn yn arbennig o wir o ystyried bod y DWP wedi cyhoeddi cynlluniau i gysylltu'r asesiad iechyd ar gyfer PIP yn uniongyrchol â hawliadau i elfen sy'n ymwneud ag iechyd Credyd Cynhwysol, gan olygu y gall unrhyw newidiadau i hawliadau PIP, yn y dyfodol, gynyddu gwariant Credyd Cynhwysol yn uniongyrchol. Byddai manylion unrhyw setliad cyllidol sy'n ymwneud â datganoli yn y maes hwn yn bwysig iawn. Pe bai unrhyw risgiau cyllidol sy'n ymwneud ag elfennau o wariant ar fudd-daliadau iechyd ac anabledd yn cael eu trosglwyddo'n effeithiol i Gymru, byddai hyn yn arwyddocaol o ystyried hanes newidiadau mawr ac annisgwyl yn y rhagolygon gwariant ar gyfer budd-daliadau anabledd.

I grynhoi, mae'n anodd gweld beth y gellid ei wneud yn y maes hwn a fyddai'n cael effaith ystyrlon heb symud i mewn i bolisi. Mae'n debygol y byddai cytuno ar drefniadau cyllidol gyda San Steffan yn anodd neu y byddai'n arwain at lefel sylweddol o risg gyllidol i Gymru, am enillion cymharol gyfyngedig o bosibl

4.3 Datganoli mewn perthynas â budd-daliadau sy'n ymwneud â thai

Un rheswm allweddol dros ystyried datganoli mewn perthynas â budd-daliadau sy'n ymwneud â thai yw bod polisi tai yn ehangach eisoes wedi'i ddatganoli i Gymru, felly gallai datganoli budd-daliadau tai alluogi polisiâu mwy cyd-gysylltiedig. Er enghraifft, gall budd-daliadau tai effeithio ar anghenion adeiladu tai neu'r angen am dai cymdeithasol drwy ddylanwadu ar ba ardaloedd sy'n fwy ac yn llai fforddiadwy, a'r anghenion am dai o wahanol faint.

Y prif her yn y maes hwn yw'r risg y gallai datganoli gweinyddol syrthio rhwng dwy stôl:

Ar y naill law, heb ddatganoli polisi, gallai newidiadau gweinyddol yn y maes hwn gael eu hystyried fel 'mân addasiadau'. Er enghraifft, byddai gosod cyfraddau Lwfans Tai Lleol (LHA) yn fater polisi, felly yn lle hynny, mae opsiynau a godwyd yn cynnwys y gallu i ddiffinio ffiniau Ardaloedd Marchnad Rentu Eang (BRMAs) yn wahanol. Gallai hyn gael effeithiau dosbarthiadol pwysig yng Nghymru, megis bod o fudd i aelwydydd incwm isel mewn ardaloedd cost uwch o fewn BRMAs. Fodd bynnag, os nad yw hyn i gynyddu gwariant cyffredinol budd-daliadau tai, yna byddai angen cymryd arian oddi wrth aelwydydd incwm isel mewn ardaloedd cost is - gan greu 'collwyr' yn ogystal ag 'enillwyr'. Pe bai'n cynyddu gwariant cyffredinol budd-daliadau tai, yna byddai hyn yn debycach i gynnydd mewn cyfraddau LHA (ar gyfartaledd), ac mae'n debygol iawn y byddai goblygiadau cost i Gymru o dan y Fframwaith Cyllidol.

Ar y llaw arall, mae hwn yn faes lle mae eisoes rhywfaint o gwmpas i Gymru ddarparu cymorth tai ychwanegol wedi'i dargedu i aelwydydd heb bwerau pellach, yn enwedig drwy Daliadau Tai Dewisol (DHPs), ac yn arbennig os yw'n barod i neilltuo cyllideb ychwanegol i hyn (e.e., fel mae'r Alban wedi'i wneud drwy wrthbwysu'r hyn a elwir yn "dreth ystafell wely" yn effeithiol). Gall Llywodraeth Cymru, os yw'n dymuno, ddarparu cyllid i awdurdodau lleol yng Nghymru i'w helpu i ychwanegu at eu dyraniad DHP gan y DWP (hyd at derfyn a ganiateir gan reoliadau). Er enghraifft, gallai gyflawni rhai o'r un amcanion â newidiadau i

ffiniau BRMA drwy gyfeirio mwy o gyllid DHP tuag at awdurdodau lleol sy'n cynnwys ardaloedd cost uwch.

4.4 Opsiynau a ddewiswyd ar gyfer astudiaethau achos manwl

Roedd dau opsiwn pellach a drafodwyd gan randdeiliaid allweddol ac arbenigwyr yn ystod Cam 1 yn cael eu hystyried, ar y cyfan, fel y rhai mwyaf gwerthfawr i'w harchwilio'n fanylach, a symudwyd y rhain ymlaen fel astudiaethau achos manwl.

Yr opsiynau a ddewiswyd fel astudiaethau achos datganoli damcaniaethol yng Nghymru oedd:

- Y potensial i ddatganoli alluogi mwy o rannu data, gan roi gwell gwelededd i Gymru o bwy yw ei haelwydydd bregus a beth yw eu hamgylchiadau, gan arwain at allu nodi a thargedu pobl yn well gyda'r gwasanaethau neu'r cymorth cywir, neu drwy fentrau i gynyddu'r nifer sy'n derbyn cymorth.
- Y potensial ar gyfer ffurf newydd, ddatganoledig o gyngor a chymorth ar fudd-daliadau yng Nghymru, i helpu i greu system fwy hyblyg a mwy person-ganolog fel y dymunir. Yn enwedig gan fod presenoldeb lleol pwrpasol ar gyfer budd-daliadau wedi'i golli pan gafodd asiantaethau budd-daliadau a gwasanaethau cyflogaeth eu hintegreiddio i ffurfio Canolfannau Gwaith DWP.

Y prif feini prawf a ddefnyddiwyd i flaenoriaethu'r opsiynau oedd alinio â blaenoriaethau ac amcanion Cymru (megis y rhai a nodir yn Siarter Budd-daliadau Cymru), maint posibl yr effaith (gan gynnwys pa ranbarthau neu grwpiau o bobl fyddai'n elwa fwyaf), ychwanegedd o gymharu â'r hyn y gellir ei gyflawni drwy lwybrau sy'n bodoli eisoes, ymarferoldeb, a chost (gan gynnwys y trafodaethau cyllidol posibl gyda'r DWP). Y prif resymau dros ddewis symud ymlaen gyda'r astudiaethau achos hyn oedd eu potensial i alinio â phrif amcanion Llywodraeth Cymru (e.e. o ran cynyddu'r nifer sy'n derbyn cymorth a datblygu system person-ganolog), fel y nodir yn fanylach yn Adran 4.1.5.

Dewiswyd hefyd astudiaeth achos arall o ddatganoli mewn rhannau eraill o'r DU, er mwyn dysgu unrhyw wersi perthnasol i Gymru:

- Gwersi y gellir eu dysgu o ymdrechion yr Alban i ail-fframio nawdd cymdeithasol a rhoi urddas a pharch wrth wraidd y system. Mae hyn yn cynnwys newidiadau i hyfforddiant staff gweinyddol, ail-fframio gohebiaeth ynghylch budd-daliadau, a rhai newidiadau i brosesau ymgeisio.

4.5 Astudiaethau achos

Mae'r adran hon yn amlinellu ein tair astudiaeth achos fanwl. Mae dwy ohonynt yn archwilio sut y gallai datganoli gweinyddiaeth nawdd cymdeithasol i Gymru helpu i gyflawni prif nodau a ddaeth i'r amlwg o'n hymchwil, ill dau yn ymwneud â blaenoriaethau datganoledig Llywodraeth Cymru: (i) gwell gwelededd o amgylchiadau aelwydydd bregus yng Nghymru, a (ii) chymorth mwy lleol a phersonol i hawlwydd budd-daliadau. Mae'r drydedd astudiaeth achos yn archwilio dull yr Alban o ail-fframio nawdd cymdeithasol drwy newidiadau i'r ffordd

mae'n cael ei gyflwyno, ei gyfleu, a hyfforddiant. Mae'r dull hwn yn rhannu llawer o'r un nodau â'r rhai a nodir yn Siarter Budd-daliadau Cymru, ac rydym yn archwilio pa wersi o brofiad yr Alban allai fod yn berthnasol i Gymru.

Mae'r mewnwelediadau yn yr adran hon wedi'u llywio gan gyfweiliadau â rhanddeiliaid perthnasol, wedi'u hategu gan arbenigedd tîm y prosiect yn Alma Economics a'n partneriaid prosiect yn Y Sefydliad Astudiaethau Cyllid, sydd wedi rhoi cyngor arbenigol a her drwy gydol y gwaith.

4.5.1 Datganoli i sicrhau gwell rhannu data a gwell gwelededd o aelwydydd incwm isel yng Nghymru

Pa nodau y gellid eu datblygu pe bai datganoli yn galluogi gwell rhannu data?

Yn ein hymgyssylltiad â llunwyr polisi a'r trydydd sector, codwyd gwell rhannu data dro ar ôl tro fel un canlyniad posibl o ddatganoli gweinyddiaeth nawdd cymdeithasol a allai ddatblygu amcanion allweddol ac ymrwymadau Siarter Budd-daliadau Cymru. Y prif resymau dros y diddordeb mewn rhannu data yw:

- Gwneud y mwyaf o'r nifer sy'n derbyn cymorth, yn bennaf drwy gynyddu gwelededd o bwy yw'r aelwydydd incwm isel yng Nghymru a beth yw eu cymhwysra tebygol ar gyfer gwahanol fathau o gymorth;
- Darparu system person-ganolog lle gellir cysylltu pobl â chymorth a gwasanaethau sy'n berthnasol iddynt, gan gynnwys gwasanaethau sy'n gysylltiedig â chyflogaeth, gwasanaethau cymdeithasol a digartrefedd;
- Cynyddu'r potensial ar gyfer prosesau ymgeisio mwy syml, mewn achosion lle mae'r un wybodaeth neu wybodaeth debyg yn cael ei chyflwyno fwy nag unwaith at wahanol ddibenion - gan leihau costau gweinyddol, gwneud bywyd yn haws i hawlwr, ac felly cynyddu'r nifer sy'n derbyn cymorth;
- Darparu sail gryfach ar gyfer gwaith dadansoddol ar sut i gefnogi aelwydydd bregus yng Nghymru yn fwy effeithiol, gan gynnwys dadansoddi effaith a chost ymyriadau.

Y sefyllfa bresennol

Nid yw'r defnydd a rhannu data sy'n ymwneud â budd-daliadau mewn awdurdodau lleol yng Nghymru yn unffurf ar hyn o bryd, ac mae agweddau tuag ato yn gallu amrywio'n sylweddol.

Gall awdurdodau lleol gyflwyno ceisiadau i aildddefnyddio data i'r DWP. Pan fydd y rhain yn cael eu cymeradwyo, mae hyn yn golygu y gall data gael ei rannu ar adegau penodol at ddibenion penodol, ond os bydd diben arall yn codi, mae angen gwneud cais penodol arall. Nododd un o'r rhai a gyfwelwyd fod gweithdrefnau llywodraethu data yn gwneud hon yn broses hirfaith. Un enghraifft o ail-dddefnyddio data a ddisgrifiwyd gan gynrychiolydd awdurdod lleol oedd defnyddio data Credyd Cynhwysol i helpu i asesu cymhwysra tebygol ar gyfer Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a budd-daliadau eraill yng Nghymru. Mae hyn yn gofyn am gydsyniad penodol gan hawlydd Credyd Cynhwysol i rannu ei ddata at y diben hwn.

Nododd un arall bod y DWP ar hyn o bryd ond yn cysylltu data ar draws gwahanol fudd-daliadau'r DWP ei hun, ac nid gyda data budd-daliadau Cymru na mathau eraill o gymorth, sy'n cyfyngu ar faint o wybodaeth ddefnyddiol y gellir ei chasglu ynghyd am aelwydydd incwm isel yng Nghymru.

Mae'r cyfyngiadau cyffredin ar fwy o rannu data yn cynnwys rhwystrau strwythurol (h.y. llywodraethu a chyfreithiol) a rhwystrau diwylliannol ill dau. Dywedwyd wrthym fod awdurdodau lleol yn aml yn wrth-risg o ran data, bod yn rhaid iddynt lynu wrth gyngor eu hadrannau cyfreithiol eu hunain, a bod lefel uchel iawn o bryder yn aml ynghylch deddfwriaeth diogelu data. Dywedodd cynrychiolydd awdurdod lleol, er bod Llywodraeth Cymru yn dod yn fwy rhagweithiol wrth ddarparu canllawiau i awdurdodau lleol ynghylch defnyddio a rhannu data, bod rhai awdurdodau lleol yn dal yn ofalus - yn dymuno cael cadarnhad yn uniongyrchol gan y DWP cyn gweithredu, gan mai'r DWP yw'r rheolydd data.

Mae sawl menter yn y maes hwn yn digwydd ar draws Cymru. Mae pedwar ar ddeg o awdurdodau lleol yng Nghymru wedi bod yn defnyddio Offeryn Tracio Teuluoedd Incwm Isel (LIFT) gan Policy in Practice - deuddeg ohonynt o ganlyniad i dreial a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru, sydd wedi prynu trwyddedau LIFT ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ionawr 2025 a mis Mawrth 2026. Mae LIFT yn blatfform dadansoddeg data sy'n defnyddio gwybodaeth a gedwir mewn data gweinyddol ar fuddiolwyr Budd-dal Tai, Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (CTRS), a Chredyd Cynhwysol. Mae'n cael ei ddefnyddio gyda'r nod o nodi'n rhagweithiol y rhai sy'n colli allan ar eu hawliau i fudd-daliadau, ac ymgysylltu â hwy.

Mae un awdurdod lleol wedi bod yn defnyddio data CTRS a Budd-dal Tai i geisio nodi plant yn y system addysg a allai fod yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Cynhaliodd yr awdurdod lleol hwn ymgyrch cofrestru awtomatig, gan anfon gohebiaeth at rieni yn nodi y byddent yn cael eu cofrestru oni bai eu bod yn optio allan. Dywedodd cynrychiolydd yr awdurdod lleol fod rhai o'r teuluoedd hyn wedyn hefyd wedi manteisio ar grant hanfodion ysgol.

Yn olaf, dywedodd un o'r rhai a gyfwelwyd wrthym am weithdy y byddai awdurdod lleol yn ei hwyluso ar gyfer awdurdodau lleol eraill yng Nghymru, gan ganolbwyntio ar ail-ddefnyddio data a symleiddio budd-daliadau Cymru, er mwyn mynd i'r afael â bod yn gyndyn o gymryd risgiau

Yn gryno, mae hwn yn faes prysur iawn yng Nghymru - yn ddealladwy, o ystyried ei gysylltiad ag amcanion Siarter Budd-daliadau Cymru. Fodd bynnag, mae ymdrechion yn parhau i fod yn eithaf tameidiog, ad hoc ac anghyson ar draws awdurdodau lleol, gyda chydabyddiaeth eang bod diffyg rhannu data yn parhau'n gyfyngiad ar yr hyn y gellir ei gyflawni. Heb atebion cyson lle mae pob awdurdod lleol yn hyderus, mae rhywfaint o ddyblygu ymdrech hefyd, gydag ymdrechion tebyg yn cael eu gwneud mewn ffyrdd ychydig yn wahanol gan wahanol awdurdodau.

Pan ofynnwyd pa ddata y byddent yn dymuno cael mynediad gwell ato'n benodol, dywedodd y rhai a gyfwelwyd yn yr astudiaeth achos hon amlaf y byddent yn hoffi gallu cael

mynediad at ddata Credyd Cynhwysol ar gyfer pob hawlydd heb fod angen cydsyniad, yn ogystal â chael mynediad at ddata ar hawlwyd Credyd Pensiwn a Lwfans Gofalwyr.

A allai datganoli helpu i oresgyn y rhwystrau hyn, ac os felly, sut?

Byddai datganoli gweinyddiaeth budd-dal penodol (neu set o fudd-daliadau) i Gymru yn ei gwneud yn ofynnol i Gymru gael gwelededd o'r data perthnasol, a mwy o reolaeth uniongyrchol dros y trefniadau llywodraethu ar gyfer ei ddefnyddio a'i ail-ddefnyddio.

Byddai hyn yn dileu'r ddibyniaeth ar gyrraedd cytundebau pwrpasol gyda'r DWP, gan olygu nid budd "untro" yn unig, ond hefyd y fantais barhaus o allu defnyddio data mewn ffordd fwy llyfn ac ystwyth wrth i achosion defnydd neu anghenion newydd godi. Pe bai Llywodraeth Cymru yn rheolydd data, yna, o ystyried ei blaenoriaethau clir ynghylch rhannu data er budd aelwydydd yng Nghymru, mae'n debygol y byddai'n llawer haws sefydlu trefniadau ymarferol ar gyfer rhannu ac ail-ddefnyddio data yng Nghymru nag yw hi ar hyn o bryd gyda'r DWP. Teimlai un o'r rhai a gyfwelwyd y gallai datganoli ganiatáu i Lywodraeth Cymru addasu neu ddileu cwestiynau cydsyniad ynghylch rhannu data mewn ffurflenni ceisiadau am fudd-daliadau ar gyfer aelwydydd yng Nghymru.

Y cynnig mwyaf cyffredin ymhlith y rhai a gyfwelwyd yn yr astudiaeth achos hon oedd datganoli gweinyddiaeth Credyd Pensiwn. Ystyriwyd bod hyn yn llawer mwy realistig na sicrhau unrhyw ddatganoli mewn perthynas â Chredyd Cynhwysol ar gyfer pobl o oedran gweithio, ond mae'n dal i fod yn fudd-dal mawr, gyda mwy na 80,000 o bobl yng Nghymru yn ei hawlio ([Senedd y DU, 2025b](#)). Byddai hyn felly'n galluogi llawer gwell gwelededd o boblogaeth hŷn incwm isel Cymru, a'u hamgylchiadau. Mae Credyd Pensiwn hefyd yn fudd-dal sydd â chyfradd derbyn cymharol isel, ac mae'n destun ymgyrchoedd i gynyddu'r nifer sy'n ei dderbyn eisoes (gan gynnwys fel rhan o'r peilot LIFT). Gall cael data Credyd Pensiwn helpu ymhellach gyda hyn, yn rhannol drwy allu targedu ymdrechion i gynyddu'r nifer sy'n derbyn cymorth yn well, gan mai un broblem a all godi mewn ymgyrchoedd o'r fath yw'r ofn o orfodi gohebiaeth diangen neu ddryslyd ar bobl sydd eisoes yn hawlio. Wedi dweud hynny, mae'n debygol bod data Credyd Pensiwn yr un mor ddefnyddiol - os nad yn fwy defnyddiol - wrth nodi pwy fyddai'n gymwys i gael, neu'n elwa o, fathau eraill o gymorth, gyda Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn enghraifft amlwg - ag ydyw ar gyfer cynyddu'r nifer sy'n derbyn Credyd Pensiwn ei hun (gan fod hyn, wedi'r cyfan, hefyd yn gofyn am nodi'r rhai nad ydynt yn ei dderbyn).

Pa nodau y gellid eu cyflawni'n ymarferol heb ddatganoli?

Un cwestiwn y gwnaethom ei archwilio oedd a fyddai datganoli er mwyn sicrhau gwell rhannu data yn gyfystyr â "defnyddio gordd i dorri cneuen". Un safbwynt a fynegwyd yn ystod gwaith maes Cam 1 oedd y byddai'n symlach "dim ond i gyrraedd cytundeb rhannu data".

Mae hyn yn anodd ei asesu, gan ei fod yn dibynnu ar ddeinameg trafodaethau (mewn cyd-destun gyda llawer o actorion perthnasol, gan gynnwys cyfreithwyr a llunwyr polisi). Teimlai un o'r rhai a gyfwelwyd y gallai dechrau trafodaeth rhwng Llywodraeth Cymru a'r DWP ynghylch datganoli gweinyddiaeth budd-dal orfodi mwy o gynnydd o ran rhannu data, gan ei wneud yn flaenoriaeth uwch nag y byddai pe bai'n cael ei drafod fel mater ar wahân nad oes gan Lywodraeth y DU lawer o gymhelliant i'w flaenoriaethu. Fodd bynnag, nid oes amheuaeth

bod datganoli gweinyddiaeth budd-dal cyfan yn gofyn am ddatrys nifer o faterion, a sefydlu strwythurau, nad fyddai cytundeb rhannu data ar ei ben ei hun yn gofyn amdanynt. Felly, mae'r achos dros ddatganoli yn dibynnu naill ai ar alluogi cynnydd mewn rhannu data na fyddai'n bosibl o fewn yr un amserlen pe bai'n cael ei drin fel mater ar wahân; a/neu mae'n dibynnu ar fod rhesymau sylweddol eraill dros ddatganoli budd-dal, gyda rhannu data yn un rhan yn unig o achos ehangach a chronnol. Rydym ni'n dychwelyd at hyn yn ein casgliadau.

Roedd y rhai a gyfwelwyd yn teimlo bod lle i Lywodraeth Cymru gyhoeddi mwy o ganllawiau ar rannu data, gyda'r nod o wella dealltwriaeth a hyder awdurdodau lleol o ran defnyddio data a'i lywodraethu. Awgrym arall oedd i Lywodraeth Cymru gychwyn prosiect i gasglu'r holl ddata mae awdurdodau lleol yng Nghymru ar hyn o bryd yn ei gasglu ac/neu'n ei gyrchu, i mewn i gronfa ddata integredig. Yn olaf, mae gobaith y gallai'r cynllun peilot LIFT arwain at newidiadau yn y ffordd mae awdurdodau lleol yn defnyddio ac yn gweithredu ar ddata sy'n ymwneud â budd-daliadau, gan ysgogi gwelliant pellach hyd yn oed yn absenoldeb unrhyw fesurau datganoli.

Setliadau cyfreithiol neu gyllidol y byddai angen gweithio drwyddynt rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU

Byddai'r defnyddiau mwyaf tebygol o unrhyw ddata a fyddai'n dod o dan reolaeth Cymru o dan setliad datganoli nawdd cymdeithasol yn ymwneud â (i) thargedu ymgyrchoedd i gynyddu'r nifer sy'n derbyn cymorth, a (ii) thargedu cynigion eraill o wasanaethau a chymorth. Gallai'r cyntaf o'r rhain gynyddu costau i Lywodraeth y DU ar gyfer budd-daliadau sydd wedi'u cadw'n ôl, ond byddai hyn oherwydd bod pobl yn derbyn yr hyn mae Llywodraeth y DU yn dweud eu bod yn gymwys i'w dderbyn, felly nid yw'n rhywbeth y gellid gofyn yn uniongyrchol i Lywodraeth Cymru dalu amdano. Byddai'r ail yn fwyaf tebyg yn ymwneud â chymorth a ddarperir gyda chyllid Cymru (e.e. mewn perthynas â digartrefedd), ac felly nid yw'n debygol ynddo'i hun o arwain at drafodaethau cyllidol cymhleth iawn (er y byddai angen i Gymru fod yn barod i ariannu unrhyw gynnydd yn y defnydd o'r gwasanaethau hynny).

Fodd bynnag, byddai datganoli gweinyddiaeth budd-dal cyfan (er mwyn sicrhau gwell rhannu data) yn gofyn am setliadau neu gytundebau na fyddent yn syml o gwbl mae'n debyg. Mae'r manylion yn dibynnu'n sylweddol ar ba fudd-dal sydd dan sylw, ac nid ydym yn cwmpasu holl gymhlethdodau posibl setliadau datganoli yma. Y sefyllfa symlaf yn ôl pob tebyg yw budd-dal nad yw'n gysylltiedig yn agos â phrosesau sy'n anodd eu gwahanu oddi wrth bolisi, megis y rhai sy'n ymwneud ag amodoldeb neu asesiadau iechyd. Yn wir, i'r graddau mai'r nod yw sicrhau gwell gwelededd o nifer fawr o aelwydydd bregus yng Nghymru, mae'r achos yn gryf iawn dros wneud hyn drwy fudd-dal nad yw'n dod â'r cymhlethdodau hynny. Mae Credyd Pensiwn yn enghraifft amlwg o fudd-dal o'r fath. Rydym yn trafod y setliadau a'r trefniadau cyllidol posibl mewn perthynas â datganoli gweinyddiaeth Credyd Pensiwn yn adran gasgliadol yr adroddiad hwn.

Y gofynion adnoddau posibl y byddai'r newid hwn yn eu golygu i Gymru

Dim ond gyda gweithgarwch ychwanegol sy'n gofyn am adnoddau y byddai llawer o'r defnyddiau o well gwelededd data yn cael eu gwireddu'n llawn. Mae ymgyrchoedd i

gynyddu'r nifer sy'n derbyn cymorth yn enghraifft amlwg o hyn. Nodi aelwydydd a allai fod yn colli allan ar eu hawliadau yw'r cam cyntaf yn unig: wedyn mae angen ymgysylltu â nhw, o bosibl yn ddwys, os ydym am sicrhau canlyniadau sylweddol. Felly, mae ymdrechion o'r fath ond yn gwneud synnwyr os yw Llywodraeth Cymru neu awdurdodau lleol yng Nghymru yn barod i fynd ar drywydd rhannu data gwell gyda buddsoddiad ychwanegol mewn adnoddau.

Ar y llaw arall, gallai rhannu data gwell arwain at rywfaif o symleiddio prosesau ac felly arbedion cost, os bydd yn golygu mai dim ond unwaith y bydd gwybodaeth sydd ar hyn o bryd yn cael ei phrosesu fwy nag unwaith gan wahanol bobl neu at wahanol ddibenion yn cael ei phrosesu.

Fodd bynnag, gallai llawer ddibynnu ar ba fudd-dal sy'n cael ei ddatganoli er mwyn galluogi mwy o rannu data, a'r trefniadau cyllidol sy'n gysylltiedig â'r datganoli hwnnw. Fel y nodwyd uchod, mae Credyd Pensiwn yn ymgeisydd blaenllaw. Bydd hefyd yn dod i'r amlwg fel opsiwn blaenllaw yn yr astudiaeth achos nesaf, ac rydym yn ei drafod yn fanylach yn adran gasgliadol yr adroddiad.

4.5.2 Cymorth a chyngor mwy lleol a phersonol i hawlwr budd-daliadau

Pan gafodd asiantaethau budd-daliadau a gwasanaethau cyflogaeth eu hintegreiddio i ffurfio Canolfannau Gwaith y DWP, collwyd presenoldeb lleol a oedd wedi'i neilltuo'n benodol i ddarparu cymorth a chyngor ar fudd-daliadau. Mae'r astudiaeth achos hon yn canolbwyntio ar y potensial ar gyfer ffurf newydd, ddatganoledig o hyn yng Nghymru, er mwyn helpu i ddarparu'r system fwy hyblyg a pherson-ganolog y dymunir ei gweld.

Y trefniadau presennol ar gyfer lle gall pobl sy'n chwilio am gyngor ar fudd-daliadau fynd

Mae'r DWP yn bennaf yn ceisio arwain pobl drwy ryngwynebau digidol. Mae hyn yn fwy cost-efeithiol, ac mae rhai defnyddwyr yn ffafrio 'hunanwasanaeth'. Mae Canolfannau Gwaith yn darparu llawer o gyswllt wyneb yn wyneb, ond eu prif rôl yw helpu pobl i symud i gyflogaeth tra'n gweinyddu budd-daliadau sy'n ymwneud â gwaith neu amodoldeb, a sicrhau bod hawlwr yn bodloni'r ymrwymadau y cytunwyd arnynt o ran chwilio am waith a pharodrwydd i weithio. Maen nhw'n cynnig gwasanaethau 'blaen tî' yn y dderbynfa i bobl ofyn am gyngor, ond teimlai'r rhai a gyfwelwyd fod cwmpas a lefel y cymorth a gynigir yn eithaf cyfyngedig. At hynny, nid yw cymorth drwy Ganolfannau Gwaith yn berthnasol o gwbl i rai hawlwr budd-daliadau (er enghraifft, pobl o oedran pensiwn). I grynhoi, mae rhai pobl yn bennaf yn cyrchu offer ar-lein a llinellau ffôn yn hytrach na chymorth wyneb yn wyneb yn eu hardal leol. Gall hyn gyfyngu ar lefel ac ansawdd y cyngor y gall unigolyn ei dderbyn. Un agwedd benodol ar hyn a godwyd gan randdeiliaid yw bod adnoddau ar-lein yn aml ond yn cwmpasu'r budd-dal mae rhywun eisoes wedi nodi ei fod o ddiddordeb iddo; nid yw'r system bresennol yn addas iawn i ddarparu gwasanaeth cyngor mwy cyfannol, e.e. drwy gyfeirio pobl at fudd-daliadau neu gymorth eraill.

Mae'r trydydd sector hefyd yn darparu amrywiaeth o ffyrdd i gael cymorth yn y gymuned, ac mae rhywfaint o hyn yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, mae cyfyngiadau ar y math o gymorth a chyngor y gallant ei ddarparu, gan nad oes gan y

sefydliadau hyn fynediad at y data ar ddinasyddion sydd ar gael i weinyddwr swyddogol. Un enghraifft a godwyd oedd bod cynghorwyr Cyngor ar Bopeth weithiau wedi'u lleoli mewn Canolfannau Gwaith. Er eu bod yn aml yn ffynhonnell werthfawr iawn o gymorth, mae hyn yn golygu y gall fod sawl pwynt cyswllt i ddinasyddion ac nad yw gwybodaeth allweddol yn cael ei rhannu rhyngddynt, sy'n golygu bod yn rhaid i bobl ailadrodd eu stori i wahanol gynghorwyr.

Pa grwpiau sydd fwyaf tebygol o fethu â chael cymorth digonol yn y system bresennol?

Dywedodd y rhai a gyfwelwyd yn yr astudiaeth achos hon fod y bobl sy'n colli allan ar gymorth gyda budd-daliadau yn aml yn cynnwys y rhai sydd â sgiliau digidol cyfyngedig, y rhai sy'n ffafrio cymorth wyneb yn wyneb (megis pobl hŷn), a'r rhai sydd â heriau iechyd meddwl.

Ni nodwyd un budd-dal penodol fel un sy'n fwy dryslyd nag eraill. Yn hytrach, y farn gyffredinol yw mai cymhlethdod amgylchiadau cyffredinol unigolyn, megis bodolaeth anghenion lluosog, sy'n gallu ei gwneud yn anodd sicrhau cymorth a chynghor effeithiol a chyd-gysylltiedig. Er enghraifft, mae rhywun sydd â phroblemau tai ochr yn ochr â materion iechyd - sydd ill dau yn gallu rhyngweithio'n sylweddol â hawliau i fudd-daliadau - yn dibynnu ar ba mor effeithiol mae gwasanaethau lleol yn cydweithio ac yn rhannu gwybodaeth. Gall hyn arwain at gymorth anghyson a di-drefn a all amrywio rhwng gwahanol rannau o Gymru.

Beth yw'r effeithiau tebygol ar dderbynwyr budd-daliadau a chymunedau yng Nghymru?

Gallai cynnydd yn y capasiti yng Nghymru ar gyfer darparu cyngor a chymorth lleol, personol i hawlwyd budd-daliadau helpu i fynd i'r afael â'r materion a drafodwyd uchod - gan gysylltu'n uniongyrchol ag ymrwymadau Siarter Budd-daliadau Cymru i ddarparu cymorth hyblyg, person-ganolog, yn y ffordd sy'n gweithio orau i hawlwyd. Pe bai'n cael ei gyflwyno'n effeithiol, gallai hyn gefnogi gwell aliniad ac integreiddio gwasanaethau, gan ganiatáu i gynghorwyr deilwra cyngor neu gyfeiriadau mewn ffordd gyfannol yn seiliedig ar asesiad personol o amgylchiadau ac anghenion pobl. Yn gysylltiedig â hyn, gellid hyd yn oed gyd-leoli cyngor a gwasanaethau perthnasol (e.e. mewn perthynas ag iechyd neu sgiliau) er mwyn cefnogi hyn ymhellach. Gallai cynnydd yn yr opsiynau o ran dull ymgysylltu - ac yn enwedig mwy o bresenoldeb wyneb yn wyneb - fod, fel y trafodwyd, o werth arbennig i rai grwpiau bregus, gan gynnwys pobl hŷn ac unigolion â chyflyrau iechyd penodol.

A oes angen datganoli i gyflawni hyn?

Cwestiwn pwysig yma yw ynghylch yr ychwanegedd a ddarperir gan ddatganoli. Heb ddatganoli, byddai'n bosibl eisoes, er enghraifft, i Lywodraeth Cymru ariannu mwy o gynghorwyr budd-daliadau o fewn cymunedau pe bai'n ystyried bod y manteision yn werth y gost.

Prif gyfyngiad dull o'r fath heb ddatganoli yw'r materion sy'n ymwneud â rhannu data a gwybodaeth (ac felly mae hyn yn gorgyffwrdd â rhai o'r materion a drafodwyd yn yr

astudiaeth achos flaenorol). Pe byddem yn mynd ar drywydd y nod hwn drwy ddatganoli gweinyddiaeth budd-daliadau, yna:

i) gellid llywio cyngor a chymorth ychwanegol gan y data sy'n cael ei chadw am amgylchiadau'r hawlydd, gan greu mwy o gyfleoedd i ddarparu cyngor, cyfeiriadau a chymorth sydd wedi'u teilwra ac yn gynhwysfawr

ii) byddai'n bosibl darparu cymorth mwy effeithiol drwy'r broses hawlio budd-dal ei hun ar gyfer y budd-dal y mae ei weinyddiaeth wedi'i datganoli, gan y gallai'r un bobl ddarparu'r cymorth hwn ag sy'n olrhain ac yn rheoli'r broses hawlio.

Gallai'r ddau ffactor hyn hefyd gefnogi ymdrechion i gynyddu'r nifer sy'n derbyn cymorth drwy nodi pobl gymwys nad ydynt yn derbyn budd-daliadau eraill yn well, a thrwy wneud y broses hawlio yn haws. I grynhoi, gallai hyn gynrychioli gwelliant posibl sylweddol o gymharu â darparu cymorth ychwanegol ochr yn ochr â'r hyn sydd eisoes ar gael heb unrhyw ddatganoli.

Costau posibl a risgiau cyllidol i Gymru

Byddai gofynion cynyddol o ran adnoddau a chostau i Lywodraeth Cymru yn gysylltiedig â chyflogi staff ychwanegol i ddarparu'r cymorth a'r cyngor a ddymunir, yn ogystal â seilwaith ychwanegol o bosibl megis gofod swyddfa. Fel yn yr astudiaeth achos flaenorol, felly, er mwyn gwireddu'r manteision y gobeithir amdanynt i Gymru, byddai angen i'r datganoli hwn fynd law yn llaw â pharodrwydd i Gymru wario mwy. Nid yw datganoli ynddo'i hun yn cyflawni'r amcan; yn hytrach, mae'n creu'r cyfle, ac mae manteisio ar y cyfle hwnnw yn golygu cost.

Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol eisoes yn ariannu cymorth trydydd sector ar gyfer cyngor budd-daliadau. Yn benodol, mae rhan o'r Gronfa Gynghori Sengl gwerth £12 miliwn ([Llywodraeth Cymru, 2024](#)) yn mynd tuag at gyngor a chymorth budd-daliadau, yn ogystal â chyngor ar ddyledion, cyflogaeth, tai a meysydd eraill. Felly, gallai fod rhywfaint o arbedion gwrthbwyso i Lywodraeth Cymru drwy lai o ddibyniaeth ar sefydliadau'r trydydd sector, a'i ariannu. Byddai hefyd yn rhesymol disgwyl y gallai darparu cymorth a chyngor mwy effeithiol ac wedi'u teilwra i bobl helpu i atal problemau ac yn y pen draw leihau costau yn nes ymlaen, gan gynnwys problemau costus iawn megis digartrefedd. Wedi dweud hynny, er bod y manteision hyn yn rhesymol, maen nhw hefyd yn rhai tymor hwy ac yn ansicr o ran maint.

Fel yn yr astudiaeth achos flaenorol, byddai trefniadau cyllidol gyda San Steffan, ac unrhyw risgiau cyllidol cysylltiedig i Gymru, yn dibynnu ar ba fudd-dal(iadau) penodol fyddai'n cael eu datganoli ar lefel weinyddol. Yn ddiddorol, er bod sawl opsiwn posibl mewn egwyddor, mae Credyd Pensiwn yn dod i'r amlwg fel ymgeisydd blaenllaw, yn union fel yn yr astudiaeth achos flaenorol. Yn rhannol, mae hyn am resymau sy'n gorgyffwrdd â'r rhai a drafodwyd yn yr astudiaeth achos flaenorol. Er enghraifft, mae'n fudd-dal mawr, sy'n golygu bod potensial sylweddol ar gyfer effaith ar draws Cymru. Yn y cyfamser, mae'n debygol o fod yn haws datganoli gweinyddiaeth Credyd Pensiwn na budd-daliadau mawr ar gyfer pobl o oedran gweithio, ac yn haws (er nad o reidrwydd yn hawdd) i gyrraedd cytundeb gyda Llywodraeth y DU tra'n cyfyngu ar y risg gyllidol y gellid gofyn i Gymru ei ysgwyddo, gan

nad yw'n gysylltiedig yn agos â phrif agweddau ar “bolisi” megis amodoldeb ac asesuadau iechyd. Yn ogystal, mae Credyd Pensiwn yn sefyll allan fel opsiwn amlwg yma gan fod y boblogaeth hŷn yn fwy tebygol o elwa o fwy o gymorth wyneb yn wyneb, ac yn llai tebygol o gael hyn ar hyn o bryd oherwydd diffyg rhyngweithio â Chanolfannau Gwaith. Gan fod Credyd Pensiwn wedi dod i'r amlwg yn y ddwy astudiaeth achos hyd yma, rydym yn trafod y trefniadau cyllidol posibl ynghylch datganoli gweinyddiaeth Credyd Pensiwn yn adran gasgliadol yr adroddiad.

4.5.3 Ymdrechion yr Alban i ail-fframio nawdd cymdeithasol

Mae'r astudiaeth achos hon yn canolbwyntio ar y gwersi y gellir eu dysgu o ymdrechion yr Alban i ail-fframio nawdd cymdeithasol, gan roi urddas a pharch wrth wraidd y system. Rydym yn gwneud cymariaethau rhwng yr egwyddorion sy'n sail i hyn ac amcanion allweddol yng Nghymru, yn amlinellu'r gwahanol ffyrdd mae'r Alban wedi ceisio ymgorffori'r egwyddorion hyn o fewn nawdd cymdeithasol, yn ystyried y dystiolaeth ynghylch pa effaith mae newidiadau gweinyddol wedi'i chael wrth gefnogi'r egwyddorion hyn, ac yn asesu pa wersi y gellir eu trosglwyddo i Gymru.

Diben y newid yn yr Alban a'i berthynas â blaenoriaethau ac amcanion Llywodraeth Cymru

Mae Siarter Nawdd Cymdeithasol yr Alban ([Social Security Scotland, 2024](#)) yn rhoi pwyslais cryf ar drin pobl ag urddas, tegwch a pharch. Yn wir, mae'r tri gair hyn ar glawr blaen y Siarter. Mae hyn yn alinio'n agos iawn â'r ymrwymïadau i urddas a pharch yn Siarter Budd-daliadau Cymru.

Nododd pob un o'r rhai a gyfwelwyd ar gyfer yr astudiaeth achos hon fod y newidiadau a wnaeth yr Alban drwy ei phwerau budd-daliadau datganoledig - sy'n cynnwys gweinyddiaeth a pholisi - wedi'u halinio'n iawn ag ymrwymïadau'r Siarter, ac wedi'u cymell ganddynt. Mae rhai newidiadau (a ddisgrifir isod) hefyd wedi cyd-fynd â blaenoriaethau ehangach ond cysylltiedig Llywodraeth yr Alban o ran arferion cyfranogol, sydd wedi'u cynllunio i gynnwys defnyddwyr gwasanaeth yn y ffordd mae penderfyniadau a pholisïau'n cael eu llunio, fel un ffordd o sicrhau system person-ganolog.

Camau ymarferol a thrawsnewid sefydliadol i wireddu urddas a pharch

Mae ymdrechion yr Alban yn y maes hwn wedi cynnwys sawl elfen.

Yn gyntaf, sefydlodd Llywodraeth yr Alban asiantaeth newydd, Social Security Scotland, i ddarparu budd-daliadau yn yr Alban. Mynegodd dau o'r rhai a gyfwelwyd farn bod sefydlu asiantaeth newydd wedi bod yn elfen bwysig, gan y byddai wedi bod yn llawer anoddach creu ac ymgorffori newid diwylliannol mewn asiantaeth oedd eisoes yn bodoli. Nodwyd hefyd fod Social Security Scotland yn asiantaeth lai na'r DWP, ac felly bod staff yn aml yn delio â mwy nag un maes o fudd-daliadau, ac maen nhw felly mewn sefyllfa well i integreiddio gwasanaethau neu gymorth.

Nod Llywodraeth yr Alban oedd meithrin system person-ganolog, gyda mwy o bwyntiau cyswllt dynol (h.y. cymorth wyneb yn wyneb neu dros y ffôn), a model “mwy tebyg i ganolfan alwadau”, mewn cyferbyniad i ddulliau'r DWP sy'n symud fwyfwy tuag at ryngwynebau

digidol a rhyngweithio awtomataidd. Mae'r syniadau hyn yn amlwg yn gysylltiedig yn agos â'r ail astudiaeth achos a drafodwyd uchod ar gyfer Cymru.

Disgrifiodd y rhai a gyfwelwyd hefyd lefelau staffio uwch, mwy o hyfforddiant, a chyflogau uwch i weinyddwyr o gymharu â'r DWP, a bod yr Alban wedi ceisio ymgorffori egwyddorion y Siarter ar hyd y gadwyn o recriwtio i hyfforddi a chyflwyno gwasanaethau. Roedd un o'r rhai a gyfwelwyd wedi cymharu disgrifiadau swydd rhwng y ddwy asiantaeth, a chanfod bod y rolau a'r cyfrifoldebau a restrwyd yn y bôn yr un fath, ond bod disgrifiadau swydd Social Security Scotland yn defnyddio iaith wahanol, wedi'i chanoli ar urddas a pharch.

Mae rhai swyddfeydd gweinyddol yn arddangos copïau print o'r Siarter, ac mae rhai aelodau staff wedi nodi bod hyn yn helpu i arwain eu gwaith. Soniodd y rhai a gyfwelwyd hefyd am newidiadau i'r geiriad a ddefnyddir mewn gohebiaeth ag unigolion ynghylch budd-daliadau, gan geisio ymgorffori urddas a lleihau stigma.

Yn unol â nodau ehangach Llywodraeth yr Alban o ran arferion cyfranogol, sefydlwyd "[Paneli Profiad Nawdd Cymdeithasol](#)" er mwyn cynnwys pobl â phrofiad personol uniongyrchol o'r system nawdd cymdeithasol wrth lunio a darparu'r system newydd yn yr Alban. Roedd hyn yn cynnwys cyfraniad at ymchwil, penderfyniadau polisi a dylunio gwasanaethau.

Effaith newidiadau gweinyddol yn yr Alban ar brofiad hawlwr budd-daliadau

Mae dau gyfyngiad pwysig i'w cydnabod wrth ystyried pa effaith mae newidiadau gweinyddol wedi'i chael.

Yn gyntaf, mae'n anodd dweud i ba raddau mae pobl yn teimlo eu bod yn cael eu trin yn well o ganlyniad i'r newidiadau yn yr Alban. Mae teimlad cyffredinol bod y mathau o newidiadau a wnaed yn yr Alban yn bwysig o ran profiad defnyddwyr. Fodd bynnag, mae maint unrhyw effaith yn anodd ei fesur - nid oes tystiolaeth werthuso ffurfiol sy'n mynd i'r afael â hyn yn uniongyrchol, a byddai'n anodd cynhyrchu tystiolaeth o'r fath. Mae rhai ystadegau disgrifiadol perthnasol ar gael. Nododd [arolwg boddhad Social Security Scotland 2024–2025](#) fod tua wyth o bob deg o ymatebwyr yn credu eu bod wedi cael eu trin ag urddas (79%), tegwch (76%) a pharch (80%). Roedd y mwyafrif o ymatebwyr yn teimlo bod ganddynt ddigon o ddewis o ran sut yr oeddent yn cyfathrebu â Social Security Scotland (76%). Dywedodd y mwyafrif hefyd fod eu profiad cyffredinol gyda staff yn 'dda iawn' neu'n 'dda' (84%), gyda 91% yn nodi bod staff wedi'u trin â charedigrwydd. Mae'r DWP hefyd yn cynnal [Arolwg Profiad Cwsmeriaid](#). Er nad yw'n canolbwyntio ar yr un agweddau'n union - sy'n dangos y pwyslais gwahanol yn yr Alban, ond mae rhywfaint o debygrwydd mewn cwestiynau, ac nid yw'r canlyniadau'n ymddangos yn sylweddol wahanol i'r rhai hynny yn yr Alban. Er enghraifft, dywedodd 78% o gwsmeriaid fod staff y DWP yn deall eu hanghenion, a nododd 87% eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth a ddarparwyd yn gyffredinol.

Yn ail, mae'n bwysig cofio bod gan yr Alban hefyd bwerau polisi datganoledig dros lawer o fudd-daliadau - yn ogystal â phwerau gweinyddol. Yn benodol, mewn rhai achosion mae'r Alban yn rhoi mwy o arian i bobl nag y byddent wedi'i gael fel arall. Gall newidiadau o'r fath hefyd effeithio ar deimladau pobl tuag at y system, ac mae'n anodd iawn gwahanu effeithiau'r ddau. Mae enghreifftiau allweddol yn cynnwys y Taliad Plant yr Alban ychwanegol ac, o leiaf i ddechrau, gyfraddau dyfarnu sylweddol uwch ar gyfer Taliad Anabledd i Oedolion yr Alban o'i

gymharu â'i fudd-dal cyfatebol yng ngweddill y DU, sef Taliad Annibyniaeth Bersonol (er, yn fwy diweddar, mae'r gyfradd ddyfarnu wedi gostwng, fel y trafodir gan [Judge and Murphy \(2025\)](#); nid yw'n glir p'un a yw hyn yn adlewyrchu newid bwriadol mewn dull gweithredu er mwyn rheoli gwariant).

Cymhlethdodau neu rwystrau a brofwyd yn yr Alban

Pwynt a godwyd yn aml oedd cost uchel Social Security Scotland. Talodd Llywodraeth y DU am rai o'r costau sefydlu unwaith ac am byth, ac mae hefyd yn talu am rai o'r costau parhaus drwy'r Addasiad i'r Grant Bloc blynyddol, sydd wedi'i osod ar lefel i adlewyrchu'r hyn y byddai wedi costio i'r DWP barhau i dalu a gweinyddu budd-daliadau yn yr Alban heb ddatganoli. Fodd bynnag, mae'r costau sefydlu a'r costau parhaus yn sylweddol uwch na'r hyn a gwmpaswyd/gwmpesir gan y DWP. Nid yw'n bosibl gwahanu'r ffactorau gwahanol yn llawn yma. Er enghraifft, mae'r ffaith bod yr Alban yn llai na'r DU yn golygu nad yw'n elwa ar yr un arbedion maint mewn gweinyddiaeth, a byddai hyn yn cynyddu costau gweinyddol o'i gymharu â'r hyn y byddai'r DWP wedi'i wario yn yr Alban; mae Llywodraeth yr Alban hefyd wedi gwneud penderfyniadau polisi i greu budd-daliadau newydd; ac mae'n eu gweinyddu mewn ffordd wahanol, e.e. mewn ffordd fwy "person-ganolog". Felly, ni ellir pennu maint unrhyw gost a fyddai'n debygol o fod yn berthnasol i Gymru. Gallai datganoli yng Nghymru sy'n fwy cyfyngedig o ran cwmplas gostio llai. Fodd bynnag, gan fod yr Alban yn fwy na Chymru ac yn gweinyddu ystod eang o fudd-daliadau, mae'n bosibl ei bod mewn gwirionedd yn elwa ar fwy o arbedion maint mewn gweinyddiaeth nag y byddai Cymru yn ei wneud.

Pwynt arall a godwyd yn ystod ein hymgyssylltiad â rhanddeiliaid oedd y gall gweinyddu budd-daliadau mewn ffordd wahanol i'r DWP yn fwriadol - er enghraifft drwy ddefnyddio golwg a brandio gwahanol, ynghyd â disgwyliadau gwahanol i ddefnyddwyr - achosi dryswch i rai hawlwr. Cynhaliodd [Bennett \(2025\)](#) weithdai cyfranogol yn yr Alban i gasglu data ansoddol ar brofiadau pobl o ryngwynebau digidol nawdd cymdeithasol. Fe wnaeth yr ymchwil ganfod bod derbyn cymorth lles o sawl awdurdod gwahanol weithiau'n creu profiad cymhleth ac ansicr i hawlwr. Roedd defnyddwyr yn ei chael yn anodd deall pwy oedd yn gofyn am ba wybodaeth ac ar ba adeg. Roedd y rhai a oedd yn teimlo eu bod yn deall y system yn well yn cyfeirio at gael cymorth ychwanegol gan Cyngor ar Bopeth a gan ffrindiau neu aelodau teulu a oedd hefyd wedi mynd drwy'r broses hawlio.

Casgliadau ac argymhellion yn seiliedig ar y gwersi a ddysgwyd o brofiad yr Alban

Fel yr amlinellwyd, mae'r Alban wedi gwneud nifer o bethau drwy ei phwerau datganoledig i geisio ymgorffori urddas a pharch yn y system nawdd cymdeithasol, yn debyg i'r hyn mae Cymru yn dymuno ei gyflawni. Felly, mae'n cynnig llawer o syniadau ac enghreifftiau defnyddiol o'r hyn y gellir ei wneud sy'n berthnasol i Gymru.

Fodd bynnag, mae angen bod yn ofalus wrth drosglwyddo gwersi o'r Alban i Gymru. Yn gyntaf, er bod teimlad cyffredinol bod newidiadau'r Alban wedi gwneud gwahaniaeth i ddefnyddwyr, mae'n bwysig nodi bod tystiolaeth gadarn o hyn yn gyfyngedig iawn. Leiaf oll, mae ansicrwydd ynghylch maint yr effaith, yn ogystal â'r graddau y gellir ei briodoli i newidiadau gweinyddol yn unig. Fe wnaethom hefyd ddod ar draws rhywfaint o amheuaeth

ynghylch a oedd pob newid wedi cyfrannu'n ysturlon at brofiad y defnyddiwr, neu a oedd rhai elfennau o symboleiddiaeth. Er enghraifft, er bod yr iaith a ddefnyddiwyd mewn disgrifiadau swydd ar gyfer staff Social Security Scotland a'r DWP yn wahanol, roedd y disgrifiadau gwrthrychol o'r tasgau a'r cyfrifoldebau yn debyg iawn. Dywedwyd wrthym hefyd fod barn gymysg ynghylch a oedd y Paneli Profiad Nawdd Cymdeithasol wedi cael llawer o effaith ymarferol.

Mae rhai cyfnewidiadau diddorol yn dod i'r amlwg wrth ystyried sefydlu asiantaeth newydd i ddarparu gweinyddiaeth budd-daliadau. Mae hyn wedi dod â chost sylweddol i'r Alban. Ar y llaw arall, teimlir ei fod wedi bod yn arbennig o ddefnyddiol wrth wreiddio newid diwylliannol, sydd efallai'n anoddach ei gyflawni drwy sefydliadau gweinyddol presennol sydd wedi'u hen sefydlu (er, fel y nodwyd uchod, nad yw union effaith y newid diwylliannol hwn ar ddefnyddwyr yn glir). Yn erbyn hynny, gall creu brandio a gohebiaeth gwahanol iawn, sydd dal yn bodoli ochr yn ochr â system budd-daliadau wedi'i chadw'n ôl mae'r un defnyddwyr yn rhyngweithio â hi ar yr un pryd, greu cymhlethdod a dryswch, nad yw'n gadarnhaol i brofiad y defnyddiwr. O ystyried hyn i gyd, ein barn yw y dylai Cymru fod yn ofalus ynghylch y syniad o sefydlu asiantaeth newydd - yn enwedig os yw camau cychwynnol tuag at ddatganoli yn rhai gweinyddol yn unig ac yn gymharol raddol.

5 Myfyrdodau ar y ffordd ymlaen

Rydym wedi nodi sawl ffordd allweddol lle mae potensial i ddatganoli gweinyddiaeth nawdd cymdeithasol i Gymru helpu i gyflawni ei hamcanion. Rydym hefyd wedi tynnu sylw at y cyfyngiadau o ran yr hyn y gellir ei gyflawni drwy ddatganoli agweddau gweinyddol ar nawdd cymdeithasol, heb reolaeth dros bolisi. Ar yr un pryd, nid yw'r heriau ymarferol, y risgiau, y costau a chymhlethdod trefniadau gyda Llywodraeth y DU yn diflannu drwy ganolbwyntio ar weinyddiaeth yn unig. Thema gyffredinol yr ydym wedi'i hamlygu, o ystyried hyn, yw pwysigrwydd ystyried pa amcanion y gellir eu cyflawni drwy ffyrdd eraill a allai fod yn symlach – hynny yw, yr ychwanegedd gwirioneddol a gynigir gan ddatganoli.

Byddem yn tynnu sylw at ychydig o faterion allweddol cyffredinol i ganolbwyntio arnynt wrth symud ymlaen gyda chynlluniau ar gyfer unrhyw ddatganoli gweinyddol.

Mae prif ddibenion posibl datganoli gweinyddol yn ymwneud ag amcanion ehangach Llywodraeth Cymru (e.e., gwneud y mwyaf o'r nifer sy'n derbyn cymorth, neu wneud y system yn fwy hyblyg a pherson-ganolog). Nid yw datganoli ynddo'i hun yn cyflawni'r amcanion. Mewn llawer o achosion, mae'n well ei ystyried fel rhywbeth sy'n agor drws, ond sydd wedyn yn costio mwy o arian i gamu drwyddo - e.e. drwy fuddsoddi mewn ymgyrchoedd wedi'u targedu'n well i gynyddu'r nifer sy'n derbyn cymorth, neu drwy gynnig cymorth mwy cynhwysfawr, wedi'i deilwra. Mae hyn yn arwain at ddau bwynt. Yn gyntaf, hyd yn oed ar wahân i gostau neu risgiau cyllidol sy'n deillio o ddatganoli ei hun, mae'n debygol y bydd angen i Gymru fod yn barod i fuddsoddi adnoddau *ychwanegol* er mwyn manteisio ar y cyfleoedd. Yn ail, po fwyaf o dystiolaeth y gellir ei chasglu ar effeithiolrwydd y mentrau hynny (e.e. ymgyrchoedd i gynyddu'r nifer sy'n derbyn cymorth gan ddefnyddio data gwell, neu newidiadau i brosesau sydd wedi'u cynllunio i wella lles defnyddwyr), y mwyaf o hyder y gellir ei adeiladu o blaid datganoli, a'i effeithiolrwydd cost.

Mae costau a risgiau cyllidol datganoli - gan gynnwys, yn hollbwysig, y trefniadau cyllidol yn ymwneud ag ef rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru - yn ystyriaeth allweddol. Fel canllaw cyffredinol, po fwyaf tebygol yw hi y gall newidiadau i weinyddiaeth gynyddu gwariant ar fudd-dal wedi'i gadw'n ôl (am resymau heblaw am gynnydd yn y nifer sy'n hawlio eu hawliadau), y mwyaf tebygol yw hi y byddai gofyn i Gymru ysgwyddo risg gyllidol sylweddol, gan ddod yn gyfrifol am newidiadau mewn gwariant ar y budd-dal hwnnw yng Nghymru. Mae hyn yn codi'r bar o ran y manteision y byddai angen eu gwireddu i bobl a chymunedau yng Nghymru er mwyn bod yn werth chweil. Yn yr un modd, lle bynnag mae ardaloedd llwyd rhwng polisi a gweinyddiaeth polisi, mae'n fwy tebygol y bydd trafodaethau cyllidol rhwng San Steffan a Llywodraeth Cymru yn fwy cymhleth, ac y gellir gofyn i Gymru gymryd mwy o'r risgiau cyllidol sy'n deillio o unrhyw newid. Enghreifftiau amlwg fyddai newidiadau a allai ryngweithio â chymhwyso amodoldeb neu asesiadau iechyd (neu ail-asesiadau).

Un cwestiwn penodol pwysig yw p'un a ddylid sefydlu asiantaeth newydd i gyflawni gweinyddiaeth ddatganoledig. Fel yr amlinellwyd, mae manteision ac anfanteision i hyn, ond rydym ni'n credu bod rhesymau cryf i Gymru fod yn ofalus ynghylch hyn, o leiaf os yw unrhyw gamau cychwynnol tuag at ddatganoli nawdd cymdeithasol yn rhai gweinyddol yn unig ac yn gymharol raddol.

I gloi'r adroddiad, ac i helpu i feddwl yn fwy pendant am y ffordd ymlaen, rydym yn trafod gweinyddiaeth bosibl Credyd Pensiwn. Mae hyn yn enghraifft ddefnyddiol - fel astudiaeth achos fach arall - o rai o'r materion cyffredinol a drafodwyd drwy gydol yr adroddiad. Fe wnaethom ddewis yr enghraifft hon hefyd oherwydd, os bydd datganoli gweinyddol yn cael ei ddilyn, mae sawl ffactor sy'n deillio o'r adroddiad hwn yn awgrymu mai Credyd Pensiwn fel man synhwyrol i ddechrau.

5.1 Enghraifft o ffordd ymlaen: datganoli gweinyddiaeth Credyd Pensiwn

Mae'r posibilrwydd o ddatganoli gweinyddiaeth Credyd Pensiwn yn deillio o sawl ystyriaeth allweddol yr ydym wedi'u blaenoriaethu: yn enwedig aliniad â (nifer o) amcanion Llywodraeth Cymru, maint posibl yr effaith, ymarferoldeb, a chyfyngu ar gostau a risgiau.

Rhannu data (astudiaeth achos gyntaf): Prif ddiben hyn yw sicrhau gwell gwelededd o aelwydydd bregus yng Nghymru, ynghyd â'u hamgylchiadau a'u hanghenion, er mwyn helpu i gynyddu'r nifer sy'n derbyn cymorth a darparu cymorth mwy cyfannol, wedi'i deilwra. Mae Credyd Pensiwn yn fudd-dal mawr a dderbynnir gan dros 80,000 o hawlwyd incwm isel yng Nghymru, gan ei wneud yn ymgeisydd amlwg ar gyfer cyflawni'r nod hwn. O ran cynyddu'r nifer sy'n derbyn cymorth, gallai fod yn arf pwerus i helpu i dargedu ymgyrchoedd i gynyddu'r nifer sy'n derbyn budd-daliadau eraill - gyda'r Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn enghraifft flaenllaw - yn ogystal â chynyddu'r nifer sy'n derbyn Credyd Pensiwn ei hun, drwy alluogi mentrau i dargedu'n fwy manwl y rhai nad ydynt eisoes yn ei hawlio.

Cymorth mwy lleol, wedi'i bersonoli (ail astudiaeth achos): Mae unigolion sydd â sgiliau digidol cyfyngedig ac sy'n ffafrio cymorth wyneb yn wyneb, megis pobl hŷn, ymhlith y rhai sydd fwyaf tebygol o elwa ar fwy o gymorth o'r fath. Gan gysylltu â gwella rhannu data, byddai gan gynghorwyr hefyd fynediad at y set lawn o ddata sy'n gysylltiedig â Chredyd Pensiwn, a allai helpu i integreiddio gwasanaethau a chynghor ar gyfer pobl hŷn.

Ymarferoldeb a risg: O blith yr holl fudd-daliadau mawr sydd â photensial tebyg o ran effaith, gellir dadlau mai Credyd Pensiwn yw'r hawsaf i'w ddatgysylltu oddi wrth bolisi, megis amodoldeb neu feini prawf asesu iechyd. Mae hyn yn cynnig manteision nid yn unig yn weithredol (o ran cyd-fodoli llyfn rhwng swyddogaethau datganoledig a rhai wedi'i cadw'n ôl), ond hefyd o ran y tebygolrwydd o sicrhau datganoli gweinyddol yn y lle cyntaf, ac o ran lleihau'r risg y byddai Cymru'n gorfod derbyn risgiau cyllidol a allai fod yn fwy na'r manteision y gallai eu cyflawni drwy bwerau gweinyddol.

Mae gwaith eisoes ar y gweill ynghylch sut mae Credyd Pensiwn yn cael ei weinyddu ([Senedd y DU, 2025c](#)). Ar hyn o bryd, mae Budd-dal Tai i bensiynwyr yn cael ei ddarparu gan awdurdodau lleol yng Nghymru, tra bod Credyd Pensiwn yn cael ei weinyddu gan y DWP. Fodd bynnag, mae'r DWP yn bwriadu uno gweinyddiaeth y ddau fudd-dal hyn. Gallai hyn olygu naill ai canoli gweinyddiaeth Budd-dal Tai, neu ddatganoli gweinyddiaeth Credyd Pensiwn. Felly, gallai'r amseriad ddarparu ffenestr gyfle addas i ddechrau trafodaethau ynghylch datganoli gweinyddiaeth Credyd Pensiwn i Gymru, pe dymunir hynny.

Er gwaethaf ei fanteision, byddai heriau sylweddol i'w goresgyn o hyd pe bai gweinyddiaeth Credyd Pensiwn yn cael ei datganoli i Gymru.

Gallai trafodaethau dros hyn fod yn anodd o hyd, hyd yn oed os ydynt yn symlach na'r rhan fwyaf o opsiynau eraill, ac nid yw'n amhosibl y byddai Cymru'n ysgwyddo rhywfaint o'r risg o ran gwariant ar Gredyd Pensiwn yng Nghymru. Er enghraifft, gallai'r DWP fod yn bryderus o hyd ynghylch trosglwyddo cyfrifoldeb am wirio hunaniaeth a gwallau, gan fod trylwyredd y gwiriadau hyn yn effeithio ar wariant Credyd Pensiwn. Nid yw hyn o reidrwydd yn fater bach. Ar draws Prydain Fawr, mae gordaliadau Credyd Pensiwn yn cyfateb i tua 10% o'r holl wariant ar Gredyd Pensiwn, gyda thua hanner hynny yn deillio o dwyll ([DWP, 2025](#)). Byddai Llywodraeth y DU (o leiaf) yn ceisio sicrwydd y byddai prosesau'r DWP yn cael eu dilyn yn llawn yn hyn o beth, ac os na fyddai sicrwydd o'r fath, mae'n bosibl na fyddai'n bwrw ymlaen oni bai bod Cymru'n derbyn risg gyllidol sylweddol o ran ariannu'r budd-dal.

Trefniant tebygol arall fyddai i ddim ond costau gweinyddol Credyd Pensiwn datganoledig gael eu hariannu gan San Steffan drwy Addasiad i'r Grant Bloc, yn seiliedig ar amcangyfrif o'r hyn y byddai wedi costio i'r DWP weinyddu'r Credyd Pensiwn yng Nghymru. Pe bai gweinyddiaeth ar lefel ddatganoledig yn fwy costus na hynny (e.e. oherwydd diffyg arbedion maint), yna byddai Cymru, yn ymarferol, yn talu'r gwahaniaeth.

Yn ogystal, o ystyried amcanion Llywodraeth Cymru a drafodwyd, byddai manteisio i'r eithaf ar ddatganoli Credyd Pensiwn yn gofyn i adnoddau dewisol ychwanegol gael eu cyflwyno. Er enghraifft, i gefnogi ymgyrchoedd/mentrau i gynyddu'r nifer sy'n derbyn cymorth sy'n deillio o well rhannu data neu i gynyddu nifer y swyddfeydd a'r cynghorwyr yn achos cymorth mwy lleol, wedi'i bersonoli.

I grynhoi, byddai angen asesiad trylwyr o faint tebygol y costau a'r risgiau cyllidol, ynghyd â chymhariaeth â'r manteision disgwyledig sy'n deillio o'r datganoli.

Atodiad A

Holiadur yr arolwg

Mae Alma Economics wedi cael eu comisiynu gan Lywodraeth Cymru i ymchwilio i'r potensial i ddatganoli gweinyddiaeth nawdd cymdeithasol i Gymru.

Fel rhan o'r ymchwil hon, bydd yr arolwg byr canlynol yn ein helpu i ddeall yn well y cyfleoedd, yr heriau a'r risgiau sy'n gysylltiedig â datganoli gweinyddiaeth nawdd cymdeithasol, pa feysydd allai fod yr ymgeiswyr mwyaf addas i'w datganoli, a pham.

Dylech gofio nad yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu i'r ymchwil hon ystyried datganoli'r system nawdd cymdeithasol yn ei chyfanrwydd - dim ond datganoli elfennau gweinyddol y system nawdd cymdeithasol. Yn fras, mae hyn yn cyfeirio at y prosesau a ddefnyddir i ddarparu nawdd cymdeithasol - er enghraifft, sut y cynhelir prosesau asesu, sut y gwneir taliadau, sut y darperir gwasanaethau a chymorth (e.e. gwasanaethau cyflogaeth) i dderbynwyr nawdd cymdeithasol, neu sut y darperir gwybodaeth am nawdd cymdeithasol. Mae hyn yn wahanol, er enghraifft, i ddisodli neu ategu budd-daliadau ar lefel y DU gyda budd-daliadau newydd sydd â rheolau hawlio neu lefelau taliadau gwahanol, fel y gwelwyd er enghraifft yn yr Alban. Fodd bynnag, gellir gwneud y gwahaniaeth rhwng gweinyddiaeth a pholisi mewn gwahanol ffyrdd ac nid yw bob amser yn gwbl eglur. Os oes unrhyw amheuaeth, mae'n fwy defnyddiol cynnwys myfyrdodau ar feysydd y gellid eu hystyried yn rhai gweinyddol na'u hepgor.

Bydd yr arolwg yn cymryd tua 10–15 munud i'w gwblhau, a bydd yn cau ar 28/09/2025 am 23:59.

Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth am sut y bydd eich data'n cael ei storio a'i ddefnyddio at ddibenion yr ymchwil hon yma: <https://tinyurl.com/4kftwth3>

Noder nad oes opsiwn i gadw eich cynnydd a dychwelyd ato'n ddiweddarach, felly gwnewch yn siŵr eich bod yn mynd drwy'r holl gwestiynau a'r tudalennau ac yn dewis 'Cyflwyno' cyn cau eich porwr.

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau neu os hoffech ragor o wybodaeth am yr ymchwil hon, cysylltwch ag Anna Pearson (Ymchwilydd) ar anna.pearson@almaeconomics.com

1. Cadarnhewch eich bod wedi darllen y wybodaeth uchod a'ch bod yn hapus i fwrw ymlaen â'r arolwg:

Rwyf wedi darllen y wybodaeth uchod ac rwy'n hapus i fwrw ymlaen â'r arolwg.

- Do
- Na

Cwestiynau

2. Beth yw eich maes o arbenigedd ym maes nawdd cymdeithasol? (Dewiswch bob un sy'n berthnasol)

- Canolfannau gwaith, cyflogaeth ac/neu amodoldeb
 - Plant a theuluoedd
 - Tai
 - Pobl ifanc 16–24 mlwydd oed
 - Anabledd ac afiechyd
 - Cymorth oedran pensiwn
 - Arall [manylwch]
3. Ym mha feysydd eang o nawdd cymdeithasol ydych chi'n credu y gallai datganoli pwerau gweinyddol i Gymru wneud gwahaniaeth cadarnhaol sylweddol i aelwydydd neu gymunedau yng Nghymru?

(Rhowch 'mwyaf tebygol o wneud gwahaniaeth cadarnhaol' ar y brig a 'lleiaf tebygol o wneud gwahaniaeth cadarnhaol' ar y gwaelod. Os nad oes gennych chi opsiwn 'Arall' i'w ychwanegu, rhowch 'Arall' ar waelod eich rhestr a neidio'r cwestiwn nesaf.)

- Canolfannau gwaith, cyflogaeth ac/neu amodoldeb
 - Plant a theuluoedd
 - Tai
 - Pobl ifanc 16–24 mlwydd oed
 - Anabledd ac afiechyd
 - Cymorth oedran pensiwn
 - Arall [manylwch]
4. Manylwch ar 'Arall' os wnaethoch chi osod yr opsiwn hwn mewn safle yn y cwestiwn blaenorol.
- a. [Blwch testun agored]
5. Os oes gennych chi unrhyw sylwadau esboniadol, ychwanegwch nhw yma:
- a. [Blwch testun agored]

Mae Siarter Budd-daliadau Cymru yn cynnwys nifer o amcanion ar gyfer nawdd cymdeithasol. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y gall pob un o'r rhain gael

eu cyflawni eisoes gan ddefnyddio'r pwerau a'r galluoedd presennol, heb ddatganoli pellach o drefniadau nawdd cymdeithasol?

6. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y gall y canlynol gael eu cyflawni eisoes gan ddefnyddio'r pwerau a'r galluoedd presennol, heb ddatganoli pellach o drefniadau nawdd cymdeithasol?

- a. Darparu system hyblyg nad yw'n 'system sy'n gweddu i bawb'

[Cytuno'n gryf, Cytuno, Ddim yn cytuno nac yn anghytuno, Anghytuno, Anghytuno'n gryf]

- b. Gwella ymwybyddiaeth o gymorth a'r nifer sy'n manteisio arno

[Cytuno'n gryf, Cytuno, Ddim yn cytuno nac yn anghytuno, Anghytuno, Anghytuno'n gryf]

- c. Cefnogi plant a phobl ifanc o deuluoedd incwm isel

[Cytuno'n gryf, Cytuno, Ddim yn cytuno nac yn anghytuno, Anghytuno, Anghytuno'n gryf]

- d. Trin unigolion gydag urddas a pharch ac yn unol â'r model cymdeithasol anabled

[Cytuno'n gryf, Cytuno, Ddim yn cytuno nac yn anghytuno, Anghytuno, Anghytuno'n gryf]

7. Os oes gennych chi unrhyw sylwadau esboniadol ynghylch eich lefel o gytundeb ar gyfer Amcan 1, ychwanegwch nhw yma:

- a. [Blwch testun agored]

8. Os oes gennych chi unrhyw sylwadau esboniadol ynghylch eich lefel o gytundeb ar gyfer Amcan 2, ychwanegwch nhw yma:

- a. [Blwch testun agored]

9. Os oes gennych chi unrhyw sylwadau esboniadol ynghylch eich lefel o gytundeb ar gyfer Amcan 3, ychwanegwch nhw yma:

- a. [Blwch testun agored]

10. Os oes gennych chi unrhyw sylwadau esboniadol ynghylch eich lefel o gytundeb ar gyfer Amcan 4, ychwanegwch nhw yma:

a. [Blwch testun agored]

11. Pa un o amcanion Siarter Budd-daliadau Cymru, yn eich barn chi, y gellid eu cefnogi'n well drwy ddatganoli trefniadau nawdd cymdeithasol?

(Rhowch 'y potensial mwyaf i'w gefnogi' ar y brig a 'y potensial lleiaf i'w gefnogi' ar y gwaelod.) Os nad oes gennych chi opsiwn 'Arall' i'w ychwanegu, rhowch 'Arall' ar waelod eich rhestr a neidio'r cwestiwn nesaf.)

- Darparu system hyblyg nad yw'n 'system sy'n gweddu i bawb'
- Gwella ymwybyddiaeth o gymorth a'r nifer sy'n manteisio arno
- Cefnogi plant a phobl ifanc o deuluoedd incwm isel
- Trin unigolion gydag urddas a pharch ac yn unol â'r model cymdeithasol anabled
- Dydw i ddim yn meddwl y gallai unrhyw un o'r amcanion gael eu cefnogi'n well drwy ddatganoli trefniadau nawdd cymdeithasol
- Arall [manylwch]

12. Manylwch ar 'Arall' os wnaethoch chi osod yr opsiwn hwn mewn safle yn y cwestiwn blaenorol.

a. [Blwch testun agored]

13. Os oes gennych chi unrhyw sylwadau esboniadol, ychwanegwch nhw yma:

a. [Blwch testun agored]

14. Pa ffactorau ydych chi'n ystyried sy'n debygol o gyfyngu ar botensial datganoli trefniadau nawdd cymdeithasol i Gymru i gyflawni ei nodau? (Dewiswch bob un sy'n berthnasol)

- Adnoddau ddim yn cyfateb i'r pwerau
- Mae'r system yn mynd yn fwy cymhleth a di-drefn
- Mae pwerau eraill sy'n parhau i gael eu cadw'n ôl yn cyfyngu ar gwmpas mentrau Cymru
- Arall [manylwch]

15. Os oes gennych chi unrhyw sylwadau esboniadol, ychwanegwch nhw yma:

• [Blwch testun agored]

16. A oes unrhyw risgiau neu heriau eraill rydych chi'n eu rhagweld o ran datganoli trefniadau nawdd cymdeithasol?

- [Blwch testun agored]

17. A oes enghreifftiau penodol o weinyddiaeth nawdd cymdeithasol ddatganoledig mewn mannau eraill yn y DU rydych chi'n credu y dylid eu hefelychu yng Nghymru? Os felly, manylwch.

- [Blwch testun agored]

18. Isod mae rhai enghreifftiau penodol damcaniaethol o drefniadau nawdd cymdeithasol y gellid eu datganoli i Gymru. Pa un o'r rhain, yn eich barn chi sydd fwyaf addawol?

Efallai yr hoffech ystyried meini prawf megis aliniad â blaenoriaethau ac anghenion Cymru, maint yr effaith, yr ychwanegedd o'i gymharu â'r hyn y gellid ei gyflawni drwy ddulliau eraill, ymarferoldeb, a chost.

Byddai rhai mesurau, megis newidiadau i feini prawf sancsiynau neu drefniadau taliadau Credyd Cynhwysol yng Nghymru, yn gofyn am newidiadau i ddeddfwriaeth y DU (yn ogystal â datganoli pwerau gweinyddol i Gymru). Er y gallai hyn fod yn rhwystr ychwanegol i gyflawni newid o'r fath, gallwch anwybyddu'r rhwystr hwn at ddibenion y cwestiwn hwn.

(Rhowch 'mwyaf addawol' ar y brig a 'lleiaf addawol' ar y gwaelod.) Os nad oes gennych chi opsiwn 'Arall' i'w ychwanegu, rhowch 'Arall' ar waelod eich rhestr a neidio'r cwestiwn nesaf.)

- Canolfan Byd Gwaith
- Y drefn sancsiynau
- Prosesau ymgeisio
- Prosesau asesu ar gyfer budd-daliadau iechyd ac/neu anabledd
- Trefniadau talu ar gyfer Credyd Cynhwysol (e.e. blaensymiau, amllder, neu daliadau uniongyrchol i landlordiaid)
- Mentrau neu ymgyrchoedd derbyn
- Arall [manywlwch]

19. Manylwch ar 'Arall' os wnaethoch chi osod yr opsiwn hwn mewn safle yn y cwestiwn blaenorol.

- a. [Blwch testun agored]

20. Os oes gennych chi unrhyw sylwadau esboniadol, nodwch nhw yma (er enghraifft, ystyried pa ganlyniadau y gellid eu cyflawni drwy'r opsiynau y gwnaethoch chi eu graddio fel y rhai mwyaf addawol):

- [Blwch testun agored]

Atodiad B

Cam 1 - canllaw pwnc cyfweliad

[Croesawu a chyflwyno hwylusydd/hwyluswyr]

Rydym wedi ein comisiynu gan Lywodraeth Cymru i ymchwilio i'r potensial i ddatganoli gweinyddiaeth nawdd cymdeithasol i Gymru.

Fel rhan o'r ymchwil hon, bydd y cyfweliadau hyn yn ein helpu i ddeall yn well y cyfleoedd, yr heriau a'r risgiau sy'n gysylltiedig â datganoli gweinyddiaeth nawdd cymdeithasol yn ogystal â pha feysydd allai fod y rhai mwyaf addas i'w datganoli, a pham. Bydd y cyfweliad yn para hyd at 1 awr.

Dylech gofio nad yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu i'r ymchwil hon ystyried datganoli'r system nawdd cymdeithasol yn ei chyfanrwydd - dim ond datganoli elfennau gweinyddol y system nawdd cymdeithasol. Er enghraifft, sut y cynhelir prosesau asesu, sut y gwneir taliadau, sut y darperir gwasanaethau a chymorth (e.e. gwasanaethau cyflogaeth) i dderbynwyr nawdd cymdeithasol, neu sut y darperir gwybodaeth am nawdd cymdeithasol. Fodd bynnag, gellir gwneud y gwahaniaeth rhwng gweinyddiaeth a pholisi mewn gwahanol ffyrdd ac nid yw bob amser yn gwbl eglur. Os oes unrhyw amheuaeth, mae'n fwy defnyddiol i ni drafod eich myfyrdodau ar feysydd allai o *bosibl* gael eu hystyried yn rhai gweinyddol yn hytrach na'u hepgor.

Oes gennych chi unrhyw gwestiynau am yr ymchwil neu eich cyfranogiad cyn i ni ddechrau?

[Os ydych chi wedi cytuno i recordio a thrawsgrifio] Yn eich ffurflen cyfranogiad, fe wnaethoch chi gytuno i gael eich recordio a thrawsgrifio, byddaf nawr yn troi hwn ymlaen ac yn dechrau'r cyfweliad. Ydy hyn dal yn iawn?

[Os nad ydych chi wedi cytuno i recordio a thrawsgrifio] Yn eich ffurflen cyfranogiad, ni wnaethoch chi gytuno i gael eich recordio a thrawsgrifio, yn lle hynny bydd fy nghydweithiwr yn cadw nodiadau drwy gydol y cyfweliad.

Cwestiynau

Cynhesu fyny

1. Beth yw eich rôl yn eich sefydliad a sut mae hyn yn berthnasol i nawdd cymdeithasol?

Awgrym: Ym mha faes o nawdd cymdeithasol mae gennych chi fwyaf o wybodaeth neu brofiad ynddo?

Cyfleoedd a heriau

2. Sut allai datganoli gweinyddiaeth nawdd cymdeithasol alluogi gwell aliniad â blaenoriaethau Siarter Budd-daliadau Cymru a blaenoriaethau eraill Llywodraeth Cymru?

Awgrym: Mae'r blaenoriaethau'n cynnwys (i) symleiddio prosesau gweinyddol, (ii) darparu system hyblyg, (iii) gwella ymwybyddiaeth a'r nifer sy'n derbyn cymorth, (iv) cefnogi plant a phobl ifanc o deuluoedd incwm isel, a (v) thrin unigolion ag urddas a pharch

Awgrym: Pa broblemau y gellid eu datrys, neu pa ganlyniadau y gellid eu cyflawni, na ellir ar hyn o bryd fynd i'r afael â nhw na'u bodloni o dan y trefniadau presennol?

3. Pa ffactorau allai gyfyngu ar botensial gweinyddiaeth nawdd cymdeithasol ddatganoledig i gyflawni ei nodau?
4. A oes unrhyw risgiau neu gostau sy'n gysylltiedig â datganoli gweinyddiaeth nawdd cymdeithasol sy'n peri pryder i chi?
5. A oes enghreifftiau o weinyddiaeth nawdd cymdeithasol ddatganoledig mewn mannau eraill yn y DU rydych chi'n credu y gallai Cymru ddysgu ohonynt?

Awgrym (os oes angen): Er enghraifft, (i) ymdrechion yr Alban i symleiddio prosesau ymgeisio a'u gwneud yn fwy hygyrch, megis newid iaith a fframio, ac (ii) ymdrechion Gogledd Iwerddon i gynyddu'r nifer sy'n derbyn rhai budd-daliadau.

Awgrym: Pa wersi fydddech chi'n eu cymryd o'r enghreifftiau hyn, a pham?

Asesu opsiynau

6. Pa feysydd o nawdd cymdeithasol (o ran grwpiau hawlwyr neu fathau o fudd-daliadau) ydych chi'n teimlo y dylid eu blaenoriaethu wrth ystyried datganoli gweinyddiaeth nawdd cymdeithasol?

Awgrym: Mae'r meysydd yn cynnwys: (i) cyflogaeth, (ii) plant a theuluoedd, (iii) tai, (iv) pobl ifanc 16–24 mlwydd oed, (v) anabledd ac iechyd gwael, a (vi) chymorth i bobl o oedran pensiwn

Awgrym: Pam y gwnaethoch chi ddewis y meysydd hyn dros eraill?

7. Beth, yn eich barn chi, yw'r opsiynau mwyaf addawol ar gyfer datganoli trefniadau nawdd cymdeithasol yng Nghymru?

Awgrym (os oes angen): Gallai'r opsiynau gynnwys (ond ddim yn gyfyngedig i) datganoli trefniadau nawdd cymdeithasol yn y meysydd canlynol.

Noder y byddai rhai o'r opsiynau hyn hefyd yn gofyn am newid deddfwriaethol ochr yn ochr â datganoli prosesau gweinyddol.

- Canolfan Byd Gwaith
- Y drefn sancsiynau
- Prosesau ymgeisio

- Proses asesu ar gyfer budd-daliadau iechyd ac/neu anabledd
- Trefniadau talu ar gyfer Credyd Cynhwysol (e.e. blaensymiau, amllder, neu daliadau uniongyrchol i landlordiaid
- Mentrau neu ymgyrchoedd derbyn

Ar gyfer y cwestiynau nesaf, byddwn yn trafod yr opsiwn yr ydych chi'n ei ystyried fel y mwyaf addawol:

8. Sut ydych chi'n meddwl y gallai'r opsiwn hwn helpu i sicrhau gwell aliniad â blaenoriaethau ac anghenion Cymru, a pham?

Awgrym: Os nad ydych chi'n meddwl y gallai, pam ddim?

9. Sut ydych chi'n meddwl y gallai'r opsiwn hwn gael effaith gadarnhaol, a pham?

Awgrym: Pa grwpiau o bobl a pha ardaloedd daearyddol ydych chi'n meddwl fyddai'n elwa fwyaf?

Awgrym: Pa ganlyniadau ydych chi'n meddwl a fyddai'n cael eu gwella?

Awgrym: Os nad ydych chi'n meddwl y gallai, pam ddim?

10. Sut ydych chi'n meddwl y gallai'r opsiwn hwn sicrhau canlyniadau gwell na'r hyn y gellid ei gyflawni drwy ddulliau eraill?

Awgrym: Os nad ydych chi'n meddwl y gallai, pam ddim?

11. Sut ydych chi'n meddwl y gellid rhoi'r opsiwn hwn ar waith yn ymarferol, a pham?

Awgrym: Os nad ydych chi'n meddwl y gallai, pam ddim?

12. Sut ydych chi'n meddwl y gellid rhoi'r opsiwn hwn ar waith yn gost effeithiol, a pham?

Awgrym: Os nad ydych chi'n meddwl y gallai, pam ddim?

13. Oes gennych chi unrhyw ffynonellau neu dystiolaeth sy'n cefnogi'r opsiwn hwn ar gyfer datganoli?

14. Pe bai datganoli yn y maes hwn yn cael ei ganiatáu, beth yn eich barn chi fyddai'r prif risgiau a'r rhwystrau y byddai angen eu goresgyn?

15. A oes opsiwn yr ydych chi'n teimlo'n gryf na ddylid ei ddatganoli? Os felly, pam?

Casgliad

16. Oes gennych chi unrhyw sylwadau perthnasol eraill i'w rhannu cyn i ni orffen?

[Diolch i'r sawl sy'n cael ei gyfweld am gymryd yr amser i fynychu'r cyfweiliad]

Atodiad C

Cam 2 - canllaw pwnc cyfweliad

[Croesawu a chyflwyno hwylusydd/hwyluswyr]

Rydym wedi ein comisiynu gan Lywodraeth Cymru i ymchwilio i'r potensial i ddatganoli gweinyddiaeth nawdd cymdeithasol i Gymru.

Yn ystod cam cyntaf yr ymchwil hon, fe wnaethom siarad ag arbenigwyr i ddeall pa opsiynau ar gyfer datganoli gweinyddiaeth nawdd cymdeithasol i Gymru sydd fwyaf addawol, yn seiliedig ar feini prawf megis ymarferoldeb, maint yr effaith, effeithiolrwydd cost, ac aliniad â blaenoriaethau Cymru ac ati. Yna fe wnaethom gytuno gyda Llywodraeth Cymru ar ddau o'r opsiynau hyn i'w symud ymlaen fel astudiaethau achos, ochr yn ochr ag astudiaeth achos o newidiadau i weinyddiaeth nawdd cymdeithasol yn yr Alban.

Rydym bellach yn ail gam yr ymchwil, lle bydd y cyfweliad hwn yn ein helpu i ddeall sut y gellid symud yr opsiynau a nodwyd ymlaen, yr heriau, y risgiau a'r canlyniadau disgwyliedig, yn ogystal â'r rhwystrau y byddai angen eu goresgyn. Bydd y cyfweliad yn para hyd at 40 munud.

Dylech gofio nad yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu i'r ymchwil hon ystyried datganoli'r system nawdd cymdeithasol yn ei chyfanrwydd - dim ond datganoli elfennau gweinyddol y system nawdd cymdeithasol.

Oes gennych chi unrhyw gwestiynau am yr ymchwil neu eich cyfranogiad cyn i ni ddechrau?

[Os ydych chi wedi cytuno i recordio a thrawsgrifio] Yn eich ffurflen cyfranogiad, fe wnaethoch chi gytuno i gael eich recordio a thrawsgrifio, byddaf nawr yn troi hwn ymlaen ac yn dechrau'r cyfweliad. Ydy hyn dal yn iawn?

[Os nad ydych chi wedi cytuno i recordio a thrawsgrifio] Yn eich ffurflen cyfranogiad, ni wnaethoch chi gytuno i gael eich recordio a thrawsgrifio, yn lle hynny bydd fy nghydweithiwr yn cadw nodiadau drwy gydol y cyfweliad.

Cwestiynau - astudiaethau achos Cymru

[Hwylusydd i ddisgrifio'r opsiwn perthnasol i'r sawl sy'n cael ei gyfweld – dewiswch un o'r ddau isod]

- Astudiaeth achos 1: Bydd yr astudiaeth achos hon yn canolbwyntio ar y potensial i ddatganoli wella rhannu data, gan roi gwell gwelededd o amgylchiadau aelwydydd bregus, a all helpu i greu system hyblyg person-ganolog, sy'n cynyddu'r nifer sy'n derbyn cymorth.
- Astudiaeth achos 2: Bydd yr astudiaeth achos hon yn canolbwyntio ar y potensial i ddatganoli greu system fwy hyblyg, gefnogol, a pherson-ganolog, e.e. drwy newid y cydbwysedd rhwng cymorth wyneb yn wyneb a chymorth ar-lein a/neu gyddleoli swyddfeydd budd-daliadau ochr yn ochr â gwasanaethau perthnasol.

Cynhesu fyny

1. Beth yw eich rôl yn [sefydliad] a sut mae hyn yn berthnasol i nawdd cymdeithasol?

Awgrym: Sut mae eich gwaith yn ymwneud yn benodol â [yr opsiwn astudiaeth achos perthnasol]?

Trafod opsiwn

2. [Astudiaeth achos 1:] Pa ddata allwch chi ei gyrchu ar hyn o bryd, pa ddata na allwch chi ei gyrchu, a pham?

[Astudiaeth achos 2:] Beth yw'r trefniadau presennol o ran ble y gall pobl sy'n ceisio cyngor ar fudd-daliadau fynd?

3. Beth yw prif ddiben y newid, o ran blaenoriaethau ac anghenion Cymru, a Siarter Budd-daliadau Cymru yn benodol?

Awgrym: [Astudiaeth achos 2:] Pa wasanaethau perthnasol ydych chi'n meddwl y gellid eu cydleoli â gwasanaethau budd-daliadau, a pham?

4. Ym mha ffyrdd y byddai angen trosglwyddo capasiti ac awdurdod o'r DWP i Lywodraeth Cymru?

5. A oes setliadau cyfreithiol neu gyllidol y byddai angen gweithio drwyddynt rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU?

6. Beth yw'r gofynion adnoddau y byddai'r newid hwn yn eu golygu i Gymru?

Awgrym: Ydych chi'n rhagweld unrhyw fylchau sgiliau penodol neu anghenion hyfforddi ymhlith staff a fyddai'n darparu gwasanaethau datganoledig?

7. Beth yw effeithiau tebygol y newid, yn gadarnhaol ac yn negyddol, ar dderbynwyr budd-daliadau a chymunedau yng Nghymru? Beth fyddai ei effaith ar grwpiau bregus ac ymylol?

Awgrym: Sut y gellid mesur yr effeithiau hyn?

Awgrym: Sut y gellid gwella'r effeithiau cadarnhaol? Sut y gellid lliniaru yn erbyn yr effeithiau negyddol?

Casgliad

8. Oes gennych chi unrhyw sylwadau perthnasol eraill i'w rhannu cyn i ni orffen?

Cwestiynau - astudiaeth achos yr Alban

[Hwylusydd i ddisgrifio'r astudiaeth achos berthnasol i'r cyfwelydd]

- Bydd yr astudiaeth achos hon yn canolbwyntio ar y gwersi y gellir eu dysgu o ymdrechion yr Alban i ail-fframio nawdd cymdeithasol a rhoi urddas a pharch wrth

wraidd y system. Mae hyn yn cynnwys newidiadau i hyfforddiant, fframio, a chyfathrebu.

Cynhesu fyny

1. Beth yw eich rôl yn [sefydliad] a sut mae hyn yn berthnasol i nawdd cymdeithasol?

Awgrym: Sut mae eich gwaith yn ymwneud yn fwy penodol â [yr astudiaeth achos perthnasol]?

Trafod yr astudiaeth achos

2. Beth oedd diben y newid(iadau) yn yr Alban?
3. Pa gamau ymarferol a pha drawsnewidiad sefydliadol a gymerwyd i'w roi ar waith?
4. A oedd unrhyw gymhlethdodau neu rwystrau annisgwyl wrth gyflawni'r canlyniadau arfaethedig yn effeithiol?
5. Beth yn eich barn chi fyddai'n cael ei wneud yn wahanol o edrych yn ôl?
6. Beth mae gwerthusiad neu dystiolaeth arall bellach yn ei ddweud wrthym am yr effaith a gafodd y newid(iadau) ar dderbynwyr budd-daliadau?

Casgliad

7. Oes gennych chi unrhyw sylwadau perthnasol eraill i'w rhannu cyn i ni orffen?